

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Mawrth 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddPlant

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPlant@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddPlant](https://twitter.com/SeneddPlant)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Mawrth 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddPlant

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Jayne Bryant AS
Llafur Cymru



James Evans AS
Ceidwadwyr Cymreig



Laura Anne Jones AS
Ceidwadwyr Cymreig



Ken Skates AS
Llafur Cymru



Buffy Williams AS
Llafur Cymru



Sioned Williams AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	7
Argymhellion	8
1. Cyflwyniad.....	13
Dull y Pwyllgor	14
Trafodaethau pwyllgorau eraill ar y Bil	15
2. Cefndir y Bil.....	16
Cefndir y Bil.....	16
Y Bil drafft.....	17
3. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth	18
Amcanion polisi.....	18
Yr angen am ddeddfwriaeth.....	21
Parch cydradd	22
Sail y dystiolaeth	24
Gweithredu	24
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.....	27
Effaith Deddf y Farchnad Fewnol.....	28
Safbwynt y Pwyllgor	30
Amcanion polisi.....	30
Parch cydradd	30
Sail y dystiolaeth	31
Gweithredu	31
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.....	31
Effaith Deddf y Farchnad Fewnol.....	32
4. Rhan 1: Fframwaith Strategol ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil	33
Y Comisiwn.....	33

Dyletswyddau strategol.....	39
Dyletswydd cyfle cyfartal	41
Dyletswyddau gwelliant parhaus	41
Dyletswyddau cydweithio a chystadleurwydd	41
Cryfhau gwaith ymchwil yn y dyletswyddau strategol.....	42
Rhyddid academiaidd ac ymreolaeth sefydliadol	43
Hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg	45
Dyletswydd llais y dysgwr.....	48
Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol	48
Yr egwyddor hyd braich.....	49
Safbwynt y Pwyllgor	55
Y Comisiwn	55
Dyletswyddau strategol.....	56
Egwyddor hyd braich/Annibyniaeth y Comisiwn	60

5. Rhan 2: Cofrestru a Rheoleiddio Darparwyr Addysg Drydyddol62

Beth mae'r darpariaethau yn Rhan 2 yn ei wneud	63
Pennod 1: Cofrestru darparwyr addysg drydyddol	63
Pennod 2: Sicrhau ansawdd a gwella ansawdd	66
Pennod 3: Darpariaethau gorfodi a gweithdrefnol pellach.....	68
Cofrestru a statws elusennol	70
Sicrhau Ansawdd	76
Addysg Uwch (Corff Ansawdd Dynodedig)	78
Addysg bellach a darpariaeth drydyddol (Estyn)	81
Pwerau uniongyrchol Gweinidogion Cymru dros sefydliadau addysg bellach, ac mewn perthynas â sefydliadau addysg bellach	82
Safbwynt y Pwyllgor	83
Cofrestru a statws elusennol	83
Sicrhau Ansawdd	83

Pwerau uniongyrchol Gweinidogion Cymru dros sefydliadau addysg bellach.....84

6. Rhan 3: Sicrhau Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'u Cyllido.....85

Beth mae'r darpariaethau yn Rhan 3 yn ei wneud86

Cytundebau canlyniadau89

Dysgu gydol oes a dysgu oedolion92

Cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi.....97

Y Chweched Dosbarth99

Pwerau cyllido Gweinidogion Cymru103

Cydbwysedd cyllid a thryloywder105

Cydweithio a chydsyniad106

Safbwynt y Pwyllgor109

Cytundebau canlyniadau109

Dysgu gydol oes a dysgu oedolion109

Cydbwyso cyllid a thryloywder109

Cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi110

Pwerau cyllido Gweinidogion Cymru111

Y Chweched Dosbarth111

Cydweithio a chydsyniad112

7. Rhan 4: Prentisiaethau 113

Trefniadau rheoli strategol ar gyfer y system brentisiaethau114

Safbwynt y Pwyllgor115

8. Rhan 5: Diogelu Dysgwyr, Gweithdrefnau Cwyno ac Ymgysylltu â Dysgwyr 116

Llais y dysgwr116

Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr119

Gweithdrefnau cwyno120

Cynlluniau Diogelu Dysgwyr.....121

Safbwynt y Pwyllgor124

	Llais y dysgwr	124
	Cynlluniau Diogelu Dysgwyr	124
9.	Rhan 6: Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau	126
	Safbwynt y Pwyllgor	128
10.	Rhan 7: Amrywiol a Chyffredinol.....	129
	Diddymu Corfforaethau Addysg Uwch.....	129
	Diffiniadau	132
	Rôl unigryw y Brifysgol Agored	132
	Y defnydd a wneir o bwerau gwneud rheoliadau	133
	Safbwynt y Pwyllgor	135
	Diddymu Corfforaethau Addysg Uwch.....	135
	Diffiniadau	136
	Rôl unigryw y Brifysgol Agored	136
	Y defnydd a wneir o bwerau gwneud rheoliadau	136
11.	Anghenion Dysgu Ychwanegol	138
	Safbwynt y Pwyllgor	141
	Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar	142
	Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	145
	Gwybodaeth ychwanegol	147

Rhagair y Cadeirydd

Y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yw Bil cyntaf Llywodraeth Cymru i'w gyflwyno yn y Senedd hon. Yn ogystal â mynd i'r afael â manylion y Bil, mae wedi ein helpu i ehangu ein dealltwriaeth o rai o'r heriau a chyfleoedd y mae'r sector addysg ôl-orfodol yn eu hwynebu. Byddwn yn parhau i ystyried rhai o'r materion ehangach hyn yn ystod tymor y Senedd hon.

Drwy gasglu tystiolaeth, rydym wedi cael ein hatgoffa o rôl bwysig y sector hwn. Mae'r dysgu, yr hyfforddiant a'r gwaith ymchwil a wneir yn newid bywydau, ac yn ysgogi economi iach a mwy cyfartal. Y gobaith yw y bydd y Bil hwn yn helpu i ddod â mwy o gydlyniant a gweledigaeth strategol gliriach i'r sector. Bydd hyn, yn ei dro, yn gwneud y sector yn fwy ymatebol a bydd y sector yn gallu wynebu'r heriau cymhleth lluosog, megis newid hinsawdd, ac adferiad ar ôl pandemig, y mae pob rhan o gymdeithas yng Nghymru yn mynd i'r afael â hwy.

Rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, ac rydym yn argymhell bod y Senedd yn derbyn y rhain. Mae'r adroddiad yn nodi nifer o welliannau yr hoffem iddynt gael eu gwneud i'r Bil, y credwn y byddant yn ei gryfhau ac yn ei wella. Edrychwn ymlaen at ymateb y Gweinidog i'r argymhellion hyn.

Ni allai ein gwaith craffu ar y Bil fod wedi digwydd heb amser ac arbenigedd pawb a roddodd dystiolaeth ysgrifenedig a llafar. Anaml y mae llawer o amser i randdeiliaid fynegi eu barn wrth graffu ar Fil. Roedd hyn yn her arbennig gyda Bil o'r maint hwn ac un sydd mor dechnegol. Hoffwn ddiolch i'r holl bobl a rannodd eu barn ac sydd wedi helpu i lywio ein gwaith craffu ar y Bil pwysig hwn.

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Argymhellion

Argymhelliad 1. Bod y Senedd yn derbyn egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)..... Tudalen 30

Argymhelliad 2. Bod y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiweddarau i restru'r amcanion polisi ar gyfer y Bil a sut y mae darpariaethau'r Bil yn ceisio eu bodloni..... Tudalen 30

Argymhelliad 3. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir i'r Pwyllgor, y Comisiwn a'r sector ehangach sut y mae'n diffinio parch cydradd, sut olwg fyddai ar gyflawni parch cydradd, a sut y mae'n disgwyl i'r sector ôl-16 gyflawni hyn..... Tudalen 31

Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Asesiad diwygiedig o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n ystyried y materion a godir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol cyn trafodion Cyfnod 2. Tudalen 32

Argymhelliad 5. Bod y Gweinidog yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor a Phrifysgolion Cymru ynghylch pam mae'n credu nad oes gan Ddeddf y Farchnad Fewnol oblygiadau i'r Bil hwn. Tudalen 32

Argymhelliad 6. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau i Atodlen 1 yng Nghyfnod 2 i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru bod yn rhaid iddynt roi sylw i'r angen i sicrhau bod y Bwrdd (yn ei gyfanrwydd) yn adlewyrchu ehangder y ddarpariaeth addysg ac ymchwil, ac amrywiaeth Cymru. Dylai hyn gwmpasu penodi pob aelod i'r Comisiwn, gan gynnwys aelodau cyswllt..... Tudalen 55

Argymhelliad 7. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynyddu cynrychiolaeth gweithwyr a dysgwyr ar y Comisiwn, ac egluro disgwyliad y Llywodraeth yn y Memorandwm Esboniadol y dylai'r Comisiwn geisio mwy na'r isafswm a nodir yn y ddeddfwriaeth. Tudalen 56

Argymhelliad 8. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi hawliau pleidleisio i'r aelodau cyswllt dysgwyr a gweithwyr ar y Comisiwn. Tudalen 56

Argymhelliad 9. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y broses benodi ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi yn cynnwys proses cyn penodi gan bwyllgor perthnasol y Senedd. Tudalen 56

Argymhelliad 10. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys dyletswydd strategol i hyrwyddo cydweithio a chystadleurwydd ym maes gwaith ymchwil ac arloesi..... Tudalen 57

Argymhelliad 11. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys ymchwilwyr yn adran 5(2) ynghylch gallu'r gweithlu addysg drydyddol ac ymchwil. Tudalen 57

Argymhelliad 12. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ychwanegu dyletswydd gyffredinol i ddiogelu ymreolaeth sefydliadol darparwyr addysg drydyddol.
..... Tudalen 57

Argymhelliad 13. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ehangu rhyddid academiaidd y tu hwnt i ddarpariaeth addysg uwch i gynnwys gwaith ymchwil ac arloesi, ac, er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol yn briodol, ehangu darpariaeth ym mhob lleoliad addysg drydyddol arall. Tudalen 57

Argymhelliad 14. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod rhyddid academiaidd yn cwmpasu academyddion unigol, o ran eu haddysgu a'u gwaith ymchwil..... Tudalen 58

Argymhelliad 15. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gryfhau'r ddyletswydd ar y Comisiwn i hyrwyddo addysg drydyddol Gymraeg i adlewyrchu uchelgais Cymraeg 2050 a rôl bwysig y Comisiwn wrth helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr. Mae'n rhaid i'r ddyletswydd ar y Comisiwn fod yn gryfach a mynd ymhellach nag "ateb galw rhesymol".
..... Tudalen 58

Argymhelliad 16. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 fel bod y ddyletswydd strategol i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei hehangu i gynnwys hyrwyddo gwaith ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg. Tudalen 58

Argymhelliad 17. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i nodi sut y bydd y Comisiwn yn gweithio ar y cyd ac yn strategol â'r Coleg Cymraeg ar gynllunio a chyflwyno darpariaeth Gymraeg, er mwyn osgoi posibilrwydd dyblygu..... Tudalen 59

Argymhelliad 18. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ychwanegu dyletswydd strategol ar y Comisiwn i hyrwyddo llais y dysgwr. Tudalen 59

Argymhelliad 19. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ychwanegu dyletswydd strategol partneriaeth gymdeithasol ar y Comisiwn. Tudalen 60

Argymhelliad 20. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddiwygio adran 13 o'r Bil er mwyn sicrhau na ellir newid cynllun strategol y Comisiwn heb gytundeb y Comisiwn..... Tudalen 61

Argymhelliad 21. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddiwygio adran 19 o'r Bil i sicrhau bod cyfarwyddydau cyffredinol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn cael eu gwneud drwy Orchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol..... Tudalen 61

Argymhelliad 22. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu dull mwy cyson ac eang o ymdrin â'r dyletswyddau cyfle cyfartal ac ehangu mynediad ar gyfer pob rhan o'r sector ôl-16, ac nid dim ond y darparwyr hynny sy'n gorfod cofrestru..... Tudalen 83

Argymhelliad 23. Bod y Gweinidog yn amlinellu naill ai yn y ddadl Cyfnod 1 neu'n ysgrifenedig cyn y ddadl Cyfnod 1 sut y byddai Llywodraeth Cymru yn rheoli unrhyw newidiadau i rôl a swyddogaeth Estyn mewn perthynas â darpariaethau'r Bil hwn. Tudalen 84

Argymhelliad 24. Bod y Gweinidog yn rhoi eglurder llwyr ynghylch a fydd corff cenedlaethol yn cael ei sefydlu ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned..... Tudalen 109

Argymhelliad 25. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd gyllido gytbwys ar wyneb y Bil..... Tudalen 110

Argymhelliad 26. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswyddau ar y Comisiwn i gyhoeddi manylion, fan leiaf, ei ddyraniadau cyllid; ei fethodolegau cyllido; ei fformiwlâu ariannu; a'i alldro cyllidol, yn ogystal â gosod dyletswydd i fod yn dryloyw yn ei benderfyniadau cyllido..... Tudalen 110

Argymhelliad 27. Bod gwelliannau'n cael eu cyflwyno yng Nghyfnod 2 i alluogi'r Comisiwn i ddarparu cronfa ymchwil ac arloesi i ystod gyfyngedig o gyrff anghofrestredig..... Tudalen 111

Argymhelliad 28. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i dynnu gwahaniaeth clir rhwng pwerau Gweinidogion Cymru i gyllido darparwyr addysg drydyddol yn uniongyrchol i gynnig darpariaeth cyflogadwyedd, a phwerau cyllido ehangach y Comisiwn.
..... Tudalen 111

Argymhelliad 29. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu mesurau diogelu ychwanegol i sicrhau nad yw unrhyw gynlluniau a gyflwynir gan y Comisiwn ar gyfer newidiadau i ddarpariaeth chweched dosbarth yn cael effaith andwyol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg na darpariaeth mewn lleoliad ysgol grefyddol..... Tudalen 111

Argymhelliad 30. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adran 105, a'i fod yn nodi dull gwahanol o reoli diwydrwydd dyladwy pan fydd cyllid yn cael ei drosglwyddo i drydydd partion. Tudalen 112

Argymhelliad 31. Bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o'r gwaith o ddatblygu fframwaith prentisiaethau sy'n ystyried y cyd-destun ehangach y tu hwnt i'r Comisiwn. Tudalen 115

Argymhelliad 32. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod yn rhaid i gynlluniau diogelu dysgwyr ystyried lles myfyrwyr/dysgwyr a sicrhau bod myfyrwyr yn gallu parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Tudalen 125

Argymhelliad 33. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 126 fel mai dim ond pan fydd yn ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau Gweinidogion Cymru y gall Gweinidogion Cymru ofyn am wybodaeth gan y Comisiwn. Tudalen 128

Argymhelliad 34. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i greu gofyniad diamwys i gael cydsyniad corff llywodraethu corfforaeth addysg uwch cyn ei diddymu, neu y diddymir ar gais corff llywodraethu corfforaeth addysg uwch. Tudalen 136

Argymhelliad 35. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i ehangu'r diffiniad i gynnwys dysgu oedolion yn y gymuned, yn unol â'r diffiniad yn y Nodiadau Esboniadol. Tudalen 136

Argymhelliad 36. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rheoliadau drafft ar:

- Gategoriâu cofrestru (adran 23(2))
- Amodau cofrestru (adrannau 25(3); 31(1); 32)
- Dynodi darparwyr addysg drydyddol eraill (adran 81(4))
- Sicrhau a chyllido addysg drydyddol (adran 91(3); 91(7)(b))
- Prentisiaethau (adran 107(4))
- Y Brifysgol Agored (adran 140(1))

cyn trafodion Cyfnod 2. Tudalen 137

Argymhelliad 37. Bod y Gweinidog yn rhoi mwy o eglurder, naill ai fel rhan o'r ddadl yng Nghyfnod 1 neu'n ysgrifenedig cyn i Gyfnod 2 ddechrau ar sut y bydd y Bil yn cyd-fynd â Deddf 2018 ac y bydd yn cefnogi darpariaeth a chymorth priodol i ddysgwyr a myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol..... Tudalen 141

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil ym mis Tachwedd 2021. Rydym wedi casglu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i lywio ein gwaith craffu. Mae pwyllgorau eraill y Senedd hefyd wedi gwneud gwaith craffu ar agweddau ariannol a chyfansoddiadol y Bil.

1. Ar 1 Tachwedd 2021, cyflwynodd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ("y Gweinidog") y **Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)** ("y Bil") a **Memorandwm Esboniadol** sy'n cyd-fynd ag ef. Cyhoeddwyd **Datganiad o Fwriad y Polisi** ar gyfer is-ddeddfwriaeth, pwerau gwneud cyfarwyddydau a chanllawiau ar 2 Tachwedd 2021.

2. Ar 2 Tachwedd 2021, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn, yn amlinellu y bydd y Bil yn sefydlu comisiwn addysg drydyddol ac ymchwil, wrth ddiddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("CCAUC"). Wrth wneud hyn, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

*"Am y tro cyntaf yn neddfwriaeth Cymru, byddwn yn dwyn y sectorau canlynol ynghyd mewn un man: addysg uwch ac addysg bellach Cymru, chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned, yn ogystal â chyfrifoldeb am ymchwil ac arloesi. Yn y Bil, rydyn ni'n nodi naw dyletswydd strategol ar gyfer y comisiwn. Gyda'i gilydd, maen nhw'n darparu fframwaith cynllunio strategol, hirdymor ar gyfer yr hyn y mae angen i'r sector gwerthfawr ac amrywiol hwn ei gyflawni, wrth i ni adfer, adnewyddu a diwygio."*¹

3. Yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2021, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil i'n Pwyllgor drafod yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt. Ar 12 Hydref 2021, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylem gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 4 Mawrth 2022.²

¹ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 146

² Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), 2 Tachwedd 2021

Dull y Pwyllgor

4. Trafodwyd ein dull o graffu o ran Cyfnod 1 ar 4 Tachwedd 2021. Cytunwyd ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr gwaith hwn.

Ystyried:

- Egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodir.
- Wrth ffurfio barn ar y mater hwn, efallai y byddwch am ystyried Rhannau unigol o'r Bil:
 - i. Rhan 1: fframwaith strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil
 - ii. Rhan 2: cofrestru a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol
 - iii. Rhan 3: sicrhau a chyllido addysg drydyddol ac ymchwil
 - iv. Rhan 4: prentisiaethau
 - v. Rhan 5: diogelu dysgwyr, gweithdrefnau cwyno a chynnwys dysgwyr
 - vi. Rhan 6: gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd
 - vii. Rhan 7: darpariaethau amrywiol a darpariaethau cyffredinol
- Unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil ac a yw'r Bil yn eu hystyried (gan gynnwys cychwyn a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig)
- Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol);
- A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- Goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol).

5. Cynhaliwyd **ymgyngoriad ysgrifenedig agored** rhwng 5 Tachwedd 2021 ac 17 Rhagfyr 2021. Cawsom 46 o ymatebion ysgrifenedig. (Gweler y manylion yn Atodiad 1.) Cynhaliwyd 11 o sesiynau tystiolaeth lafar rhwng 18 Tachwedd 2021 a 13 Ionawr 2021. (Gweler y manylion yn Atodiad 2.) Hefyd, cawsom sesiwn frifio dechnegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar 4 Tachwedd 2021.

6. Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'i amser i ymateb i'r ymgynghoriad, naill ai'n ysgrifenedig neu drwy roi tystiolaeth lafar. Rydym yn deall y bu amserlen dynn ar gael i ddarparu ymatebion manwl ar Fil eang a hirfaith, ond mae'r dystiolaeth a gawsom wedi bod yn amhrisiadwy yn ein gwaith craffu.

7. Gan fod agweddau ar y Bil yn croestorri cylchoedd gorchwyl y pwyllgorau, ysgrifennwyd at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn gofyn a oedd am fod yn rhan o agweddau ar ein gwaith craffu o ran Cyfnod 1.³ Aeth aelod o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i'r sesiwn friffio dechnegol, a gofynnodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig am gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ein gwaith craffu.⁴

Trafodaethau pwyllgorau eraill ar y Bil

8. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y Gweinidog ar 24 Tachwedd 2021. Yn dilyn y sesiwn hon, **ysgrifennodd** y Pwyllgor Cyllid yn gofyn am ragor o wybodaeth gan y Gweinidog. **Ymatebodd** y Gweinidog ar 22 Rhagfyr. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad ar 4 Mawrth 2022.

9. Clywodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dystiolaeth gan y Gweinidog ar 6 Rhagfyr 2021. Wedi hynny, **ysgrifennodd** at y Gweinidog yn gofyn am ragor o wybodaeth. **Atebodd** y Gweinidog ar 18 Ionawr 2022. Cyhoeddodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ei adroddiad ar 1 Mawrth 2022.

³ Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (PPIA) at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Hydref 2020

⁴ Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, at Gadeirydd y Pwyllgor PPIA, 1 Rhagfyr 2020

2. Cefndir y Bil

Mae'r Bil wedi bod yn yr arfaeth ers amser maith, gan ddechrau gydag adroddiad Tuag at 2030 yn 2016, yna nifer o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ar Fil drafft. Bu oedi cyn cyflwyno'r Bil oherwydd y pandemig, ac arweiniodd yr oedi at ragor o newidiadau i'r Bil.

Cefndir y Bil

10. Yn 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Athro Ellen Hazelkorn i adolygu'r trefniadau goruchwyllo addysg ôl-orfodol yng Nghymru. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys 'cyfeiriad penodol' at rôl a swyddogaeth CCAUC yn y dyfodol. Yn adroddiad terfynol yr Athro Hazelkorn, sef "Tuag at 2030", dywedodd y byddai "angen" deddfwriaeth newydd ac y dylid ei chyflwyno "mor gyflym ac effeithlon â phosibl er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen, cyfyngau polisi, ac aflonyddu a gwrthdynnu sylw" i'r sector.⁵

11. Nododd Llywodraeth Cymru ddau brif argymhelliad o'r adolygiad hwn:

- Datblygu gweledigaeth hollgynhwysol ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO);
- Sefydlu corff hyd braich newydd a fyddai'n gyfrifol am drosolygu, a rhoi arweiniad a chyfarwyddyd strategol i'r sector.⁶

12. Ym mis Mehefin 2017, nododd Llywodraeth Cymru ei chynigion lefel uchel ar gyfer diwygio'r sector AHO, yn y **Papur Gwyn "Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig."** Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn awgrymu bod darparwyr dysgu, sefydliadau a dysgwyr yn "cefnogi'r cynigion ar gyfer diwygio yn gyffredinol".⁷

⁵ Yr Athro Ellen Hazelkorn, **Tuag at 2030, Pennod 6**, 10 Mawrth 2016

⁶ Llywodraeth Cymru, **Memorandwm Esboniadol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**, paragraff 4.2, 1 Tachwedd 2020

⁷ Llywodraeth Cymru, **Memorandwm Esboniadol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**, paragraff 4.8, 1 Tachwedd 2020

13. Ym mis Ebrill 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad “**Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf**” gyda manylion am sut y gellid diwygio'r system AHO. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod cefnogaeth eang i'r egwyddorion diwygio, ond mae'n amlinellu'r meysydd lle roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen rhagor o feddwl.⁸

Y Bil drafft

14. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, oherwydd natur dechnegol y Bil, a'i apêl gyfyngedig i'r cyhoedd, nad oedd ymgynghoriad ar Fil drafft yn mynd i gael ei gynnal i ddechrau. Fodd bynnag, roedd gohirio cyflwyno'r Bil o ganlyniad i bandemig COVID-19 yn gyfle i ymgynghori ar Fil drafft.⁹

15. Galwodd ein Pwyllgor blaenorol yn y Bumed Senedd, fel rhan o'i waith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, i Fil drafft gael ei gyhoeddi.¹⁰

16. Cyhoeddwyd y **Bil drafft** ar 14 Gorffennaf 2020, yna cyhoeddwyd gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector AHO ym mis Tachwedd 2020. O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn ac oherwydd “gwaith datblygu polisi parhaus”, gwnaed nifer o newidiadau i'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Mae tabl 4.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r newidiadau hyn.¹¹

17. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym eu bod yn gyffredinol yn cefnogi'r newidiadau a wnaed i'r Bil o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Ceir manylion y rhain ym mhenodau ac adrannau perthnasol yr adroddiad.

⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), paragraffau 4.12-4.13, 1 Tachwedd 2020

⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), paragraff 4.14, 1 Tachwedd 2020

¹⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, paragraff 140, Rhagfyr 2019

¹¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), tabl 4.1, 1 Tachwedd 2020

3. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth


Mae gan y Bil gefnogaeth gyffredinol eang gan randdeiliaid, ond nododd pob un feysydd i'w diwygio. Rydym yn croesawu'r Bil ac yn cytuno â'r egwyddorion cyffredinol, ar yr amod y cyflwynir rhagor o newidiadau.

Amcanion polisi

18. Nid yw'r amcanion polisi y bwriedir i'r Bil helpu i'w cyflawni wedi'u nodi'n glir yn y Memorandwm Esboniadol. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

- bod y Bil yn creu corff a noddir gan Lywodraeth Cymru ("y Comisiwn") ac mai bwriad y polisi yw i'r Comisiwn allu ymdrin â'r sectorau addysg ôl-16 a oedd gynt ar wahân 'fel un sector'.
- bod Llywodraeth Cymru wedi drafftio gweledigaeth anstatudol ar gyfer y sector addysg drydyddol. Mae wedi disgrifio sefydlu'r Comisiwn fel 'agwedd allweddol' ar wireddu'r weledigaeth honno, gan ddadlau bod dyletswyddau strategol y Comisiwn yn cyd-fynd â'r weledigaeth. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi pum nod lefel uchel i'r Comisiwn (sy'n wahanol mewn sawl ystyr i'r nodau yn y weledigaeth) ac 11 amcan lefel uchel i'r Comisiwn.

19. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys ffeithlun sy'n nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru.



Nodau lefel uchel y Comisiwn a nodwyd

- Cael system sy'n cryfhau llesiant a sylfeini economaidd Cymru, yn annog menter, yn ymateb i anghenion cyflogwyr ac yn galluogi sylfaen ymchwil berthnasol sy'n tyfu.
- Cael system sy'n galluogi dysgu, asesu a chynnydd trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cael system sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n hyrwyddo dysgu gydol oes ac yn cyflwyno dewis ac arweiniad effeithiol, ynghyd â mynediad teg at gyfleoedd a llwybrau dysgu priodol.
- Cael system hynod gadarn, integredig, gynaliadwy ac ymatebol sy'n hyrwyddo cydweithredu, rhagoriaeth; ac sy'n rheoleiddio ag ymreolaeth.
- Cael system a gefnogir gan ddarparwyr cydweithredol ac ymgysylltiol sy'n cyfoethogi'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.¹²

¹² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), paragraff 7.6, 1 Tachwedd 2020

Amcanion lefel uchel y Comisiwn a nodwyd

Mewn perthynas â'r system:

- Bod yn ymatebol i anghenion cyflogwyr ac ymdrin â'r bylchau sgiliau.
- Gwella safle (fe'i diffinnir ar hyn o bryd gan safleoedd y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil), enw da a chyllid ymchwil sefydliadau ymchwil.
- Gwella cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau.
- Codi'r safonau i bawb; gwella cyfranogiad, cynnydd, perfformiad a deilliannau dysgwyr.
- Gwella cynnig y cwricwlwm.
- Gwella profiad dysgwyr a mynegi llais dysgwyr.
- Gwella enw da, ystwythder a chyfeiriad addysg drydyddol a hyfforddiant.
- Cyflwyno system well, gydymffurfio ac effeithiol ar gyfer casglu, dadansoddi a dosbarthu data, sef system a fydd yn sicrhau bod gwybodaeth amserol, hygyrch a pherthnasol am addysg drydyddol yng Nghymru ar gael i bawb sydd ei hangen.
- Lleihau cystadleuaeth a dyblygu diangen mewn cyrsiau.
- Gwella cydlyniant a chysondeb gwaith monitro ariannol a gwaith monitro perfformiad, ynghyd â sicrhau ansawdd.
- Gwella'r defnydd a wna'r gymuned o gyfleusterau addysg drydyddol a gwella'r cysylltedd.¹³

20. Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch eglurder yr amcanion polisi yn y Bil. Dywedodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru fod nodau ac amcanion y ddeddfwriaeth yn glir¹⁴. Dywedodd Estyn ei bod yn credu bod cyflwyno'r dyletswyddau strategol yn Rhan 1 o'r Bil wedi'i gwneud yn llawer cliriach sut y bydd y Bil yn cyflawni'r amcanion polisi.¹⁵

¹³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), paragraff 7.7, 1 Tachwedd 2020

¹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 124

¹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 299

21. Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo bod angen mwy o eglurder. Dywedodd Colegau Cymru y gellid gwneud rhywfaint o fwriad y polisi'n gliriach ac y gellid egluro rhai o'r manylion penodol am y nodau a'r trywydd.¹⁶ Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ("FfHCC") ei fod yn ansicr pa faterion y byddai sefydlu'r Comisiwn yn mynd i'r afael â hwy.¹⁷

22. Dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai cynnwys y naw dyletswydd strategol ar wyneb y Bil yn ymgorffori yn y gyfraith, am y tro cyntaf, weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector. O ganlyniad i hynny, roedd o'r farn bod y Bil yn bodloni'r amcanion sylfaenol.¹⁸

Yr angen am ddeddfwriaeth

23. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn cefnogi'r angen am ddeddfwriaeth i hybu agenda Tuag at 2030. Dywedodd CCAUC y gellir cyflawni hyn a hyn drwy sefydlu disgwyliaid clir, ond bod angen trefniadau statudol newydd, cyson a syml er mwyn cyrraedd y nod.¹⁹ Roedd y Brifysgol Agored yng Nghymru o'r farn bod y Bil yn gyfle i sicrhau bod dysgu gydol oes yn bosiblwydd realistig i bawb yng Nghymru a nododd fanteision hyn i unigolion a'r economi ehangach a chymdeithas.²⁰ Roedd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn credu y bydd y Bil yn darparu fframwaith cryf a chynaliadwy i'r sector wynebu heriau yn y dyfodol.²¹

24. Dywedodd FfHCC nad oedd yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni rhai o'r amcanion polisi.²² Er y bu pryderon difrifol gan Gymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) ynghylch sefydlu'r Comisiwn, roedd yn credu ei fod yn cynrychioli sefydlu sefydliad anllywodraethol lled-ymreolaethol (cwango) heb atebolrwydd democrataidd.²³

25. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog pam roedd angen deddfwriaeth newydd, nododd y cryfderau yn y fframwaith deddfwriaethol presennol, ond bod y Bil yn broses i adeiladu a datblygu ar y rhain. Dywedodd nad oes modd datrys y gwahaniaethau sylfaenol drwy botsio. Roedd yn credu bod y Bil yn taro'r cydbwysedd o ran cadw'r elfennau sy'n gweithio ar hyn o bryd wrth symud y

¹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 246

¹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 7

¹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 100

¹⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 251

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12, Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraff 1.4

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 25, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, paragraff 1.2

²² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 7

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 04, NASUWT, paragraff 8

Llywodraeth ymlaen a helpu'r sector i symud ymlaen.²⁴ Aeth ymlaen i'w ddisgrifio fel Bil sy'n cyflawni pethau am y tro cyntaf, mewn llawer o ffyrdd.²⁵

Parch cydradd

26. Soniodd y Gweinidog yn ei dystiolaeth gychwynnol i'r Pwyllgor am gyflawni parch cydradd, a'i fod yn credu bod y Bil yn darparu'r arfau i wneud hyn. Dywedodd y canlynol:

*"The fact that both vocational and academic providers are included within the same strategic umbrella of policy auspices ... will encourage that, will encourage more collaboration, less competition, and that is good for parity of esteem ... at the other end, it's about having a common view of quality across all parts of the sector, and that, I think, will also drive parity of esteem ..."*²⁶

27. Dywedodd Addysg Oedolion Cymru wrthym ei bod yn anodd iawn ymdrin â pharch cydradd, ond bod y Comisiwn yn gyfle i gyflawni hynny.²⁷ Hefyd, dywedodd na fyddai parch cydradd llwyr byth yn cael ei gyflawni, ond y bydd pethau'n llawer mwy cydradd nag y maent ar hyn o bryd.²⁸ Dywedodd FfHCC wrthym y bydd angen arweinyddiaeth hynod gryf yn y Comisiwn i gyflawni tegwch ar draws y darn.²⁹

28. Roedd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) Cymru yn gobeithio y byddai dod â'r holl addysg ôl-16 dan un comisiwn yn arwain at fwy o barch cydradd a mwy o ddewis a chyfleoedd i fyfyrwyr.³⁰

29. Dywedodd Unsain Cymru, er ei fod o blaid dod â'r sector addysg ôl-16 at ei gilydd, y bydd heriau wrth oresgyn y canfyddiadau tymor hir â gwreiddiau dwfn sy'n ffafrio addysg uwch. Roedd o'r farn, er y byddai sefydlu'r Comisiwn yn gwneud rhywfaint i ymdrin â pharch cydradd, nad oedd yn ddigon ar ei ben ei hun a bod yn rhaid ymdrin ag ef yn rhagweithiol.³¹ Cytunodd Dysgu Oedolion yn y Gymuned fod mynd i'r afael â pharch cydradd yn waith hir iawn ac nad

²⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 105.

²⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 109.

²⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 102.

²⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 91.

²⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 44.

²⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 41.

³⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 374.

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 08, Unsain Cymru, paragraffau 7 ac 11.

yw'n fater i'r sector ôl-16 yn unig, ond i'r system ysgol gyfan, athrawon ysgol, y wasg, y cyfryngau a'r cyhoedd.³²

30. Dywedodd Colegau Cymru fod y Bil yn gosod sylfeini parch cydradd, ond mai gweithredu'r Bil a datblygu'r system fydd yn arwain at gyflawni mewn gwirionedd. Nid oedd yn credu y gallai'r Bil ddatrys popeth oherwydd ei fod yn fater sydd wedi'i wreiddio mewn rhai agweddau cymdeithasol dwfn iawn tuag at hyfforddiant ac addysg. Dywedodd y canlynol:

*"... if we can have a Bill that creates a structure that removes those silos and creates a uniform sector, then we've got a better opportunity of promoting parity of esteem."*³³

31. Roedd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru hefyd yn pryderu bod y gofynion a disgwyliadau gwahanol ar set wahanol o ddarparwyr yn golygu y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau.³⁴ Dywedodd Colegau Cymru y dylai unrhyw ffocws ar barch cydradd geisio mynd i'r afael â chystadleuaeth ddibwys i ddysgwyr.³⁵ Nododd bryderon am ddarpariaethau penodol yn y Bil, gan gynnwys Cynlluniau Diogelu Dysgwyr fel enghraifft. Anghytunodd â'r eithriad ar gyfer y chweched dosbarth, gan ddweud y byddai'r dull hwn yn arwain at drin Addysg Bellach a'r chweched dosbarth yn annheg ac y byddai'n sefydlu system ddwy haen annigonol.³⁶ Edrychwn ar Gynlluniau Diogelu Dysgwyr yn fanylach ym Mhennod Argymhelliad 31.

32. Awgrymodd CCAUC y gallai'r dulliau gwahanol a fabwysiedir yn y Bil i sicrhau ansawdd yn y sectorau Addysg Uwch ac Addysg Bellach danseilio'r cysyniad o greu un sector a pharch cydradd.³⁷ Awgrymodd FfHCC fod y dulliau gwahanol o ran rhyddid academiaidd a rhyddid i lefaru rhwng Addysg Uwch ac Addysg Bellach yn dod ag un elfen o ddarpariaeth ôl-16 yn erbyn y llall.³⁸

33. Galwodd Coleg Caerdydd a'r Fro i'r Comisiwn fynd i'r afael â diffyg parch cydradd, gan ddweud nad Safon Uwch a phrifysgolion "yw'r dewis gorau bob amser ond nid yw'r arweiniad mae plant yn ei gael yn yr ysgol yn gytbwys".³⁹ Mynegodd Addysg Oedolion Cymru bryderon y

³² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 146

³³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 265

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 14, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 31, Colegau Cymru, Atodiad A, paragraff 2.6

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 31, Colegau Cymru, Atodiad A, paragraff 2.5

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32, CCAUC, paragraff 2.5

³⁸ Papur Pwyllgor, CYPE(6)-07-21, Papur 1, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 33, Coleg Caerdydd a'r Fro

gallai dysgu oedolion yn y gymuned fynd ar goll gyda'r newidiadau ysgubol. Roedd am iddo gael statws teg a chyfartal.⁴⁰

Sail y dystiolaeth

34. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n amlinellu'r "amcangyfrif gorau o gostau a manteision y Bil" ar sail y dystiolaeth sydd ar gael wedi'i lywio gan waith ymgysylltu a thystiolaeth amrywiol. Mae hyn yn cynnwys adroddiad a gomisiynwyd gan Alma Economics, sef "Dadansoddiad cost a budd o ddiwygiadau addysg: Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth".⁴¹ Atodiad B yw'r adroddiad yn y Memorandwm Esboniadol.

35. Nodwn ei bod yn ymddangos bod yr adolygiad hwn yn cynnwys rhywfaint o gamddealltwriaeth ynghylch natur y diwygiadau arfaethedig. Er enghraifft, mae'n nodi, drwy ddod â'r sector dan un corff rheoleiddio, y bydd hyn yn dileu "dryswch" yn ymwneud â "rolau sy'n gorgyffwrdd rhwng nifer o sefydliadau." Yna, mae'n nodi ystod o sefydliadau, y bydd rhai ohonynt, fel CCAUC, yn canfod bod y Comisiwn yn cymryd dros eu rolau a'u cyfrifoldebau, ond mae sefydliadau eraill wedi'u cynnwys nad ydynt wedi'u datganoli o hyd, megis Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth y DU neu nad ydynt dan reolaeth y llywodraeth megis yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch neu Sêr Cymru (rhaglen ymchwil).⁴²

Gweithredu

36. Mae sefydlu corff newydd fel y Comisiwn yn waith mawr a chymhleth. Mae'r Gweinidog wedi tynnu sylw droeon at faint ac ehangder y cyfrifoldebau a fydd gan y Comisiwn. Yn ein sesiwn dystiolaeth gyntaf, dywedodd wrthym, heblaw am y GIG, mai hwn fydd y corff mwyaf "y tu allan i Lywodraeth Cymru ... o ran maint y gyllideb a'r impact."⁴³ Felly, nid yw'n syndod ein bod wedi cymryd ystod o dystiolaeth am bwysigrwydd gweithredu'r ddeddfwriaeth yn effeithiol, yn enwedig ynghylch sefydlu'r Comisiwn newydd.

37. Dywedodd y Gweinidog wrthym ym mis Tachwedd 2021 mai ei fwriad oedd sefydlu'r Comisiwn yn 2023, a'i weithredu yn 2024/2025. Hefyd, dywedodd y byddai angen ei weithredu mewn camau.⁴⁴ Mae Atodiad A o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nifer o dybiaethau y

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 29, Addysg Oedolion Cymru, paragraff 9

⁴¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), paragraff 19.3, Tachwedd 2020

⁴² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), Atodiad B, Tachwedd 2020

⁴³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 142

⁴⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 123

seiliwyd y costau arnynt, gan gynnwys y byddai'r sefydliad yn bodoli o fis Ebrill 2023.⁴⁵ Mae hefyd yn nodi y byddai'r Prif Weithredwr Dros Dro yn ei swydd rhwng 1 Chwefror 2022 ac 31 Rhagfyr 2022, gyda'r deiliad parhaol yn y swydd o 1 Ionawr 2023.⁴⁶ Mae'n ymddangos bod yr amserlen hon wedi newid, gan y dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod yn gobeithio hysbysebu'r swydd hon yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn nesaf.⁴⁷

38. Roedd yn ddefnyddiol clywed profiad diweddar CCAUC wrth weithredu Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a'r gwersi y gellid eu dysgu ar gyfer gweithredu'r Bil hwn. Dywedodd wrthym y cymerodd ddwy flynedd a hanner i roi'r systemau ar waith, a dwy flynedd arall cyn sefydlu'r broses lawn.⁴⁸ Dechreuodd y gwaith ym mis Mawrth 2015 ac, erbyn 2019, roedd y cynlluniau ffioedd a mynediad cyntaf yn cael eu monitro. Yn seiliedig ar ei brofiad, roedd yn teimlo bod yr amserlenni ar gyfer y Comisiwn fel y'u nodwyd pan gyflwynwyd y Bil yn heriol ac y byddai'n cymryd llawer mwy o amser i holl swyddogaethau'r Comisiwn gael eu gweithredu'n llawn.⁴⁹

39. Dywedodd Estyn fod yr amserlen ar gyfer gweithredu'n uchelgeisiol⁵⁰ a dywedodd Colegau Cymru⁵¹, Prifysgolion Cymru⁵² a Phrifysgol Abertawe⁵³, oll ar wahân, ei bod yn heriol.

40. Cytunodd CCAUC â'r dull ehangach a fabwysiedir gan y Llywodraeth, wrth sefydlu'r Comisiwn fel y gall staff y Comisiwn ddechrau datblygu'r peirianwaith rheoleiddio. Hefyd, tynnodd sylw at yr angen am drefniadau trosiannol fel y gall CCAUC barhau i gyllido a rheoleiddio wrth i'r Comisiwn gael ei sefydlu.⁵⁴ Roedd eraill, gan gynnwys Cymdeithas Ddysgedig Cymru⁵⁵, yn cytuno â'r dull fesul cam hwn, a thynnodd Estyn sylw at yr angen am gyfnod parhaus o fyfrio ac adolygu'r trefniadau gweithredu newydd.⁵⁶

⁴⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), Atodiad A, paragraff 5, Tachwedd 2020

⁴⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), Atodiad A, paragraffau 35-36, Tachwedd 2020

⁴⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 122

⁴⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 263

⁴⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 266

⁵⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 321

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 31, Colegau Cymru

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 1.6

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 39, Prifysgol Abertawe

⁵⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 266

⁵⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 183

⁵⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 321

41. Dywedodd rhanddeiliaid, fel Prifysgolion Cymru, wrthym ei bod yn bwysig peidio â chyfaddawdu o ran gweithredu. Nid oeddent am i hyn gael ei frysio. Hefyd, roeddent am i rywfaint o seilwaith presennol CCAUC gael ei ddefnyddio i helpu i achub y blaen ychydig wrth sefydlu'r Comisiwn.⁵⁷ Roedd hynny'n rhywbeth a gefnogwyd gan CCAUC, a oedd yn credu y byddai defnyddio trefniadau a systemau presennol yn "sicrhau cyn lleied â phosib o gymhlethdod" a risgiau wrth drosglwyddo o'r naill gorff i'r llall.⁵⁸ Nid oedd Colegau Cymru am i seilos presennol gael eu symud i'r Comisiwn oherwydd awydd i symud yn rhy gyflym. Roedd yn teimlo bod angen yr amser er mwyn "creu strwythur sydd yn llawer mwy hyblyg ac yn torri'r seilos yna i lawr."⁵⁹

42. Cydnabu'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddai'n cymryd amser i'r Comisiwn newydd ymsefydlu. Dywedodd Dysgu Oedolion yn y Gymuned y gallai gymryd rhwng dwy a phedair blynedd i bopeth fod ar waith.⁶⁰

43. Tynnodd CCAUC sylw at yr ansicrwydd parhaus i'w staff a'r effaith y gallai hyn ei chael ar weithrediad. Gwnaeth ein hatgoffa bod ei staff wedi byw gyda'r tebygolrwydd bod CCAUC yn cael ei ddiddymu ers 2016, a bod y lefel hon o ansicrwydd wedi golygu bod staff "bellach yn chwilio am gyfleoedd swydd eraill, ac mae rhai eisoes wedi cael eu penodi i swyddi newydd o fewn sefydliadau eraill." Mae'r colli'r staff arbenigol hyn yn rhwystr i weithrediad llwyddiannus y Bil, yn ogystal â gwaith parhaus CCAUC a fydd yn parhau i weithredu tan 2024.⁶¹

44. Roedd FfHCC eisiau mwy o eglurder ynghylch sut y bydd y gweithrediad yn cyd-fynd â'r fframwaith contractau prentisiaeth presennol. Mae'r cytundeb fframwaith newydd yn y flwyddyn gyntaf ar hyn o bryd. Felly, hoffai gael mwy o eglurder o ran lle mae deiliaid contract y Comisiwn yn y cytundeb fframwaith newydd, sut mae FfHCC yn cyd-fynd â'r Comisiwn, a beth yw sefyllfa comisiynau presennol FfHCC ar gyfer y dyfodol.⁶²

45. Cydnabu'r Gweinidog heriau trosglwyddo o un sefydliad i'r llall. Amlinellodd fod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull partneriaeth a chynwysoldeb wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth a'r cynlluniau gweithredu, gyda staff yn cael llais ac yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol yn y broses, yn hytrach na dim ond ymgysylltu â hwy. Mae staff CCAUC a Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o waith prosiect, ac mae trefniadau secondiad wedi bod

⁵⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 145

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32, CCAUC, paragraff 2.14

⁵⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 256

⁶⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 19

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32, CCAUC, paragraff 2.14

⁶² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 17

ar waith. Mae'r holl undebau cydnabyddedig yn y ddau sefydliad wedi bod yn aelodau o'r byrddau cyflawni perthnasol.⁶³

46. Cafwyd rhagor o ddatblygiadau ar yr amserlen ar gyfer gweithredu yn ystod ein trafodaeth ar y Bil. Yn y sesiwn dystiolaeth olaf ym mis Ionawr 2022, dywedodd y Gweinidog, er ei fod yn dal i fwriadu sefydlu'r Comisiwn yn 2023, yn seiliedig ar farn rhanddeiliaid, ei fod wedi penderfynu aildrefnu cau CCAUC o fis Ebrill 2023 i ddechrau 2024 fan bellaf. Roedd yn credu y byddai'r cyfnod byr o orgyffwrdd yn gwella canlyniad trosglwyddiad llyfn a threfnus i'r Comisiwn newydd.⁶⁴

47. Trafodwyd â'r Gweinidog sut y byddai'r ddau sefydliad yn cydfodoli, ac amlinellodd y byddai gorgyffwrdd wedi bod erioed, ac y byddai'r gydfodolaeth yn helpu gyda throsglwyddiad di-dor. Esboniodd y byddai'r cyfnod hwn yn cael ei reoli mewn ystod o ffyrdd gwahanol, gan gynnwys deddfwriaeth, staffio a materion gweithredol eraill.⁶⁵

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

48. Wrth gyflwyno'r Bil, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.⁶⁶ Mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) bryderon nad yw'n bodloni gofynion deddfwriaethol Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Hefyd, dywedodd nad yw'n cynnwys gwybodaeth ddigonol am effaith y Bil a'r holl newidiadau arfaethedig ar grwpiau gwarchodedig. Roedd y canlynol ymhlith pryderon eraill a restrodd:

"There appears to be a lack of evidence supporting the equality impact assessment. Most sections contain little or no supporting evidence referencing only legal equality duties that the new Commission will be subject to. ...

*With such a complex and wide ranging piece of legislation, covering, further education, higher education, adult education and apprenticeships, it is unclear how and whether the EIA relates to the breadth of the Bill and the scope of its measures."*⁶⁷

⁶³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 27.

⁶⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 11.

⁶⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 39.

⁶⁶ Llywodraeth Cymru, Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, 1 Tachwedd 2020.

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 24, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

49. Mae'r CCHD yn mynd ymlaen i nodi bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mewn llawer o fannau, yn dweud na fydd yn cael effaith ar bobl â nodweddion gwarchodedig:

*"The published EIA appears to focus on not discriminating, and not having a detrimental impact on those with the protected characteristics. In most cases it is stated that the Bill will have 'neither a positive nor negative impact' and for others it says there is no evidence to suggest an impact or that the Bill will 'impact directly' on protected characteristic groups. The EIA appears to almost omit any consideration of how the proposed changes will meet the aims of the general duty i.e. to a) eliminate unlawful discrimination, harassment and victimisation; b) advance equality of opportunity between different groups and c) foster good relations between different groups."*⁶⁸

50. Mae'n dod i'r casgliad bod diffyg tystiolaeth neu bwyslais o'r fath ar nodau'r ddyletswydd gyffredinol yn ymddangos yn anghydweiddol â'r ddyletswydd strategol yn y Bil ar hyrwyddo cyfle cyfartal.⁶⁹

51. Derbyniodd y Gweinidog dystiolaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a dywedodd y gallai ac y dylai'r Llywodraeth gynnwys mwy o wybodaeth yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Tynnodd sylw at y ffaith bod llawer o'r dystiolaeth angenrheidiol wedi'i chasglu a'r gwaith wedi'i wneud ond bod dadl gref y gallai hyn gael ei adlewyrchu'n well yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Dywedodd y gofynnwyd i swyddogion weld pa welliannau y gellir eu gwneud i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.⁷⁰ Wedi hynny, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai Asesiad diwygiedig o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gyhoeddi cyn Cyfnod 2. Hefyd, cadarnhaodd y bydd y Comisiwn yn gorff rhestredig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.⁷¹

Effaith Deddf y Farchnad Fewnol

52. Dywedodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru nad oedd yn glir eto i ba raddau roedd darpariaethau'r Bil yn gwbl gydnaws â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020. Ychwanegwyd ei bod yn aneglur yn fwy cyffredinol i ba raddau y mae Deddf 2020 yn gymwys i brifysgolion. Er bod Llywodraeth y DU wedi cadarnhau nad yw'r Ddeddf yn ymwneud â ffioedd dysgu, nododd Prifysgolion Cymru ei bod yn llai clir sut y byddai gwasanaethau prifysgol yn fwy cyffredinol yn rhyngweithio â'r Ddeddf. Er eu bod yn glir bod y fframwaith rheoleiddio

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 24, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#)

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 24, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#)

⁷⁰ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 66](#)

⁷¹ [Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 4 Chwefror 2021, paragraff 4.2](#)

presennol yn golygu nad yw'r Ddeddf yn effeithio ar brifysgolion, roeddent yn pryderu y gallai newidiadau o ran sylwedd i gyfundrefnau rheoleiddio newid hyn oherwydd y gall fod yn uniongyrchol wahaniaethol at ddibenion Deddf y Farchnad Fewnol 2020.⁷²

53. Amlinellwyd y meysydd y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt yn eu barn hwy. Nodwyd bod y rhain oll yn feysydd roeddent wedi'u rhestru mewn ymateb i'r Bil drafft:

"The regulatory requirements in the Bill are seemingly not confined to regulating the exercise of functions 'of a public nature' for purposes of IMA 2020 on our current best interpretation and it is difficult to see how we could be confident that the regulation only applies to functions of a public nature until IMA's application to universities has been clarified as indicated by the UK Government.

- *For instance, differences in constitutional requirements and new information powers are not confined to 'public functions' only.*
- *The regulation of courses applies to all courses, irrespective of whether they are publicly funded or not.*
- *The Welsh Ministers and, in certain instances, the Commission can impose terms and conditions of funding which are not related to the use of public funds.*
- *In the Bill, both the Commission and the Welsh Government have powers to set registration conditions that do not relate specifically to public functions."*⁷³

54. Hefyd nodwyd bod her gyfreithiol yn parhau i'r Ddeddf ar adeg cyflwyno'r ymateb i'r ymgynghoriad. Roeddent yn pryderu y gallai'r sector addysg uwch fod yr achos prawf yn yr ardal hon.⁷⁴ Roedd Prifysgol Caerdydd yn rhannu'r pryderon hyn a dywedodd y gallai bwrw ymlaen â'r Bil "cyn i sefyllfa prifysgolion gael ei hegluro gan Lywodraeth y DU drwy reoliadau, a chyn i'r ddeddfwriaeth gael ei diogelu yn y dyfodol yn erbyn y Ddeddf, gallai olygu risgiau sylweddol iawn" yn ymwneud â rheoleiddio addysg uwch yng Nghymru.⁷⁵

⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraffau 13.1-13.5](#)

⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 13.4](#)

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 13.5](#)

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 22, Prifysgol Caerdydd, paragraff 6.3](#)

55. Barn Llywodraeth Cymru oedd nad oes goblygiad ac nad yw'n effeithio ar waith drafftio gwirioneddol y Bil, fel y mae, ar hyn o bryd.⁷⁶

Safbwynt y Pwyllgor

56. Bu cefnogaeth glir ar gyfer cyfeiriad polisi eang y Bil ar draws y sectorau ôl-16. Rydym yn nodi y bu llawer iawn o ymgynghori wrth ddatblygu'r polisi. Yn dilyn pob ymgynghoriad, gwnaed newidiadau i adlewyrchu materion a phryderon a godwyd. Er bod meysydd yn y Bil lle yr hoffem i newidiadau gael eu gwneud, rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

57. Drwy gydol ein gwaith craffu ar y Bil mae'r Gweinidog wedi'i gwneud yn glir ei fod yn agored i newid y Bil mewn rhai meysydd allweddol. Rydym yn croesawu'r dull agored hwn, ac yn edrych ymlaen at ymateb cadarnhaol i'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad.

Argymhelliad 1. Bod y Senedd yn derbyn egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).

Amcanion polisi

58. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r gwaith craffu ar y Bil, ac unrhyw waith craffu neu werthuso ar ôl deddfu yn y dyfodol yn nodi amcanion polisi'r Bil yn gliriach, a sut y bydd darpariaethau'r Bil yn ceisio bodloni'r rhain. Drwy gydol ein gwaith craffu, mae wedi bod yn amlwg bod gan y Gweinidog feddwl agored ar lawer o bethau a'i fod yn barod i ymgysylltu â newidiadau posibl i'r Bil. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod gan y Gweinidog fwy o le i fod yn hyblyg gan nad yw'r weledigaeth wedi'i diffinio'n glir eto neu, os ydyw, nid yw wedi'i chyfleu'n glir. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae gan y Comisiwn bum nod lefel uchel, a ddilyniir gan yr amcanion ac, wrth gwrs, y naw dyletswydd strategol fel y'u gosodir yn Rhan 1 o'r Bil. Rydym yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol i'r amcanion polisi gael eu nodi'n glir yn y Memorandwm Esboniadol.

Argymhelliad 2. Bod y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiweddarau i restru'r amcanion polisi ar gyfer y Bil a sut y mae darpariaethau'r Bil yn ceisio eu bodloni.

Parch cydradd

59. Rydym yn cydymdeimlo â'r farn a fynegodd rhai y gallai'r ddulliau gwahanol o ran y Bil mewn mannau danseilio'r gwaith o sicrhau parch cydradd. Mae eisoes yn her anodd iawn mynd i'r afael â'r agweddau sydd wedi hen ymwreiddio sy'n rhwystro parch cydradd llawn. Ac eto drwy drin sectorau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol mewn mannau penodol yn y Bil, er

⁷⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 116

enghraifft mewn perthynas â sicrhau ansawdd; ymreolaeth academiaidd a sefydliadol; a gofynion cyfle cyfartal, mae perygl y daw hyn yn her fwy fyth. Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater llawer ehangach nag y gellir ei ddatrys gyda'r Bil unigol hwn. Ond, fel yr amlinellwyd gennym ym mharagraffau 30-33, mae darpariaethau yn y Bil a allai olygu ei bod yn anoddach cyflawni parch cydradd.

60. Drwy'r adroddiad, rydym yn nodi rhai mannau lle yr hoffem i newidiadau gael eu gwneud i'r Bil. Os caiff y newidiadau hyn eu gwneud, credwn y byddant yn helpu i wella gallu'r Bil i helpu i gyflawni parch cydradd. Ond mae hyn hefyd yn ymwneud ag eglurder gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector AHO. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru fynegi'n glir beth mae parch cydradd yn ei olygu'n ymarferol, a'r disgwyliadau sydd ganddi ar gyfer y sector ôl-16 cyfan i gyflawni hyn.

Argymhelliad 3. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir i'r Pwyllgor, y Comisiwn a'r sector ehangach sut y mae'n diffinio parch cydradd, sut olwg fyddai ar gyflawni parch cydradd, a sut y mae'n disgwyl i'r sector ôl-16 gyflawni hyn.

Sail y dystiolaeth

61. Nodwn y gwallau a wnaed yn adroddiad ALMA Economics. Yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pwy bynnag y mae'n ei gomisiynu ar gyfer gwaith ymchwil â dealltwriaeth lawn o'r cymhlethdodau sy'n ymwneud â datganoli.

Gweithredu

62. Mae hwn yn Fil sydd wedi bod yn cael ei ddatblygu ers amser maith. Rydym yn cydnabod bod awydd clir ar draws y sector i roi'r newidiadau ar waith. Mae'n amlwg hefyd ei bod yn amserlen uchelgeisiol iawn ar gyfer gweithredu, a dyna pam rydym yn croesawu'r cyhoeddiad gan y Gweinidog i ymestyn oes CCAUC i helpu gyda'r trefniadau trosiannol.

63. Rydym yn nodi y gall amwysedd cyfreithiol godi o'r cyfnod trosglwyddo rhwng CCAUC a'r Comisiwn. Gobeithiwn y bydd rolau pob corff yn cael eu diffinio'n glir yn ystod y cyfnod pontio, a bod cyfathrebu clir â'r holl sectorau yr effeithir arnynt yn ystod y cyfnod pontio. Bydd hyn yn sicrhau y nodir anawsterau ac y ceir atebion cyn gynted â phosibl fel nad yw'r cyfnod pontio'n effeithio ar y gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

64. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i adolygu a diwygio'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn sgil sylwadau'r CCHD. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn adnoddau pwysig i'r Senedd a rhanddeiliaid ehangach ddeall effaith polisiau a deddfwriaeth.

Credwn y byddai'n ddefnyddiol i'r Asesiad diwygiedig o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael ei gyhoeddi cyn trafodion Cyfnod 2.

Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Asesiad diwygiedig o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n ystyried y materion a godir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol cyn trafodion Cyfnod 2.

Effaith Deddf y Farchnad Fewnol

65. Rydym yn nodi'r pryderon a gododd Prifysgolion Cymru ynghylch effaith bosibl Deddf y Farchnad Fewnol 2020. Ers i ni gymryd tystiolaeth, mae'r Llys Apêl (gweler paragraff 54) wedi dyfarnu na fydd yn penderfynu ar effaith y Ddeddf ar gymhwysedd haniaethol, ac y byddai angen Bil gan y Senedd i benderfynu ar y mater. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio caniatâd i apelio at y Goruchaf Lys. Yn sgil y trafodion parhaus hyn, a'r diffyg gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru am ei dadansoddiad o'r effaith, gallwn ddeall nerfusrwydd y sector. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth fanylach o ran pam nad yw'n bryderus ynghylch effaith bosibl Deddf y Farchnad Fewnol 2020 ar y Bil hwn.

Argymhelliad 5. Bod y Gweinidog yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor a Phrifysgolion Cymru ynghylch pam mae'n credu nad oes gan Ddeddf y Farchnad Fewnol oblygiadau i'r Bil hwn.

4. Rhan 1: Fframwaith Strategol ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Mae Rhan 1 yn sefydlu'r Comisiwn ac yn pennu fframwaith strategol y sefydliad. Mae cefnogaeth eang i gyflwyno'r dyletswyddau strategol, er bod galwadau am ddyletswyddau ychwanegol. Mae galwadau hefyd am ragor o newidiadau i aelodaeth y Comisiwn.

66. Mae Rhan 1 yn sefydlu'r Comisiwn a'r fframwaith strategol ar gyfer ei weithredu. Bydd y Comisiwn yn arfer swyddogaethau newydd y mae'r Bil yn eu creu, swyddogaethau statudol presennol CCAUC a llawer o swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag addysg bellach a hyfforddiant. Mae'n diddymu CCAUC, a hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo eiddo a staff i'r Comisiwn.

67. Bydd y Comisiwn yn atebol i Weinidogion Cymru a bydd Gweinidogion Cymru yn gallu dylanwadu ar y Comisiwn – mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i'r Comisiwn ystyried unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru, ac mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddydau cyffredinol i'r Comisiwn ynghylch arfer ei swyddogaethau. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd roi swyddogaethau atodol iddo. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn penodi Aelodau'r Comisiwn, gan gynnwys y Cadeirydd a chânt hefyd addasu cynllun strategol y Comisiwn, ar yr un amod yr ymgynghorir ag ef.

Y Comisiwn

68. Mae adran 1 o'r Bil yn sefydlu'r Comisiwn ac yn cyflwyno Atodlen 1. Mae Atodlen 1 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer ystod o agweddau gweithredol ar y Comisiwn. Mae ein gwaith craffu wedi canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag Aelodaeth y Bwrdd.

69. Mae Atodlen 1 yn nodi y bydd aelodau'r Comisiwn yn cynnwys cadeirydd, dirprwy gadeirydd a rhwng 4 a 14 aelod cyffredin, pob un wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru. Yn ogystal, bydd aelodau cyswllt, na fydd ganddynt hawliau pleidleisio, fel a ganlyn:

- o leiaf ddau aelod yn cynrychioli gweithlu'r sector addysg drydyddol (a benodir gan Weinidogion Cymru);

- un person i gynrychioli staff y Comisiwn (y mae'n rhaid iddo fod yn Aelod o undeb llafur a gydnabyddir gan y Comisiwn ac a benodir gan un o bwyllgorau statudol y Comisiwn);
- o leiaf un person yn cynrychioli dysgwyr (a benodir gan Weinidogion Cymru).

70. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gael:

- Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, dan gadeiryddiaeth y dirprwy gadeirydd;
- Pwyllgor Ansawdd, i gynghori ar ansawdd addysg drydyddol;
- Pwyllgor Aelodau Staff, i benodi'r aelod cyswllt sy'n cynrychioli staff y Comisiwn.

71. Bydd gan y Comisiwn y pŵer i sefydlu pwyllgorau eraill fel y bo'n briodol yn ei farn ef.

72. Bydd y Prif Weithredwr cyntaf yn cael ei benodi gan Weinidogion Cymru am hyd at bedair blynedd, gyda phenodiadau canlynol ar gyfer prif weithredwr yn cael eu pennu gan y Comisiwn, ond gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

73. Cawsom amrywiaeth o safbwyntiau ar gyfansoddiad aelodau'r Comisiwn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a fynegodd farn am gael aelodau mor eang â phosibl, i adlewyrchu ystod lawn a sbectrwm y gweithgarwch a gwmpesir gan y Comisiwn. Cydnabu CLILC fod tensiwn i sicrhau ystod eang o brofiad yn aelodau'r Comisiwn wrth sicrhau bod modd rheoli nifer yr aelodau. Fodd bynnag, roedd yn teimlo, oherwydd ei "gylch gwaith enfawr", ei bod yn "angenrheidiol" bod digon o "oruchwyliaeth a chapasiti" ymhlith yr aelodau i "gynnig, craffu ac ystyried ac ymateb yn briodol i faterion perthnasol."⁷⁷

74. Pwysleisiodd sefydliadau, gan gynnwys CLILC,⁷⁸ Cyngor Sir Ceredigion,⁷⁹ a Cholegau Cymru⁸⁰ bwysigrwydd sicrhau bod yr aelodau'n adlewyrchu ystod lawn amrywiaeth Cymru. Mae angen i hyn gynnwys amrywiaeth o ran daearyddiaeth, lleoliadau, cyd-destun, yn ogystal â sicrhau bod y Comisiwn yn gynrychioliadol. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod angen i'r bwrdd gynrychioli'r unigolion y bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn eu

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 01, CLILC, paragraff 4](#)

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 01, CLILC, paragraff 4](#)

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 09, Cyngor Sir Ceredigion](#)

⁸⁰ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 360](#)

gwasanaethu.⁸¹ Dywedodd Colegau Cymru fod yn rhaid gwneud mwy na gobeithio am y gorau yn hyn o beth.⁸²

75. Roedd gan yr holl undebau a roddodd dystiolaeth bryderon am lefel cynrychiolaeth staff ar y Comisiwn. Mynegodd Unsain Cymru bryderon na fyddai'r Comisiwn yn adlewyrchu ehangder profiad staff yn y sector ôl-16, gan dynnu sylw at y rolau tra gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r sector. Roedd yn credu na allai llais y gweithiwr gael ei danbriso.⁸³ Dywedodd NASUWT ei bod yn bwysig bod y gwahaniaethau sylweddol rhwng ysgolion a cholegau yn cael eu hadlewyrchu ar aelodau'r Comisiwn.⁸⁴ Cytunodd Cyngor Ceredigion, gan ddweud y dylai fod o leiaf dri chynrychiolydd i sicrhau y cynrychiolir staff ysgolion, Addysg Bellach ac Addysg Uwch.⁸⁵ Galwodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru am gynrychiolwyr o'r grwpiau a ganlyn, na ddylai Gweinidogion Cymru eu dewis:

- *"Lecturers in FE*
- *Managers in FE*
- *Teachers*
- *Support staff*
- *Learning Support staff."*⁸⁶

76. Gofynnodd yr undebau hefyd pam na fyddai hawliau pleidleisio gan aelodau cyswllt. O ganlyniad i hynny, dywedodd UCAC nad oedd "yn glir beth fyddai maint a natur eu dylanwad nhw, felly, does ganddyn nhw ddim pleidlais."⁸⁷ Roeddent ganddo'r pryderon hyn ar gyfer yr aelodau cyswllt sy'n ddysgwyr hefyd. (Rydym yn ymdrin â'r dystiolaeth ar y pwynt hwn ym mharagraff 82.)

77. Cododd ystod eang o randdeiliaid bwysigrwydd rhoi llais y dysgwr wrth wraidd penderfyniadau'r Comisiwn. Roedd UCM Cymru eisiau cynnydd mewn cynrychiolaeth myfyrwyr,

⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 09, Cyngor Sir Ceredigion](#)

⁸² [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 361](#)

⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 08, Unsain Cymru, paragraff 3](#)

⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 04, NASUWT, paragraff 19](#)

⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 09, Cyngor Sir Ceredigion](#)

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 14, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru](#)

⁸⁷ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 408](#)

er mwyn sicrhau bod ystod ehangach o leisiau myfyrwyr a dysgwyr yn rhan o'r drafodaeth.⁸⁸ Pwysleisiodd fel a ganlyn:

*"A major principle of modern and progressive representation work is to get the people you represent in the room ... Students are the experts in their own experience, and they are best placed to represent themselves ... it can't be about us without us, so I don't think it can be truly learner focused without ... focus on student voice and representation within the commission."*⁸⁹

78. Galwodd CLILC am ddau aelod sy'n ddysgwyr.⁹⁰ Galwodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch am ymrwymiad i gynrychiolaeth myfyrwyr o Addysg Uwch ac Addysg Bellach.⁹¹ Dywedodd Adran Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin fod yn rhaid i unrhyw gynrychiolaeth ar y bwrdd ddeall anghenion pob dysgwr "a'r heriau mae dysgwyr yn eu hwynebu mewn gwahanol leoliadau ..." Galwodd hefyd am gynnydd yn nifer yr aelodau sy'n ddysgwyr, yn ogystal â phwysigrwydd sicrhau bod strwythur dan y Comisiwn sy'n gallu "cipio llais y dysgwr mewn ffordd gynhwysol."⁹² Cefnogodd y Comisiynydd Plant alwadau am o leiaf ddau aelod sy'n ddysgwyr, ac roedd eisiau gofyniad bod un o'r cynrychiolwyr sy'n ddysgwyr yn dod o'r garfan 16-19 oed.⁹³ Galwodd UCAC am gynnydd mewn cynrychiolaeth dysgwyr i sicrhau bod "ehangder y gynrychiolaeth ar draws sectorau ac oedrannau."⁹⁴

79. Dywedodd Colegau Cymru, o ran cael ffocws ar ddysgwyr, fel a ganlyn:

*"... it's hard to divorce that from the people who will actually make up the commission."*⁹⁵

80. Cododd y Brifysgol Agored yng Nghymru bryderon am y risg o gael dim ond un aelod cyswllt yn cynrychioli dysgwyr, gan ddweud ei bod yn rhesymol tybio mai UCM Cymru fyddai'n cael y sedd. Fodd bynnag, nid yw UCM Cymru yn cynrychioli myfyrwyr y Brifysgol Agored, felly mae'r Brifysgol Agored yn pryderu na fyddai'r trefniadau presennol yn golygu bod llais dysgwyr rhan-amser yn cael ei gynrychioli'n llawn. (Y Brifysgol Agored yw'r darparwr mwyaf yng

⁸⁸ Papur ysgrifenedig, CYPE(6)-07-21 Papur 6, UCM Cymru

⁸⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 394

⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 01, CLILC, paragraff 4

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 16, Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, paragraff 21

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 20, Adran Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin, paragraffau 2.1 a 3.1

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 28, Comisiynydd Plant Cymru

⁹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 435

⁹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 360

Nghymru ar gyfer addysg uwch israddedig ran-amser.)⁹⁶ Fel y nodwyd gennym ym mharagraff 88, aeth y Gweinidog ymlaen i egluro y bydd o leiaf un aelod yn cynrychioli dysgwyr.

81. Gofynwyd yn benodol i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch am ei barn ynghylch a ddylai'r Bil fynnu aelod sy'n ddysgwr ar y pwyllgor ansawdd. Roedd yn credu y dylai myfyrwyr gael eu cynnwys ym mhob corff llywodraethu. Soniodd am ei phrofiadau ei hun o ymgysylltu â myfyrwyr, a bod hynny wedi gwella'r sector cyfan.⁹⁷

82. Clywsom dystiolaeth hefyd yn gofyn pam y byddai aelodau o'r Comisiwn sy'n ddysgwyr yn aelodau cyswllt a heb hawliau pleidleisio, gan gynnwys o UCM Cymru;⁹⁸ ac UCAC⁹⁹ (gweler paragraff 76). Tynnodd UCM Cymru sylw bod y cynlluniau yn y Bil yn golygu mai'r myfyrwyr fyddai'r unig grŵp y byddai ganddo lai o gynrychiolaeth ar y Comisiwn nag sydd ganddo ar CCAUC ar hyn o bryd. Hefyd, tynnodd sylw bod o leiaf ddau lywodraethwr sy'n fyfyrwr â phleidlais ar fwrdd pob prifysgol a choleg yng Nghymru.¹⁰⁰ Clywsom yn uniongyrchol gan sefydliadau am eu trefniadau eu hunain, gyda Grŵp NPTC yn defnyddio ei brofiad i ddweud bod cynnwys llais y dysgwr yn ei strwythurau ei hun wedi arwain at welliannau yn y "broses o wneud penderfyniadau strategol". Mae'n dadlau na ddylai'r dysgwyr fod yn "arsylwyr" yn unig.¹⁰¹

83. Galwodd UCM Cymru i'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys rhywbeth tebyg i bwyllgor llais y myfyriwr. Tynnodd sylw bod y Bil yn darparu pwyllgorau ar gyfer ymchwil ac ansawdd. Roedd yn credu, os yw llais y myfyriwr yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth, y dylid cynnwys hyn.¹⁰²

84. Wrth ymateb i'n hymgyngoriad, mae CCAUC wedi rhoi cyfres o welliannau arfaethedig i'r Bil i ni. Mewn perthynas ag aelodau'r Comisiwn, roedd am i'r pŵer i Weinidogion Cymru benodi'r Dirprwy Gadeirydd (sef Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi hefyd) gael ei ddileu. Nid oedd yn credu bod rheswm clir am hyn ac y gallai "cydbwysedd yr arbenigedd ar Fwrdd y Comisiwn fod yn y fantol."¹⁰³ Cwestiynodd Prifysgol Caerdydd hefyd a oedd yn "angenrheidiol neu'n ddymunol ar gyfer Comisiwn gwirioneddol annibynnol" i hwn fod yn benodiad gweinidogol.¹⁰⁴

⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12, Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraff 7.1-7.4

⁹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 394

⁹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 388-389

⁹⁹ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 408 a 435

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 388

¹⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 15, Grŵp NPTC

¹⁰² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 389

¹⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32, CCAUC, paragraff 2.4

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 22, Prifysgol Caerdydd, paragraff 3.2

85. Codwyd yr holl faterion hyn gyda'r Gweinidog yn ein sesiwn dystiolaeth olaf. O ran sut y gall y Comisiwn adlewyrchu amrywiaeth eang Cymru, tynnodd y Gweinidog sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus i wella amrywiaeth ar y byrddau a sicrhau cynrychiolaeth o "gymunedau o bob math yng Nghymru". Roedd am i'r gwaith hwn fod yn "rhan greiddiol" o benodiadau i'r Comisiwn, ac y byddai'r Llywodraeth yn sicrhau ffyrdd o recriwtio "sy'n debygol o ysgogi ... apwyntiadau a chynigion wrth bobl."¹⁰⁵

86. Mewn perthynas â chynrychiolaeth y gweithlu yn y Comisiwn, dywedodd fod y Bil yn darparu ar gyfer o leiaf ddau gynrychiolydd o'r gweithlu ac nad terfyn oedd hyn, felly roedd lle i gael mwy o gynrychiolaeth. Soniodd ei fod am i swyddogaethau'r Comisiwn gael eu penderfynu a'u datblygu ar y cyd â diwylliant o ymddiriedaeth sydd â dealltwriaeth well o anghenion y gweithlu wrth gyflwyno addysg drydyddol. Roedd yn credu y byddai aelodau cyswllt y gweithlu yn rôl hanfodol iawn yn hyn.¹⁰⁶

87. Gwnaeth y pwynt ehangach hefyd na fydd cynnwys y bwrdd yn seiliedig ar gynrychiolydd o rannau unigol o'r sector. Fel rhan o'r broses penodiadau cyhoeddus, bydd yn rhaid i Weinidogion sicrhau bod ehangder y Bwrdd yn cynrychioli'r sgiliau a'r profiad ar draws yr ystod lawn o swyddogaethau arfaethedig y Comisiwn. Dywedodd ei fod felly'n gynrychioliadol yn yr ystyr ehangach.¹⁰⁷

88. Gofynnwyd hefyd am eglurder ynghylch rhai anghysondebau rhwng testun y Bil a'r wybodaeth yn y ddogfennaeth ategol, gan gynnwys a fyddai un aelod cyswllt sy'n ddysgwr yn unig, neu ai o leiaf un aelod o'r fath oedd hwn. Dywedodd y Gweinidog mai'r bwriad oedd bod o leiaf un aelod cyswllt sy'n ddysgwr. Mae wedi gofyn i swyddogion edrych ar yr anghysondebau hyn. Dywedodd hefyd y gallai'r Comisiwn geisio datblygu a sefydlu prosesau ychwanegol ar gyfer cynnwys dysgwyr (ac ymgysylltu â gweithwyr), a allai wella llais y dysgwr a'r gweithiwr ymhellach fyth.¹⁰⁸

89. Ynghylch statws cyswllt dysgwyr a staff, felly heb hawliau pleidleisio, dywedodd y Gweinidog fod y dull hwn yn golygu bod gan y rhai y mae gwaith y Comisiwn yn effeithio arnynt fwyaf rôl wrth ddylanwadu ar drafodaethau a phenderfyniadau bwrdd. Ond roedd hynny'n galluogi cadw pellter rhwng y gweithgareddau sydd eu hangen fel aelod o'r bwrdd a'r

¹⁰⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 42

¹⁰⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 16

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 23

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 18

gweithgareddau ehangach fel corff cynrychioliadol. Roedd yn teimlo y byddai hyn yn arwain at lai o wrthdaro buddiannau posibl. Ychwanegodd fel a ganlyn:

*"... there may be some reluctance, perhaps, for representatives to, if you like, be bound under decisions of the commission that they themselves might not feel that their members would endorse ... that situation will arise from time to time, So it protects that relationship as well."*¹⁰⁹

Dyletswyddau strategol

90. Mae adrannau 2-10 yn nodi dyletswyddau strategol y Comisiwn y mae'n rhaid iddo eu cyflawni:

- Hyrwyddo dysgu gydol oes sy'n cynnig amrywiaeth o lefelau, mathau a dulliau astudio.
- Hybu cyfle cyfartal gan gynnwys cyfranogiad ymhlith grwpiau a dangynrychiolir a lleihau unrhyw fwlch cyrhaeddiad sy'n deillio o ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol. Mae'r Bil yn diffinio grwpiau a dangynrychiolir at ddibenion y ddyletswydd hon.
- Annog dysgwyr a chyflogwyr i gymryd rhan mewn addysg drydyddol.
- Hyrwyddo gwelliant parhaus mewn addysg drydyddol ac ymchwil, gan gynnwys rhoi sylw i bwysigrwydd sicrhau bod y gweithlu addysg drydyddol yn gallu darparu addysg o ansawdd uchel.
- Hybu cydlafurio a chydlynw mewn addysg drydyddol ac ymchwil.
- Cyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol. Mae'r Bil yn diffinio'r term "economy gynaliadwy".
- Hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid i'r Comisiwn annog pobl i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau y gall y gweithlu ateb galw rhesymol i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Hybu cenhadaeth ddinesig gan sefydliadau addysg bellach ac uwch. Mae "cenhadaeth ddinesig" wedi'i diffinio.

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 20-21

- Hybu golwg fyd-eang gan gynnwys hybu cyfleoedd mewn addysg drydyddol fel y gall pobl sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru astudio, addysgu neu ymgymryd â gwaith ymchwil mewn rhannau eraill o'r byd.

91. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai bwriad y dyletswyddau strategol yw "fframio ffocws a chyfeiriad strategol y Comisiwn a helpu i gyflawni ei swyddogaethau, gan roi eglurder ar ei ddiben a'i gylch gorchwyl cyffredinol." Mae hefyd yn nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn ystyried y dyletswyddau strategol hyn ar y cyd â'r datganiad o flaenoriaethau gan Weinidogion Cymru wrth arfer ei swyddogaethau. Dywed Llywodraeth Cymru, drwy roi'r dyletswyddau strategol ar wyneb y Bil, ei bod yn "darparu set gyson o egwyddorion y bydd y Comisiwn yn gweithredu oddi tanynt."¹¹⁰

92. Cawsom ystod o dystiolaeth am y dyletswyddau strategol; o ran galwadau i ddiwygio'r rhai presennol, ac i ychwanegu at y dyletswyddau strategol.

93. Roedd cyflwyno'r dyletswyddau strategol yn un o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol i'r Bil fel y'i cyflwynwyd o'i gymharu â'r Bil drafft. Cawsant groeso cyffredinol gan randdeiliaid. Dywedodd Estyn wrthym ei bod yn golygu ei fod yn llawer cliriach sut y bydd y Comisiwn yn bwrw ymlaen â'r meysydd hyn, a bod gan y corff unigol â'r gyfres hon o ddyletswyddau strategol y potensial i ysgogi newid.¹¹¹ Dywedodd CLILC fod y dyletswyddau'n cynnig "datganiad cyson a chdir o fwriad a chyfeiriad" gan nodi eu bod hefyd yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn gyson â diwygiadau addysg ehangach megis y cwricwlwm newydd.¹¹² Roedd y Brifysgol Agored yng Nghymru yn eu croesawu'n gryf fel rhai clir a chynhwysfawr sy'n adlewyrchu'r ehangder y mae'r sector yn ei gynnig i ddysgwyr a chymdeithas yn gyffredinol.¹¹³

94. Roedd rhai'n teimlo y gallai eu dyletswyddau fynd ymhellach, gyda Phrifysgol Caerdydd yn dweud y gellid dadlau bod y dyletswyddau'n "gyfyngedig o ran cwrpas ac uchelgais." Er enghraifft, awgrymodd nad oedd hyrwyddo cyfranogiad yn ddigonol nac yn "gwarantu canlyniadau da i fyfyrwyr". Galwodd am "[d]yletswydd ddiwygiedig sy'n ceisio mesur a gwella effaith addysg ar fyfyrwyr."¹¹⁴

¹¹⁰ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), paragraffau 3.45-3.47, 1 Tachwedd 2020

¹¹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 229-300

¹¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 01, CLILC, paragraff 1

¹¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12, Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraff 3.1

¹¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 22, Prifysgol Caerdydd, paragraffau 2.1-2.2

Dyletswydd cyfle cyfartal

95. Tynnodd y Brifysgol Agored yng Nghymru sylw bod angen i'r dyletswyddau strategol gael eu diogelu at y dyfodol ac nad ydynt yn cloi pethau nad ydynt yn rhan o addysg bellach ac addysg uwch yn y dyfodol. Nododd y ddyletswydd cydraddoldeb sy'n defnyddio'r term "hyd at ddiwedd cyrsiau" ac y gellid ystyried bod hyn yn cloi model cyrsiau israddedig tair blynedd ac nad dyna'r ffordd y mae'r Brifysgol Agored yn gweithredu. Tynnodd sylw at ddatblygu micro-gymhwysterau a ffyrdd hyblycach eraill i bobl ddysgu.¹¹⁵

Dyletswyddau gwelliant parhaus

96. Croesawodd Estyn y ddyletswydd strategol ar welliant parhaus, a'r ffaith ei bod yn cydnabod rôl hollbwysig y gweithlu.¹¹⁶ Galwodd am gysylltiad cliriach â'r ddyletswydd hon mewn mannau eraill yn y Bil. Er enghraifft, galwodd am newid pennawd pennod yn Rhan 2 o "Sicrhau a gwella ansawdd" i "Sicrhau ansawdd a gwella ansawdd i gefnogi'r ddyletswydd strategol i hyrwyddo gwelliant parhaus."¹¹⁷

97. Galwodd UCM Cymru am ddiwygio'r ddyletswydd hon. Roedd am i'r Comisiwn fod yn rhwymedig i roi sylw penodol i bwysigrwydd lleisiau cyfunol ac unigol dysgwyr a myfyrwyr wrth reoli a chyflwyno'r ddarpariaeth. Roedd yn credu y byddai'n dangos ymrwymiad clir i roi myfyrwyr wrth wraidd y system ac y byddai'n llyw cryf i'r Comisiwn.¹¹⁸

Dyletswyddau cydweithio a chystadleurwydd

98. Tynnodd Prifysgolion Cymru sylw, er bod y rhan fwyaf o'r dyletswyddau strategol yn glir iawn, ei fod yn teimlo y gallai'r ddyletswydd i hyrwyddo cydweithio fod yn fanylach. Nododd fod gan y dyletswyddau strategol eraill ymadroddion y dylai'r Comisiwn roi sylw i rai pethau, ond nad oedd hyn mor fanwl ar y ddyletswydd strategol benodol hon.¹¹⁹ Cytunodd Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, gan bwysleisio bod y maes hwn yn rhesymeg allweddol ar gyfer yr argymhellion yn yr adroddiad Tuag at 2030. Galwodd am gyfeiriad manwl at gymell partneriaethau a llwybrau rhanbarthol i fyfyrwyr ac economïau lleol a symud i ffwrdd o'r trefniadau breinio sydd ar waith ar hyn o bryd, sydd weithiau'n anhrefnus ac wedi'u hysgogi'n fasnachol.¹²⁰

¹¹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 195.

¹¹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 301.

¹¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 11, Estyn.

¹¹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 396.

¹¹⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 126.

¹²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 05, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, paragraff 14.

99. Galwodd CCAUC yn fwy cyffredinol am ddileu'r math hwn o fanylder o'r dyletswyddau strategol, gan ddweud y dylid gwneud hyn drwy ganllawiau gan Weinidogion Cymru i'r Comisiwn.¹²¹

100. Galwodd CCAUC am ddyletswydd strategol newydd ar gyfer cydweithio a chystadleurwydd, yn ogystal â'r ddyletswydd bresennol ar gydweithio a chydlyniant i "ganolbwyntio ar addysg yn unig."

*"Os bydd dyletswydd i'r Comisiwn ystyried cydlyniant wrth gyflawni ei swyddogaethau'n gysylltiedig ag ymchwil, credwn fod perygl i hynny atal prifysgolion rhag gallu cystadlu am gyllid ymchwil allanol."*¹²²

101. Mewn ymateb uniongyrchol i'r awgrym hwn, dywedodd y Gweinidog fod trafodaeth ddiddorol yn sicr i'w chael a'i fod yn edrych ar hynny, ymhlith pethau eraill.¹²³

Cryfhau gwaith ymchwil yn y dyletswyddau strategol

102. Roedd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru yn teimlo nad oes llawer o fanylion yn y Bil am ei ddyletswyddau tuag at waith ymchwil ac arloesi.¹²⁴ Roeddent am i'r dyletswyddau hyn gael eu cryfhau. Roeddent yn pryderu, oherwydd cwrmpas eang y Comisiwn, fod risg wirioneddol y gallai gwaith ymchwil ac arloesi gael ei esgeuluso. Gwnaethant ddweud y canlynol:

*"... part of the reason why research needs to be perhaps better situated with a specific duty is the role we expect research and innovation to play in the future in terms of economy and Society ... It's seen as a key driver of future success ... it has to be absolutely central to the commission."*¹²⁵

103. Cydnabu Cymdeithas Ddysgedig Cymru, er bod sylw i waith ymchwil yn y dyletswyddau strategol, ei bod yn galw am amcan strategol penodol yn ymwneud a gwaith ymchwil.¹²⁶ Hefyd, gwnaeth y cysylltiad â chryfhau presenoldeb gwaith ymchwil ac arloesi yn y dyletswyddau strategol a sut y gallai hyn roi rhagor o sicrwydd i brifysgolion bod ganddynt yr ymreolaeth i fynd ar drywydd y gwaith ymchwil sy'n bwysig yn eu barn hwy.¹²⁷ Ond mae'n teimlo bod peidio

¹²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32, CCAUC, paragraff 2.19

¹²² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32, CCAUC, paragraff 2.8

¹²³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 81

¹²⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 155

¹²⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 163-164

¹²⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 162

¹²⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 279

ag estyn y ddyletswydd ar ryddid academiaidd i waith ymchwil yn yn amryfusedd yn ôl pob tebyg.¹²⁸

104. Nododd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru fod gwaith ymchwil ac arloesi wedi ysgogi datblygiad sgiliau, gan dynnu sylw at y gwaith tymor hir ar led-ddargludyddion, lle roedd gwaith ymchwil ac arloesi bellach yn ysgogi datblygiad sgiliau a pholisi sgiliau. Roeddent yn credu bod sicrhau nad oedd gwaith ymchwil yn cael ei gadw ar wahân i weddill y Comisiwn yn un o fanteision posibl gwirioneddol sefydlu'r Comisiwn. Roeddent yn credu mai dyna pam mae angen dyletswydd benodol ar waith ymchwil ac arloesi.¹²⁹

105. Ar ddiwedd ein gwaith casglu tystiolaeth, amlinellodd y Gweinidog feysydd lle roedd yn ystyried rhagor o newidiadau i'r Bil, a dywedodd ei fod yn ymwybodol iawn o'r cwestiynau sy'n ymwneud â sut y cynrychiolir gwaith ymchwil yn y Bil.¹³⁰ Aeth ymhellach wedyn, gan ddweud bod dadl a ddylid hyrwyddo gwaith ymchwil ar ei delerau ei hun ac mai dyma'r math o beth y byddai ganddo ddiddordeb edrych arno.¹³¹

Rhyddid academiaidd ac ymreolaeth sefydliadol

106. Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn darparu ar gyfer rhyddid academiaidd i ddarparwyr Addysg Uwch a rhyddid i lefaru i staff Addysg Uwch y tu allan i'r dyletswyddau strategol, yn adrannau 15 ac 16 o'r Bil. Mae'r darpariaethau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn roi sylw i ryddid academiaidd a rhyddid i lefaru, ond maent yn ymwneud â'r sector Addysg Uwch yn unig. Mae'r darpariaethau hyn hefyd yn diffinio rhyddid academiaidd a rhyddid i lefaru. Hefyd, mae "mesurau diogelu" mewn darpariaethau eraill yn y Bil.

107. Galwodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru i ddyletswydd gyffredinol gael ei hychwanegu at y Bil ar ymreolaeth sefydliadol prifysgolion. Nodwyd bod deddfwriaeth gyfatebol mewn mannau eraill yn y DU.¹³² Roeddent yn teimlo y byddai dyletswydd o'r fath yn helpu i liniaru rhai o'u pryderon ehangach, yn ogystal â sicrhau y gall sefydliadau Cymreig weithredu yn y ffordd gystadleuol fyd-eang sy'n dod â manteision i bob cymuned.¹³³

¹²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 25, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, paragraff 5.1

¹²⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 165

¹³⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 10

¹³¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 83

¹³² Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017

¹³³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 155-156

108. Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd, os na chaiff y Bil ei gryfhau mewn perthynas â rhyddid academiaidd ac ymreolaeth sefydliadol, fod perygl y bydd Cymru dan anfantais o ran recriwtio ymchwilwyr, darlithwyr a myfyrwyr o'r radd flaenaf. Hefyd, nododd bryderon, os nad yw'n gallu dangos rhyddid academiaidd ac ymreolaeth sefydliadol, y bydd yn gorfod tynnu'n ôl fel un o lofnodwyr yr "Observatory Magna Charta Universitatum". (Mae hyn yn cwmpasu egwyddorion rhyddid academiaidd ac ymreolaeth sefydliadol fel canllaw ar gyfer llywodraethiant da a hunanddealltwriaeth o brifysgolion.)¹³⁴

109. Roedd y Gymdeithas Ddysgedig yn teimlo y gellid gwneud mwy yn y Bil i bwysleisio pwysigrwydd rhyddid academiaidd ac ymreolaeth. Nododd y risg bosibl y bydd y Bil yn annog mwy o reolaeth dros y gwaith ymchwil a wneir mewn prifysgolion. Dywedodd wrthym fod yn rhaid i waith ymchwil sylfaenol gael ei wneud gan yr ymchwilwyr eu hunain, a bod yn rhaid i'r Bil ganiatáu ar gyfer y math hwn o waith ymchwil ochr yn ochr â gwaith ymchwil dan arweiniad cenhadaeth.¹³⁵ Roedd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd bryderon nad yw'r amddiffyniadau'n cwmpasu gwaith ymchwil ac arloesi.¹³⁶ Galwodd Prifysgol Caerdydd i'r diffiniad gynnwys, yn benodol, y rhyddid i ddarparwyr benderfynu ar drywydd a ffocws gwaith ymchwil a'r methodolegau a ddefnyddir i'w wneud.¹³⁷

110. Cododd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau hefyd y niwed economaidd posibl os nad yw'r Bil yn cynnwys hawl academiaidd unigol i ryddid. Galwodd am yr un diffiniad ag yn Neddf Prifysgolion 1997 Iwerddon, gan nodi, er bod y Bil wedi mabwysiadu'r fformiwleiddiad, y gwnaed hynny ar ffurf hawl wannach i ryddid i lefaru. Dywedodd, gan fod y Bil yn nodi hawl unigol i ryddid academiaidd, y dylid ei diffinio felly. Hefyd, nododd fod y dull a fabwysiedir yn y Bil hwn yn wahanol i ddull yr Alban, yn ogystal â dull Iwerddon.¹³⁸

111. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf iawn yn egwyddor rhyddid academiaidd a rhyddid i lefaru ar draws y system addysg, a bod Llywodraeth Cymru yn cael sicrwydd cyffredinol bod yr egwyddor yn cael ei chynnal. Dywedodd hefyd fod ar sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach y DU, o dan Ddeddf Addysg 1986, ddyletswydd eisoes i sicrhau bod rhyddid i lefaru yn cael ei sicrhau i staff, myfyrwyr a siaradwyr.¹³⁹ Dywedodd fod y Llywodraeth yn credu'n gryf mewn egwyddorion rhyddid academiaidd a rhyddid i lefaru ar draws y system addysg ac yn eu cefnogi. Hefyd, dywedodd fod gan y Llywodraeth sicrwydd

¹³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 21, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraffau 4.1-4.2](#)

¹³⁵ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 279](#)

¹³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 21, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 6.1](#)

¹³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 22, Prifysgol Caerdydd, paragraff 4.2](#)

¹³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 23, Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru](#)

¹³⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 164](#)

cyffredinol bod egwyddorion o'r fath yn cael eu cynnal mewn prifysgolion a cholegau. Dywedodd fod adran 16 o'r Bil yn "tanlinellu ac yn ailddatgan yr ymrwymiad hwn."¹⁴⁰

112. Esboniodd mai'r rhesymeg dros beidio ag ehangu rhyddid i lefaru a rhyddid academiaidd i ddarparwyr addysg bellach oedd oherwydd bod y sectorau Addysg Uwch ac Addysg Bellach yn gweithredu'n wahanol iawn, gyda sefydliadau Addysg Uwch yn cael rhyddid i wneud penderfyniadau o ran cynnwys, addysgu, asesu, derbyniadau, penodi staff academiaidd. Ond yn y sector Addysg Bellach, mae'n rhaid dilyn cwricwlwm, y Llywodraeth sy'n gwneud penderfyniadau cyllid a Chyngor y Gweithlu Addysg sy'n rheoleiddio staff addysgu. Felly, mae'n credu y byddai rhyddid academiaidd ychydig yn anghydweddol â'r dulliau hynny.¹⁴¹

113. Pan wnaethom holi pam nad oedd y Bil yn cynnwys dyletswydd gyffredinol i amddiffyn ymreolaeth sefydliadol, dywedodd y Gweinidog mai'r man cychwyn yw bod sefydliadau'n ymreolaethol. Dyna'r sefyllfa sefydlog. Aeth ymlaen i ychwanegu bod adran 15 yn darparu rhai amddiffyniadau ar gyfer rhyddid academiaidd, a bod gan adran 17 amddiffyniadau ynghylch llywodraethiant a statws elusennol. Fodd bynnag, roedd wedi clywed y dystiolaeth a gasglwyd gennym ac roedd yn edrych ar yr hyn y gall y Llywodraeth ei wneud i roi ychydig mwy o sicrwydd i randdeiliaid ynglŷn â hyn.¹⁴²

Hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg

114. Er y croesawyd y ddyletswydd hon, cododd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch union eiriad y ddyletswydd, gan gynnwys y defnydd o'r gair "rhesymol".

115. Croesawodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol hyn, ond gofynnodd a oedd y ddyletswydd yn "ddigon cryf i ddelifro ar yr amcanion?" Dywedodd fod yr ymadroddion "cam rhesymol" a "galw rhesymol" ychydig yn hen ffasiwn, a bod angen annog galw am ddarpariaeth Gymraeg mewn "modd rhagweithiol". Galwasant i eiriad y ddyledswydd hon gael ei gryfhau.¹⁴³ Cytunodd Comisiynydd y Gymraeg a galw'r cysyniadau hyn yn rhai "hanesyddol" a "gwan". Tynnodd sylw nad y meddylfryd hwn yw'r un sy'n bresennol yn y sector cyn-16, felly roedd yn "synnu" ei weld yn y Bil.¹⁴⁴

¹⁴⁰ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, paragraffau 16.1-16.3, 4 Chwefror 2022

¹⁴¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 165

¹⁴² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 63-64

¹⁴³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 441-445

¹⁴⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 474

116. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg, oherwydd y bu darpariaeth addysg drydyddol Gymraeg gyfyngedig, fod “angen mynd ati i hyrwyddo” darpariaeth Gymraeg, ac y bydd defnyddio’r cysyniad “galw rhesymol” “yn arwain at ddiffyg cynnydd.”

“Rydym felly yn cynnig y dylid newid geiriad y ddeddf i roi’r ddyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau bod darpariaeth addysg drydyddol yn galluogi holl ddysgwyr/myfyrwyr Cymru i barhau i ddatblygu eu sgiliau Gymraeg wrth drosglwyddo o addysg statudol i addysg drydyddol. Mae hyn yn hollbwysig o ystyried y weledigaeth y bydd y sector yn cyfrannu’n sylweddol at ffyniant a lles cenedlaethol ac unigolion, gan y bydd sgiliau dwyieithog yn cynyddu cyflogadwyedd pobl.”¹⁴⁵

117. Galwodd Cyngor Sir Ceredigion hefyd i’r ddyletswydd hon fod yn gryfach, gan ddweud mai darpariaeth gydradd Gymraeg a Saesneg ddylai fod y nod.¹⁴⁶

118. Galwodd Estyn i’r ddyletswydd gael ei haileirio i’w gwneud yn gliriach ac yn llai agored i “ddechongliad unigol neu sefydliadol”. Roedd am i gyfeiriadau at y gair “rhesymol” gael eu dileu ac o’r farn y dylai “sicrhau bod darpariaeth ddigonol trwy gyfrwng y Gymraeg” fod yn ddyletswydd ar y Comisiwn. Yn adran 8(c) galwodd i’r gair “gofyn” gael ei ddefnyddio yn lle “annog” a “gosod dyletswydd statudol ar y Comisiwn i gyflawni’r nodau hyn.”¹⁴⁷

119. Tynnodd UCAC sylw bod y ddyletswydd hon yn cyfeirio at addysg yn unig, ac nad yw’n cwmpasu gwaith ymchwil. Galwodd i’r geiriau “ac ymchwil” gael eu hychwanegu at y ddyletswydd.¹⁴⁸ Dywedodd ei fod yn meddwl y gallai hyn fod yn “oversight o ryw fath”.¹⁴⁹

120. Dywedodd y Gweinidog nad uchelgais y Llywodraeth oedd “jest diwallu’r galw presennol.” Dywedodd ei fod am i’r Comisiwn “ateb galw rhesymol” sy’n mynd y tu hwnt i fynd i’r afael â galw gwirioneddol. Dywedodd ei fod eisiau “gwthio” lefel y ddarpariaeth “yn ehangach ac ... annog mwy a mwy o bobl i mewn i’r system”. Soniodd fod un o flaenoriaethau newydd yng ngwaith Gymraeg 2050 yw datblygu’r arlwy Gymraeg mewn addysg ôl-16, gyda chyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i’r Coleg Gymraeg Cenedlaethol, a’i gylch gorchwyl yn cael ei

¹⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 03, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 2.2](#)

¹⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 09, Cyngor Sir Ceredigion](#)

¹⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 11, Estyn](#)

¹⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 46, UCAC, paragraff 5.3](#)

¹⁴⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 449](#)

ehangu. Hefyd, nododd fod y datganiad o flaenoriaethau strategol yn adnodd arall sydd ar gael i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Comisiwn yn ymateb i “uchelgais polisi maes y Gymraeg”.¹⁵⁰

Y berthynas rhwng y Comisiwn a’r Coleg Cymraeg

121. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg ei bod yn hollbwysig bod “cyd-weithio effeithiol” rhwng y Comisiwn a’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Hefyd, dywedodd fod yn rhaid i gyllid y ddau sefydliad hyn fod yn “ddigonol” iddynt gyflawni amcanion y Bil hwn a Strategaeth Cymraeg 2050. Galwodd i’r berthynas rhwng y Comisiwn, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a’r Ganolfan Genedlaethol fod yn “glir” ac am “eglurder” ar eu rolau a’u cyfrifoldebau. Er y dylid atgyfnerthu arbenigedd Cymraeg y Coleg a’r Ganolfan, dywedodd fod angen “prif ffrydio” materion yn ymwneud â’r Gymraeg i waith y Comisiwn.¹⁵¹

122. Nododd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ddyletswyddau’r Comisiwn mewn perthynas â’r Gymraeg, a dywedodd fod y “rhan fwyaf” o’r dyletswyddau hynny’n rhan o gyfrifoldebau’r Coleg. Dywedodd fod angen “allweddol” o hyd am gorff fel y Coleg a bod angen “ystyried yn ofalus” a oedd y Bil a’r ddogfennaeth atodol yn ystyried hynny.¹⁵² Hefyd, dywedodd fod angen “mwy o eglurder” ar y meysydd lle byddai cyfrifoldeb ar y cyd.¹⁵³

123. Myfyriodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar ei berthynas bresennol ag ystod o gyrff statudol, gan gynnwys datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â CCAUC. Roeddent yn credu y bydd y perthnasoedd gwaith effeithiol hyn yn “sail cryf” ar gyfer datblygu perthynas effeithiol â’r Comisiwn. Fodd bynnag, awgrymodd y byddai’n “fuddiol” cael “mwy o ymwneud uniongyrchol” gan y Coleg gyda “phrosesau cynllunio” ac y datganolir cyfrifoldebau cyllido i’r Coleg.¹⁵⁴

124. Dywedodd y Gweinidog fod y berthynas rhwng y cyrff hyn “ar un lefel, yn faes cymhleth, ... ond, ar y llaw arall, mae’n eithaf syml.” Dywedodd fod gan y Coleg “rôl benodol”, gan bwysleisio nad yw’n ddarparwr addysg, ond bod ganddo rôl trosolwg. Dywedodd fod y Bil yn caniatáu i’r Comisiwn “allu bod yn eithaf arloesol” o ran sut mae’n gweithio gyda’r sefydliadau hyn.¹⁵⁵

125. Pan wnaethom ofyn am ragor o eglurhad ynghylch sut y byddai’r berthynas hon yn gweithredu, dywedodd y Gweinidog y bydd y Bil yn galluogi’r Comisiwn “i gael yr hyblygrwydd i

¹⁵⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 118.

¹⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 03, Comisiynydd y Gymraeg, paragraffau 3.1 a 3.3.

¹⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 30, Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

¹⁵³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 445.

¹⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 30, Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

¹⁵⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 120-122.

weithio'n arloesol ac yn effeithiol" gyda'r Coleg a "a chyrrff perthnasol eraill fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol". Pwysleisiodd rolau "pwysig a phenodol" y sefydliadau hyn, gan ddweud y byddai'n "hanfodol" i'r Comisiwn ymgysylltu â'r Coleg a defnyddio eu harbenigedd.

*"Y disgwyliad yw y bydd y cyfrifoldebau ar gyfer meysydd gwaith yn cael eu pennu ar sail cylch gwaith ac arbenigedd priodol pob sefydliad er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion a sicrhau bod ymyriadau'n cael yr effaith fwyaf bosibl. Rhagwelir y bydd dogfennau cynllunio strategol yn cael eu halinio lle bo'n briodol a dylid rhoi trefniadau cadarn ar waith i fesur effaith ymyriadau ar gynyddu cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y sector addysg drydyddol."*¹⁵⁶

Dyletswydd llais y dysgwr

126. Galwodd UCM Cymru i lais y myfyriwr a'r dysgwr gael ei ychwanegu at y dyletswyddau strategol ac mae'n siomedig nad yw wedi'i gynnwys ar hyn o bryd. Fel y'i drafftiiwyd, nid oedd yn credu bod amgylchedd y Bil yn adlewyrchu diddordebau myfyrwyr a dysgwyr ddigon.¹⁵⁷

127. Rydym yn trafod llais y dysgwr yn ehangach yn y Bil ym Mhennod Argymhelliad 31.

Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol

128. Mae galwadau i ddyletswydd strategol ar bartneriaeth gymdeithasol a gwaith teg gael ei hychwanegu at y Bil. Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru y byddai'n sail i'r Bil ac y byddai'n cyd-fynd â holl nodau'r Bil.¹⁵⁸ Cefnogwyd hyn gan UCAC,¹⁵⁹ yr Undeb Prifysgolion a Cholegau¹⁶⁰, ac Unsain Cymru.¹⁶¹ Dywedodd UCAC y byddai rhai o'i bryderon am gynrychiolaeth ar y Bwrdd, sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 75-76 yn cael eu tawelu pe bai'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol yn cael eu cryfhau.¹⁶²

129. Dywedodd Unsain Cymru ei bod yn bwysig i gyfeiriad penodol gael ei wneud yn y Bil hwn, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) disgwylidig. Y rheswm dros hyn yw nad oes sicrwydd y bydd yr uchelgais i'r Bil hwn ddod yn

¹⁵⁶ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 4 Chwefror 2022, paragraffau 17.1-17.3

¹⁵⁷ Papur ysgrifenedig, CYPE(6)-07-21 Papur 6, UCM Cymru

¹⁵⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 402

¹⁵⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 408

¹⁶⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 416

¹⁶¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 420

¹⁶² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 434

gyfraith yn cael ei gwireddu ac, yn ail, oherwydd y byddai'n atgyfnerthu'r ffaith bod partneriaethau cymdeithasol yn gymwys ar draws y sector addysg drydyddol.¹⁶³

130. Dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai gan y Comisiwn rôl hanfodol wrth hyrwyddo partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg. Dywedodd y byddai'r Comisiwn yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac felly y byddai hefyd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar ôl i'r Bil gael ei basio. Fodd bynnag, roedd yn teimlo y byddai'n wrthgynhyrchio deddfu dwywaith ar gyfer yr un ddyletswydd, un mewn un Bil ac un yn y llall. Roedd yn glir y byddai'r Comisiwn yn ddarostyngedig i'r ystod lawn o ddyletswyddau partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg yn y ddeddfwriaeth newydd.¹⁶⁴

Yr egwyddor hyd braich

131. O dan adran 11 o'r Bil, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad yn nodi eu blaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil. Cânt ei ddiwygio ar unrhyw adeg. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y "rhagwelir" y bydd y datganiad hwn yn seiliedig ar raglen lywodraethu bum mlynedd, "gan adlewyrchu symudiad Llywodraeth Cymru tuag at gynllunio busnes tymor cyfan y llywodraeth."¹⁶⁵

132. Mae adrannau 12-14 yn nodi'r trefniadau ar gyfer cynllun strategol y Comisiwn. Mae'n rhaid i'r Comisiwn baratoi cynllun strategol sy'n nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni'r dyletswyddau strategol a restrir o dan adrannau 2-10, a sut y bydd yn mynd i'r afael â blaenoriaethau Gweinidogion Cymru a gyhoeddir o dan adran 11. Mae'n rhaid anfon unrhyw gynllun strategol a baratoir gan y Comisiwn at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau unochrog i addasu'r cynllun, ond mae'n rhaid iddynt ymgynghori â'r Comisiwn cyn iddynt wneud hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, "Os na fydd penderfyniad yn bosibl, [y] gallai Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun gydag addasiadau."¹⁶⁶

133. Mae'n rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi'r cynllun strategol cymeradwy, a gall y Comisiwn adolygu ei gynllun strategol ar unrhyw adeg.

¹⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 08, Unsain Cymru, paragraff 6](#)

¹⁶⁴ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 13-14](#)

¹⁶⁵ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\)](#), paragraff 3.69, 1 Tachwedd 2020

¹⁶⁶ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\)](#), paragraff 3.75, 1 Tachwedd 2020

134. Mae nifer o faterion sy'n peri pryder ynghylch pwerau Gweinidogion Cymru a "[ch]yrhaeddiad" yn y Bil, fel y'i drafftwyd, a'r hyn y gallai hyn ei olygu'n ymarferol. Mewn perthynas â phwerau penodol dros sefydliadau, edrychwn ar hyn yn fanylach ym Mhenodau 0 (yn cwmpasu pwerau dros sefydliadau Addysg Bellach) 0 (pwerau cyllido Gweinidogion Cymru); a 0 (yn cwmpasu pwerau Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaethau Addysg Uwch). Yn yr adran hon, rydym yn canolbwyntio ar y pwerau a fydd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r Comisiwn.

135. Roedd gan CCAUC bryderon sylweddol am natur y berthynas, a rhoddodd fanylion i ni am feysydd pryder posibl (yr ymhelaethwn arnynt isod). Roedd yn credu bod y ddeddfwriaeth, fel y'i drafftwyd, yn golygu bod y model ychydig yn hybrid mewn gwirionedd, nad yw'n lân, ac y byddai'n peri heriau gweithredol. Dywedodd fod tensiynau rhwng y cysyniad corff hyd braich a rhai o'r cymalau sy'n atal y Comisiwn rhag bod yn gorff hyd braich, gan ddweud bod y tensiwn yn rhyfedd braidd.¹⁶⁷

136. Dywedodd CCAUC mai diben sefydliad hyd braich yw darparu'r arbenigedd ar gyfer rheoleiddio, cyllido a goruchwyllo'r sector ôl-16, a bod llawer o hynny'n arbenigedd technegol manwl. Dywedodd y canlynol:

*"... there should be no need for the Government to work around the commission, or to work through the commission, in ways where there is no choice for the commission in how to respond. As an arm's-length body, the commission should be trusted to implement the Minister's remit and strategies approved by Government. It also allows the Government not to become embroiled in the operational issues ... respect for that expertise and a relationship built on trust are fundamental and spelt out explicitly in the Welsh Government's own framework ... it creates the space for the expertise to do what it needs to do, and for the Government to be comfortable that that's happening without having to do it itself."*¹⁶⁸

137. Dadleuodd y byddai'r trefniadau sydd ar waith, megis y cynllun strategol, a setliad ariannu blynyddol y Comisiwn yn darparu digon o lwybr clir.¹⁶⁹ Roedd hefyd yn pryderu am yr effaith bosibl ar allu'r Comisiwn i gyflawni ei ddyletswyddau am fod lefel y pwerau gweinidogol yn arwain at "[d]ryswch yng nghraidd ei drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd". Gallai hefyd

¹⁶⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 286 a 288

¹⁶⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 278

¹⁶⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 279

rwystro gallu'r Comisiwn i fod yn "ystwyth" i ymateb i "ddigwyddiadau sy'n datblygu o ran yr economi, cymdeithas, diwylliant a'r amgylchedd."¹⁷⁰

138. Dywedodd Colegau Cymru fod y Bil yn gadael llawer iawn yng ngafael Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn. Roedd yn tybio a oedd y Llywodraeth am gael y pwerau hyn rhag ofn bod y gwaethaf yn digwydd ac awgrymodd fod gormod o ofn am yr amgylchiadau eithriadol a dim digon am roi pŵer i'r Comisiwn er mwyn iddo weithio'n effeithiol. gyda'r sector.¹⁷¹ Hefyd, awgrymodd y byddai'n tanseilio annibyniaeth y Comisiwn bob tro y cedwir pŵer yn ôl gyda'r Gweinidogion.¹⁷² Derbyniodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru hefyd fod ar Lywodraeth angen pŵer eithriadol mewn amgylchiadau eithriadol, ond bod nifer yr ysgogiadau yn y ddeddfwriaeth hon yn awgrymu y byddai hyn o bosibl yn fwy arferol. Roedd yn teimlo y gallai hyn arwain at ddryswch, dyblygu a mwy o gostau o bosibl.¹⁷³

139. Dywedodd FfHCC ei fod yn gorff hyd braich lle y mae gan y Llywodraeth afael dynn iawn ar y llaw. Ond nododd hefyd y byddai'r Comisiwn yn gyfrifol am swm sylweddol o gyllid, a'i bod yn ddealladwy y dylid cael goruchwyliaeth ddigonol. Fodd bynnag, roedd yn teimlo y dylai'r Comisiwn fod yn atebol i'r Senedd a fyddai'n ei wneud yn gorff hyd braich gwirioneddol.¹⁷⁴ Cytunodd Coleg Caerdydd a'r Fro â hyn.¹⁷⁵

140. Roedd CCAUC yn pryderu am y pwerau i Weinidogion Cymru addasu cynllun strategol y Comisiwn. Nid oedd yn credu y byddai hyn yn ddefnyddiol nac yn synhwyrol, gan dynnu sylw bod posibilrwydd y gallai'r Llywodraeth newid y cynllun i gynnwys pethau na all y Comisiwn eu cyflawni. Roedd yn credu mai mater i'r Comisiwn yw nodi'r hyn y gellir ei gyflawni, nid y Llywodraeth.¹⁷⁶ Rhannwyd y canlynol â phryderon am y pŵer penodol hwn:

- Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru;¹⁷⁷
- Addysg Oedolion Cymru¹⁷⁸;

¹⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32, CCAUC, paragraff 1.7.

¹⁷¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 311

¹⁷² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 318

¹⁷³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 169

¹⁷⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 67.

¹⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 33, Coleg Caerdydd a'r Fro

¹⁷⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 284

¹⁷⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 168

¹⁷⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 70

- Undeb Prifysgolion a Cholegau;¹⁷⁹
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru¹⁸⁰;
- Cyngor Deoniaid Iechyd Cymru;¹⁸¹
- Prifysgol Caerdydd¹⁸²;
- Colegau Cymru;¹⁸³
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.¹⁸⁴

141. Rydym yn nodi, er bod FfHCC wedi tynnu sylw at y pŵer hwn fel un a awgrymodd nad oedd y Comisiwn yn gorff hyd braich mewn gwirionedd, ei fod hefyd yn cydnabod y gallai'r Bil ddarparu sail i'r Comisiwn fod yn gorff hyd braich gwirioneddol effeithiol, pwerus, atebol.¹⁸⁵

142. Roedd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru yn arbennig o bryderus ynghylch sut y gallai'r pŵer hwn ymwneud â'r Llywodraeth yn ceisio newidiadau mewn perthynas â gwaith ymchwil ac arloesi. Gwnaethant nodi gwaith protein AstraZeneca yng Nghaerdydd, gan ddweud y byddai wedi bod yn eithaf anodd i Weinidog sylweddoli bod angen gwneud y gwaith hwnnw. Dywedwyd ei bod yn bwysig cydnabod nad oes gan un rhan o'r sector yr holl syniadau.¹⁸⁶

143. Roedd eraill, gan gynnwys y Gymdeithas Ddysgedig, David Notley ac Estyn yn fwy digyffro ynghylch y pwerau. Dywedodd y Gymdeithas Ddysgedig y byddai'n dibynnu ar faterion ymarferol o ran sut y byddai'n gweithio ond, hyd yn hyn, roedd pob arwydd a oedd ganddi yn awgrymu y byddai'n ddull ymgynghorol.¹⁸⁷ Dywedodd Estyn y dylid cael mecanweithiau priodol i sicrhau bod y Comisiwn yn cefnogi nodau cyffredinol Gweinidogion Cymru. Dywedodd, o'i phrofiad hi dros nifer o flynyddoedd, mai dim ond pan oedd angen y maent wedi'u defnyddio,

¹⁷⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 465.

¹⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12, Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraffau 3.14-3.15.

¹⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 10, Cyngor Deoniaid Iechyd Cymru

¹⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 22, Prifysgol Caerdydd, paragraff 4.1

¹⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 31, Colegau Cymru

¹⁸⁴ Papur Pwyllgor, CYPE(6)-07-21, Papur 1, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

¹⁸⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 68.

¹⁸⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 218.

¹⁸⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 262.

ac nad yw wedi arwain at ormod o ymwneud â materion gweithredol gan Weinidogion Cymru.¹⁸⁸

144. Dywedodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru mai un pryder allweddol oedd y pwerau yn y Bil (yn adran 19) i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau cyffredinol. Gwnaethant ddweud, yn wahanol i'r pwerau presennol, y byddai cyfarwyddydau o'r fath yn osgoi gwaith craffu gan y Senedd. Maent yn argymhell yn gryf y dylid diwygio'r darpariaethau hyn i'w gwneud yn ofynnol i gyfarwyddydau o'r fath gael eu gwneud drwy offeryn statudol yn unig. Nodwyd y byddai hyn yn cysoni'r darpariaethau â'r ddeddfwriaeth bresennol, yn ogystal â darpariaethau ar draws y DU.¹⁸⁹

145. Mae CCAUC wedi cynnig nifer o welliannau y mae'n credu y byddent yn ymdrin â'i bryderon ac yn diogelu annibyniaeth y Comisiwn. Maent yn cynnwys dileu pwerau sy'n galluogi Gweinidogion i wneud y canlynol:

- addasu cynllun strategol y Comisiwn yn unochrog (adran 13);
- cyfarwyddo'r Comisiwn i arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â chysiau neu feysydd ymchwil penodol (adrannau 19(4) a 19(5));
- cyllido addysg bellach a hyfforddiant ar yr un pryd ac yn yr un modd â'r Comisiwn – mae CCAUC o'r farn y dylai'r pwerau hyn barhau i fod yn eiddo i'r Comisiwn (adrannau 94 i 100);
- rhoi cyfarwyddydau cymorth ariannol i'r Comisiwn – mae CCAUC o'r farn bod y pŵer hwn yn "cymhlethu" cyfrifoldebau'r naill a'r llall (adran 106);
- nodi gofynion mewn perthynas â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy (adran 111);
- ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu gwybodaeth i'r Gweinidogion (adran 126).¹⁹⁰

146. Mewn perthynas â graddau natur hyd braich y berthynas, dywedodd y Gweinidog fod hwn yn "gyd-destun bythol" i'r Llywodraeth wrth sefydlu corff hyd braich. Dywedodd, pe bai'r Llywodraeth eisiau cadw gafael ar y pwerau, "byddem ni ddim yn cynnig y Bil." Dywedodd y canlynol hefyd:

¹⁸⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 338

¹⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 10

¹⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32, CCAUC, paragraff 2.4

"Mae creu'r corff newydd yn mynd i sicrhau bod pwerau a chyfrifoldeb ac ariannu sylweddol yn mynd i'r corff newydd."

147. Nododd faint ac ehangder cyfrifoldeb y Comisiwn a bod angen "taro cydbwysedd" rhwng rhyddid y Comisiwn i weithredu a'r angen am atebolrwydd.¹⁹¹

148. O ran pwerau Gweinidogion Cymru i ddiwygio cynllun strategol y Comisiwn, ailadroddodd mai'r "cysyniad gwaelodol, sylfaenol" yn y Bil oedd i'r Comisiwn ymateb i gynllun strategol Llywodraeth Cymru. Soniodd am yr angen am "line of sight" rhwng y Llywodraeth etholedig a'r Comisiwn a'i bod yn annhebygol y byddai Llywodraeth yn datganoli cyllid ar y lefel hon heb ryw elfen o "reolaeth waelodol, backstop ...". Roedd yn credu y byddai "amgylchiadau cyfyng iawn" lle y byddai'r Llywodraeth am ddiwygio cynllun y Comisiwn, a bod "gofyn ymgynghori" ac y byddai gweithredoedd yn "gorfod digwydd ar sail egwyddorion cyfraith gyhoeddus ...". Dywedodd fod Gweinidogion, ar hyn o bryd, yn ysgrifennu llythyr cylch gwaith at CCAUC yn flynyddol yn nodi'r telerau cyllid, a bod hyn yn gyson ag annibyniaeth weithredol CCAUC. Roedd yn credu y byddai'r dull newydd yn "fwy strategol, yn fwy hir dymor ... ac efallai'n fwy tryloyw."¹⁹²

149. O ran cyhoeddi cyfarwyddydau cyffredinol heb gynnwys y Senedd, dywedodd fod mesurau diogelu, megis gorfod ymgynghori â'r Comisiwn, cyhoeddi cyfarwyddydau o'r fath a datganiad i'r Senedd o'r cyfarwyddydau. Byddai'r rhain yn "cyflwyno pethau sy'n diogelu buddiannau sefydliadau a'r Senedd hefyd." Yn ystod y pandemig diweddar, pan fu'n rhaid i'r Llywodraeth "symud ar fyrder", dywedodd fod hynny wedi dylanwadu ar y dull o ymdrin â'r adran hon.¹⁹³ Nododd yr adeg pan fu'n rhaid i'r Llywodraeth gyhoeddi cyfarwyddyd o dan Ddeddf Cymwysterau (Cymru) 2015 ynghylch canslo arholiadau a phennu graddau. Hefyd, nododd enghreifftiau posibl megis pan oedd angen cyfarwyddydau cymorth ariannol, megis pe bai achos difrifol o gamreoli ariannol ac efallai y byddai angen gweithredu ar fyrder. Dywedodd fod y pŵer hwn yn un i'w ddefnyddio os metha popeth arall.¹⁹⁴ Fodd bynnag, dywedodd hefyd ei fod yn "hapus i edrych ar ffyrdd amgen."¹⁹⁵

Posibilrwydd ailgategoreiddio'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

150. Roedd CCAUC yn pryderu y gallai cyrhaeddiad y ddeddfwriaeth gynyddu maint y rheolaeth y gall y Llywodraeth ei harfer yn uniongyrchol ar ddarparwyr. Dywedodd y gallai hyn

¹⁹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 141-142

¹⁹² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 147-150

¹⁹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 47-48

¹⁹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 53-54

¹⁹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 48

fod yn anghydnaws â chyfraith elusennau, yn ogystal â thanseilio statws nid-er-elw darparwyr a dod â'u cyfrifon yn rhan o gyfrifon y Llywodraeth o bosibl a bod angen osgoi hyn yn dilyn yr hyn a ddigwyddodd yn yr Alban.¹⁹⁶

151. Cododd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru bryderon nad oedd gan y Bil ddarpariaeth debyg ar gyfer Gweinidogion Cymru â'r hyn sydd ar gyfer y Comisiwn yn adran 17.¹⁹⁷ Dywedwyd y byddai rhoi hyn ar wyneb y mesur yn rhoi rhywfaint o gysur i sefydliadau y byddent yn gallu parhau â'u gwaith i wasanaethu buddiannau eu cymunedau a'r genedl.¹⁹⁸

Safbwynt y Pwyllgor

Y Comisiwn

152. Fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 73-84, roedd ystod o ymatebwyr a fynegodd bryderon ynghylch cyfansoddiad y Bwrdd fel y'i nodir yn y Bil.

153. Rydym yn nodi safbwynt y Gweinidog nad oedd y Comisiwn i fod i gynrychioli'r holl sectorau, ond y byddai'n adlewyrchu'r ystod eang o ddarpariaeth ar draws y darn. Dywedodd hefyd y byddai'r broses penodiadau cyhoeddus yn ceisio y ceir ceisiadau gan yr ystod ehangaf o bobl, ac y byddai'r Bwrdd wedyn yn dod o'r gronfa ehangaf o bobl. Ond gwyddom, er gwaethaf yr ymdrechion gorau, nad yw'r broses penodiadau cyhoeddus bob amser yn arwain at benodiadau gwirioneddol amrywiol. Hoffem i'r darpariaethau hyn gael eu cryfhau, er mwyn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i roi sylw i'r angen i sicrhau bod y Bwrdd, yn ei gyfanrwydd, yn adlewyrchu ehangder y ddarpariaeth addysg ac ymchwil, ac amrywiaeth eang Cymru.

Argymhelliad 6. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau i Atodlen 1 yng Nghyfnod 2 i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru bod yn rhaid iddynt roi sylw i'r angen i sicrhau bod y Bwrdd (yn ei gyfanrwydd) yn adlewyrchu ehangder y ddarpariaeth addysg ac ymchwil, ac amrywiaeth Cymru. Dylai hyn gwmpasu penodi pob aelod i'r Comisiwn, gan gynnwys aelodau cyswllt.

154. Nodwn fod y Bil yn darparu ar gyfer "o leiaf" ddau gynrychiolydd gweithwyr ac "o leiaf" un cynrychiolydd dysgwyr, felly dyma'r isafswm, nid yr uchafswm. Felly mae lle i gynyddu'r nifer,

¹⁹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 280

¹⁹⁷ Mae hyn yn gwahardd y Comisiwn rhag ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â chyfraith elusennau neu ddogfennau llywodraethu'r sefydliad.

¹⁹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 183

ond mae'n bosibl na fydd hyn yn ymdrin â'r pryderon a gododd ymatebwyr. Rydym am i'r Bil fod yn fwy uchelgeisiol ar gyfer cynrychiolaeth dysgwyr a gweithwyr. Rydym yn galw i'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn cynyddu isafswm y cynrychiolwyr. Er enghraifft, mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, yn gyffredinol mae gan gyrff llywodraethu o leiaf ddau gynrychiolydd myfyrwyr, credwn y dylid cael o leiaf hyn yn y Comisiwn, os nad mwy. Mae cyfrifoldebau'r Comisiwn yn bellgyrhaeddol a byddant yn cael effaith enfawr ar fyfyrwyr a'r rhai sy'n gweithio yn y sector. Felly, mae'n hanfodol bod eu llais yn amlwg yn strwythurau'r Comisiwn. Nodwn y pryderon a gododd yr undebau llafur ac eraill ynghylch ehangder y sectorau a gwmpesir gan y Comisiwn ac na fydd un cynrychiolydd academiaidd ac un cynrychiolydd anacademaidd yn adlewyrchu lluosogrwydd lleisiau yn y sector.

Argymhelliad 7. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynyddu cynrychiolaeth gweithwyr a dysgwyr ar y Comisiwn, ac egluro disgwyliad y Llywodraeth yn y Memorandwm Esboniadol y dylai'r Comisiwn geisio mwy na'r isafswm a nodir yn y ddeddfwriaeth.

155. Mewn perthynas â hawliau pleidleisio, credwn y dylai fod hawliau pleidleisio gan yr aelodau cyswllt dysgwyr a gweithwyr. Byddai hyn yn adlewyrchu arfer da yn y sector. Credwn fod hyn eisoes yn nodwedd effeithiol yn y sector, a ddylai leddfu pryderon y Gweinidog ynghylch cynrychiolwyr yn cael eu rhwymo gan benderfyniadau a wneir gan y Comisiwn, a sicrhau bod ganddynt lais cyfartal yn y drafodaeth.

Argymhelliad 8. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi hawliau pleidleisio i'r aelodau cyswllt dysgwyr a gweithwyr ar y Comisiwn.

156. Nodwn y pryderon a gododd rhai rhanddeiliaid ynghylch cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru am benodi Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (sydd hefyd yn Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn). Credwn mai cyfaddawd fyddai sicrhau bod y broses benodi'n cynnwys gwrandawiadau cyn penodi gan bwyllgor perthnasol y Senedd. Byddai hyn yn rhoi cydbwysedd rhwng pwerau Gweinidogion Cymru a gwaith craffu allanol.

Argymhelliad 9. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y broses benodi ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi yn cynnwys proses cyn penodi gan bwyllgor perthnasol y Senedd.

Dyletswyddau strategol

157. Nodwn y gefnogaeth eang ar draws y sector ar gyfer cyflwyno'r dyletswyddau strategol. Rydym hefyd yn croesawu parodrwydd datganedig y Gweinidog i edrych ar rai o'r materion ynghylch dyletswyddau strategol y tynnwyd sylw atynt wrth i ni gasglu tystiolaeth.

Cryfhau gwaith ymchwil yn y dyletswyddau strategol

158. Mae'n amlwg o'r rhanddeiliaid ac o dystiolaeth y Gweinidog ei hun y gellid gwneud mwy i gryfhau'r Bil mewn perthynas â gwaith ymchwil ac arloesi. Ffordd allweddol o wneud hynny yw ei wneud yn amlycach yn y dyletswyddau strategol. Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i ystyried gwelliannau i'r Bil yn hyn o beth. Credwn y byddai'r gwelliannau rydym yn galw amdanynt yn helpu i gryfhau'r Bil.

Argymhelliad 10. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys dyletswydd strategol i hyrwyddo cydweithio a chystadleurwydd ym maes gwaith ymchwil ac arloesi.

Argymhelliad 11. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys ymchwilwyr yn adran 5(2) ynghylch gallu'r gweithlu addysg drydyddol ac ymchwil.

Rhyddid academaidd ac ymreolaeth sefydliadol

159. Er bod y Bil yn ymdrin â rhyddid academaidd, dim ond mewn perthynas â darpariaeth addysg uwch y gwna hyn, nid gweithgarwch academaidd arall. Nid yw'n eglur ynghylch ymreolaeth sefydliadol ychwaith. Rydym wedi teimlo pwysau a chryfder y teimlad ymhlith rhanddeiliaid ynghylch sicrhau y diogelir rhyddid academaidd i unigolion a sefydliadau, na ddylai'r Bil greu rhwystrau ac y dylai ei hyrwyddo a'i gefnogi'n frwd. Fel y clywsom, gall colli rhyddid o'r fath gael effeithiau gwirioneddol iawn y gellir eu teimlo y tu allan i'r sefydliad unigol neu gan yr academydd unigol. (Ond mae'r effeithiau hyn hefyd yn sylweddol ac ni ddylid eu tanbrisio.).

160. Cytunwn fod hyn yn faes lle y gellid cryfhau'r Bil. Hefyd, nodwn fod enghreifftiau mewn deddfwriaeth yn Lloegr, yr Alban a Gweriniaeth Iwerddon sy'n ceisio diogelu rhyddid academaidd a/neu ymreolaeth sefydliadol. Felly, rydym yn gwneud nifer o argymhellion mewn perthynas â'r maes hwn.

161. Mae ymreolaeth sefydliadol yn hanfodol, ond mae hynny'n wir ar gyfer rhyddid academaidd unigol hefyd, a bu achosion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, pan nad yw hyn bob amser wedi'i ddiogelu.

Argymhelliad 12. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ychwanegu dyletswydd gyffredinol i ddiogelu ymreolaeth sefydliadol darparwyr addysg drydyddol.

Argymhelliad 13. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ehangu rhyddid academaidd y tu hwnt i ddarpariaeth addysg uwch i gynnwys gwaith ymchwil ac arloesi,

ac, er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol yn briodol, ehangu darpariaeth ym mhob lleoliad addysg drydyddol arall.

Argymhelliad 14. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod rhyddid academiaidd yn cwmpasu academyddion unigol, o ran eu haddysgu a'u gwaith ymchwil.

Hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg

162. Mae wedi bod yn amlwg o randdeiliaid bod y defnydd o'r gair "rhesymol" yn y Bil yn groes i uchelgais Llywodraeth Cymru, sef miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Rydym eisoes wedi gweld yr hyn y gall darpariaeth addysg cyn-16 ei wneud i annog a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a magu hyder wrth ei defnyddio. Mae gan y sector addysg ôl-16 rôl hanfodol hefyd, ac mae'n werth nodi ei fod yn dod o waelodlin darpariaeth is na'r sector cyn-16. Nodwn y sylwadau a wnaeth y Gweinidog am ei uchelgeisiau ar gyfer ehangu addysg drydyddol Gymraeg ôl-16, a sut y bydd mecanweithiau eraill, megis y blaenoriaethau strategol, yn helpu i sicrhau y bydd rôl y Comisiwn yn mynd y tu hwnt i ateb galw rhesymol, ac y bydd yn ceisio creu galw. Fodd bynnag, os mai dyma fwriad polisi datganedig y Llywodraeth, nid ydym yn deall pam na ellir cryfhau geiriad y ddyletswydd strategol i sicrhau bod hyn y tu hwnt i amheuaeth. Bydd y Comisiwn â rôl hanfodol wrth helpu i gyflawni Cymraeg 2050, ac mae angen cryfhau'r Bil i bwysleisio'r rôl bwysig honno. Bydd hyn yn helpu i rymuso'r Comisiwn i gael rôl allweddol yn y gwaith o ehangu darpariaeth Gymraeg yn y sector addysg ôl-16.

Argymhelliad 15. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gryfhau'r ddyletswydd ar y Comisiwn i hyrwyddo addysg drydyddol Gymraeg i adlewyrchu uchelgais Cymraeg 2050 a rôl bwysig y Comisiwn wrth helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr. Mae'n rhaid i'r ddyletswydd ar y Comisiwn fod yn gryfach a mynd ymhellach nag "ateb galw rhesymol".

163. Mae gennym yr un pryderon ag UCAC nad yw'r ddyletswydd strategol hon yn cyfeirio at waith ymchwil a'i bod yn canolbwyntio ar addysg yn unig. Yn unol ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, credwn y dylid diwygio'r ddyletswydd strategol i sicrhau bod y ddyletswydd i hybu'r Gymraeg hefyd yn cwmpasu gwaith ymchwil yn y sector addysg drydyddol.

Argymhelliad 16. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 fel bod y ddyletswydd strategol i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei hehangu i gynnwys hyrwyddo gwaith ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y berthynas rhwng y Comisiwn a'r Coleg

164. Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd y Coleg y tu allan i gylch gwaith y Comisiwn. Nodwn y sylwadau a wnaeth y Coleg ar bwysigrwydd sicrhau perthynas effeithiol rhwng y Comisiwn a'r Coleg ac eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau.

Argymhelliad 17. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i nodi sut y bydd y Comisiwn yn gweithio ar y cyd ac yn strategol â'r Coleg Cymraeg ar gynllunio a chyflwyno darpariaeth Gymraeg, er mwyn osgoi posibilrwydd dyblygu.

Dyletswydd llais y dysgwr

165. Mae'r Gweinidog wedi bod yn glir iawn ei fod am sicrhau sector sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Rydym yn cydymdeimlo â'r galwadau a wnaeth UCM Cymru mai ffordd bwysig o ddangos ymrwymiad i hyn yw ei gynnwys fel un o ddyletswyddau strategol y Comisiwn. Byddai hyn yn cyd-fynd â bwriadau polisi'r Llywodraeth, a byddai'n arddangosiad clir bod llais y dysgwr wrth wraidd system reoleiddio newydd y sector ôl-16. Yn unol â'r ddyletswydd hon, byddem yn rhagweld y bydd yn rhaid i sefydliadau unigol ddangos i'r Comisiwn sut y maent yn cefnogi ac yn ymgorffori llais y dysgwr. Ceir rhywfaint o waith ymgysylltu rhagorol â dysgwyr yn y sector eisoes, ond y nod nawr yw sicrhau mai dyma'r norm ar draws pob math o ddarpariaeth ac i bob dysgwr.

Argymhelliad 18. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ychwanegu dyletswydd strategol ar y Comisiwn i hyrwyddo llais y dysgwr.

Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol

166. Nodwn gryfder barn y rhanddeiliaid a alwodd i ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol gael ei hychwanegu at y Bil. Roedd yn amlwg y byddai ychwanegu'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn helpu i leddfu pryderon y rhanddeiliaid hyn mewn perthynas ag agweddau eraill ar y Bil, megis diogelu rhyddid academiaidd a lefel cynrychiolaeth staff ar Fwrdd y Comisiwn. Hefyd, clywsom am bryderon ynghylch trefniadau llywodraethu democrataidd mewn sefydliadau (gweler paragraff 234) ac y gallai dyletswydd o'r fath hefyd fod â rhan wrth sicrhau bod sefydliadau'n dangos bod ganddynt drefniadau llywodraethu democrataidd. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn credu ei fod yn ddatganiad pwysig o fwriad. Cytunwn, ac rydym o'r farn y byddai dyletswydd o'r fath yn arwain at Gomisiwn gwell a deddfwriaeth well. Hefyd, credwn y bydd yn helpu i leddfu rhai o'r pryderon y mae rhanddeiliaid wedi'u codi ynghylch cyrhaeddiad posibl rhai o'r pwerau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cadw. Credwn y bydd cynnwys dyletswydd o'r fath yn helpu i ddiogelu ymreolaeth y sector ac felly'n cryfhau'r sector.

Argymhelliad 19. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ychwanegu dyletswydd strategol partneriaeth gymdeithasol ar y Comisiwn.

Egwyddor hyd braich/Annibyniaeth y Comisiwn

167. Nodwn y teimladau cryf iawn o bob rhan o'r sector ôl-16 ynghylch y pwerau penodol sydd gan Weinidogion Cymru i allu newid cynllun strategol y Comisiwn yn unochrog. Mae'r Gweinidog wedi cyfeirio at y pwerau hyn fel "*backstop*" ac wedi cyfeirio at "amgylchiadau cyfyng iawn" lle y byddai'r pwerau hyn yn debygol o gael eu defnyddio. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog nad yw'r pwerau hyn yn debygol o gael eu defnyddio, ond credwn y dylid cryfhau'r Bil i sicrhau mai dim ond os metha popeth arall y mae'r pwerau hyn i'w defnyddio ac na ellir eu camddefnyddio.

168. Bydd gan y Comisiwn gyllideb sy'n ail i rai Byrddau Iechyd yn unig a rôl bwysig wrth lywio dyfodol Cymru, felly mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd rhan wrth bennu'r cyfeiriad strategol. Rydym wedi clywed yn glir gan y Gweinidog bod angen llwybr clir rhwng y Llywodraeth a'r Comisiwn. Mae rhanddeiliaid hefyd yn derbyn hyn. Rydym yn cytuno. Rydym hefyd yn deall bod digwyddiadau diweddar, megis y pandemig, wedi dangos bod angen hyblygrwydd weithiau i'r Llywodraeth ymateb i argyfyngau a sefyllfaoedd sy'n datblygu. Ond mae'n rhaid taro cydbwysedd ac, fel y mae ar hyn o bryd, nid ydym yn credu bod y cydbwysedd yn iawn.

169. Nodwn sylwadau FfHCC a gydnabu y gallai'r Bil ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer perthynas hyd braich effeithiol. Fodd bynnag, bydd graddau'r pellter yn deillio o sut y mae Llywodraeth Cymru yn dewis defnyddio, ai peidio, y pwerau a ddarperir iddi yn y Bil (gweler paragraff 140).

170. Felly, rydym yn galw i'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn sicrhau bod llwybr clir rhwng y Llywodraeth a'r Comisiwn heb niweidio ymreolaeth y Comisiwn i wneud y gwaith a roddir iddo. Bydd y gwelliannau rydym yn eu hawgrymu yn dal i gadw'r berthynas hyd braich ac yn sicrhau y caiff y cydbwysedd iawn ei daro.

171. Mewn perthynas ag adran 13, rydym yn deall pam y gall fod ar Weinidogion angen y pŵer i newid y cynllun, dan amgylchiadau eithriadol, ond hoffem i ragor o fesurau diogelu gael eu rhoi ar waith, er mwyn sicrhau cydbwysedd o blaid annibyniaeth y Comisiwn. Ni fyddai hyn yn dileu hawl Gweinidogion Cymru i wneud y newidiadau hyn, ond byddai'n sicrhau y caiff ei wneud mewn modd ymgynghorol.

Argymhelliad 20. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddiwygio adran 13 o'r Bil er mwyn sicrhau na ellir newid cynllun strategol y Comisiwn heb gytundeb y Comisiwn.

172. O ran gallu Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddydau cyffredinol heb waith craffu gan y Senedd, rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y dylid diwygio'r Bil i'w gysoni â'r prosesau presennol ac i'r Senedd gael rôl i graffu arno. Yn ogystal â pharchu rôl y Senedd, bydd yn darparu mesur diogelu arall mewn perthynas â phryderon rhai rhanddeiliaid ynghylch graddau posibl cyrhaeddiad pwerau gweinidogol Cymru. Byddai hyn yn sicrhau y caiff ei wneud mewn modd ymgynghorol. Bydd y gwelliannau rydym yn eu hawgrymu yn cadw'r berthynas hyd braich ac yn sicrhau y caiff y cydbwysedd iawn ei daro.

Argymhelliad 21. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddiwygio adran 19 o'r Bil i sicrhau bod cyfarwyddydau cyffredinol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn cael eu gwneud drwy Orchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

5. Rhan 2: Cofrestru a Rheoleiddio Darparwyr Addysg Drydyddol

Mae Rhan 2 yn nodi'r fframwaith cofrestru a rheoleiddio ar gyfer y sector addysg drydyddol. Er ein bod yn croesawu'r darpariaethau hyn, rydym yn galw am rai newidiadau.

173. Mae Rhan 2 yn ymwneud â chofrestru a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol. Mae'r Rhan yn ymdrin â rheoleiddio ar gyfer darparwyr cofrestredig ac anghofrestredig. Fe'i rhennir yn bedair pennod.

- Mae Pennod 1 yn ymwneud â chofrestru, gan gynnwys y gofrestr; y weithdrefn gofrestru; amodau cofrestru; monitro a gorfodi; datgofrestru; a datganiadau terfyn ffioedd;
- Mae Pennod 2 yn ymdrin â sicrhau ansawdd a gwella ansawdd ar gyfer darparwyr addysg drydyddol a ariennir yn gyhoeddus (darparwyr cofrestredig ac anghofrestredig);
- Mae Pennod 3 yn ymdrin â phwerau i ymyrryd mewn sefydliadau addysg bellach; a'r gweithdrefnau ar gyfer arfer y pwerau gorfodi a amlinellir ym Mhennod 2; ac
- Mae Pennod 4 yn gwneud darpariaeth gyffredinol mewn perthynas â Rhan 2.

174. Yn y Rhan hon o'r Bil, darperir ar gyfer pwerau rheoleiddio a pholisi'r Comisiwn ar draws y sector, a hynny drwy:

- Delerau ac amodau sydd ynghlwm wrth gyllid gan y Comisiwn; a
- Chreu cofrestr o ddarparwyr sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig fodloni amodau cymwys ar gyfer y categori y maent wedi'u cofrestru oddi tano, ac unrhyw amodau penodol y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn briodol i ddarparwr unigol.

175. Mater gwirfoddol yw cofrestru, a gall darparwyr ddewis aros y tu allan i'r system reoleiddio a sefydlir gan y Bil (ond mae'n bosibl bod gan y Comisiwn bwerau mewn perthynas ag arolygu a sicrhau ansawdd ar gyfer darparwyr nad ydynt wedi'u cofrestru yng Nghymru). Fodd bynnag,

mae bod yn rhan o'r system reoleiddio yn debygol o arwain at fuddion a mynediad at gyllid, gan roi cymhelliant i sefydliadau wneud cais. Drwy beidio â bod yn gofrestredig, efallai na fydd darparwr yn gallu cael mynediad at rywfaent o gyllid y Comisiwn, neu unrhyw gyllid o gwbl gan y Comisiwn, neu efallai na fydd myfyrwyr y darparwr yn gallu cael mynediad at yr ystod lawn o gymorth ariannol statudol i fyfyrwyr.

Beth mae'r darpariaethau yn Rhan 2 yn ei wneud

Pennod 1: Cofrestru darparwyr addysg drydyddol

176. Mae adran 23 yn sefydlu'r gofrestr. Rhaid i'r Comisiwn gadw cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol, a rhaid iddo gofnodi darparwr ar y gofrestr yn y categori y mae'r darparwr yn gofyn amdano os yw'r darparwr yn bodloni'r meini prawf a nodir yn adran 23(4). Bydd gwahanol gategorïau cofrestru, a fydd yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

177. Mae adran 24 yn nodi'r weithdrefn gofrestru y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei dilyn os yw'n bwriadu gwrthod cais cofrestru neu pan fo'r Comisiwn yn bwriadu gwrthod cais gan ddarparwr cofrestredig i newid categorïau.

178. Mae adran 25 yn nodi'r amodau cofrestru cychwynnol, y mae'n rhaid i ddarparwr eu bodloni er mwyn cael ei gynnwys ar y gofrestr. Mae'r rhain yn ymwneud ag: ansawdd addysg; trefniadau llywodraethu a rheolaeth; a chynaliadwyedd ariannol y darparwr. Mae hefyd yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i greu rhagor o amodau cofrestru cychwynnol.

179. Mae adran 26 yn nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn bennu a chyhoeddi amodau cofrestru parhaus cyffredinol y mae'n rhaid i ddarparwyr eu bodloni os ydynt am gadw eu cofrestriad. Mae gan y Comisiwn y pŵer i osod gwahanol amodau ar gyfer gwahanol gategorïau cofrestru.

180. Mae adran 27 yn nodi y gall y Comisiwn osod amodau parhaus ar ddarparwr unigol penodol yn y gofrestr, os oes materion penodol y mae'n ofynnol i'r darparwr roi sylw iddynt. Gellir amrywio neu ddileu'r amodau hyn.

181. Mae adran 28 yn gosod gofyniad ar y Comisiwn i sicrhau bod ei amodau cofrestru parhaus a'r canllawiau cysylltiedig yn gymesur â'r risgiau a berir.

182. Mae adran 29 yn nodi'r amodau parhaus y mae'n rhaid i ddarparwyr cofrestredig eu bodloni. Mae'n rhaid iddynt fod yn gymwys i bob darparwr ar draws pob categori ac ni ellir datgymhwyso'r un ohonynt. Mae wyth amod wedi'u nodi ar wyneb y Bil, sy'n ymwneud ag

ansawdd addysg, cynaliadwyedd ariannol ac amodau sy'n ymwneud â gofynion i gyrff llywodraethu hysbysu'r Comisiwn am ddigwyddiadau penodol.

183. Mae adran 30 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod pob darparwr sydd wedi'i gofrestru mewn categori a bennir gan Weinidogion Cymru (o dan adran 25) yn ddarostyngedig i amod terfyn ffioedd. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn disgrifio amod terfyn ffioedd fel un sy'n ei gwneud yn ofynnol "i'r darparwr feddu ar ddatganiad terfyn ffioedd cymeradwy a sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn fwy na'r terfyn ffioedd cymwys."¹⁹⁹ Ceir rhagor o fanylion am y datganiadau terfyn ffioedd yn adrannau 44-46. Nid yw'r termau allweddol yn adran 30 megis y "categori terfyn ffioedd" wedi'u diffinio ar wyneb y Bil, a byddant yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Yn ymarferol, bydd y darpariaethau hyn yn golygu na fydd sefydliadau y mae'n rhaid eu cofrestru o dan y categori terfyn ffioedd yn gallu codi ffioedd dysgu sy'n uwch na'r uchafswm a bennir mewn rheoliadau. (Ar hyn o bryd, yr uchafswm yw £9,000 y flwyddyn yng Nghymru.).

184. Mae adran 31 yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu'r categorïau cofrestru y mae'n rhaid i amodau cofrestru parhaus mandadol ar gyfle cyfartal fod yn gymwys iddynt. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod unrhyw ddarparwr sydd wedi'i gofrestru o dan gategori sy'n cynnwys yr amod hwn yn ddarostyngedig i amodau sy'n gosod gofyniad i gyflawni canlyniadau mesuradwy yn erbyn sawl nod fel y'u nodir ar wyneb y Bil:

- I gynyddu cyfranogiad mewn addysg drydyddol gan grwpiau a dangynrychiolir;
- I gadw dysgwyr o'r un grŵp;
- I leihau bylchau cyrhaeddiad; ac
- I gefnogi dysgwyr a dangynrychiolir wrth orffen eu cyrsiau.

185. Mae adran 32 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru bennu amodau cofrestru mandadol parhaus newydd. Mae adran 33 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi canllawiau ar amodau cofrestru parhaus.

186. Mae adrannau 34-36 yn ymdrin â rôl y Comisiwn o ran sicrhau cydymffurfedd ag amodau cofrestru. Mae adran 34 yn pennu bod yn rhaid i'r Comisiwn fonitro cydymffurfedd darparwr cofrestredig ag amodau cofrestru. Mae adran 35 yn darparu y caiff y Comisiwn gynnig cyngor a chanllawiau ar gydymffurfriad. Mae adran 36 yn darparu y gall y Comisiwn gynnal adolygiadau

¹⁹⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), Nodiadau Esboniadol, Paragraff 99, 1 Tachwedd 2020

ar unrhyw faterion y mae'n ystyried eu bod yn berthnasol i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus. Gall yr adolygiadau hyn gael eu cynnal gan gorff priodol arall (er enghraifft Estyn).

187. Mae adrannau 37-38 yn darparu ar gyfer camau y gall y Comisiwn eu cymryd mewn perthynas â methiant darparwr cofrestredig i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus. O dan adran 37, caiff y Comisiwn ddyroddi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu (yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau a nodir yn adrannau 73-76) i gydymffurfio ag amod os yw'n credu bod y darparwr wedi methu â chydymffurfio, neu os yw'n debygol o wneud hynny. Mae adran 38 yn nodi y caiff y Comisiwn ddyroddi canllawiau ynghylch sut y mae'n rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â chyfarwyddydau a ddyroddir o dan adran 37.

188. Mae adrannau 39-42 yn ymdrin â datgofrestru. O dan adran 39, rhaid i'r Comisiwn ddatgofrestru darparwr mewn rhai amgylchiadau, a gall Gweinidogion Cymru ychwanegu amgylchiadau ychwanegol drwy reoliadau. Gall y Comisiwn hefyd ddatgofrestru darparwr os yw darparwr wedi torri un o'i amodau cofrestru parhaus, a bod y Comisiwn eisoes wedi dyroddi cyfarwyddyd i'r darparwr mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri amod cofrestru; neu os yw'r achos o dorri amod mor sylweddol nes bod y Comisiwn o'r farn y byddai defnyddio'r pwerau rheoleiddio o dan adran 37 yn annigonol.

189. Mae adran 40 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer datgofrestru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hysbysu corff llywodraethu sefydliad ei fod yn bwriadu datgofrestru'r sefydliad a rhoi o leiaf 28 diwrnod iddo gyflwyno sylwadau. Mae adrannau 41-42 yn ymdrin â datgofrestru'n wirfoddol. Mae adran 41 yn galluogi darparwyr cofrestredig i wneud cais i gael eu tynnu oddi ar y gofrestr neu gategori o'r gofrestr neu roi cydsyniad i'r Comisiwn dynnu'r darparwr oddi ar naill ai'r gofrestr neu gategori o'r gofrestr. Mae adran 42 yn caniatáu i'r Comisiwn gofrestru darparwr sydd wedi'i ddileu o gategori mewn categori arall os yw'r corff llywodraethu yn cydsynio ac os yw amodau eraill yn cael eu bodloni.

190. Mae adran 43 yn caniatáu i ddarparwyr ofyn am adolygiad o benderfyniadau arwyddocaol sy'n ymwneud â'u cofrestriad.

191. Mae adrannau 44-46 yn nodi'r ddarpariaeth ynghylch datganiadau terfyn ffioedd (a gyflwynwyd gyntaf yn adran 30). Mae adran 44 yn nodi beth yw datganiad terfyn ffioedd a'r hyn y mae'n rhaid iddo ei gynnwys. Mae adran 45 yn nodi y caiff corff llywodraethu darparwr addysg drydyddol wneud cais i'r Comisiwn gymeradwyo datganiad terfyn ffioedd. Mae adran 46 yn nodi bod rhaid i ddarparwr sydd â datganiad terfyn ffioedd cymeradwy gyhoeddi'r datganiad ynghyd ag unrhyw amrywiad ohono neu unrhyw ddatganiad yn ei le.

192. Mae adran 47 yn ymwneud â dilysrwydd contractau, pan fo disgwyl i fyfyrwr dalu ffioedd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys, yna ni fydd modd i'r darparwr adennill y ffi uwchlaw'r terfyn, ond bydd yn dal i fod yn rhwym wrth weddill y contract, gan gynnwys ei ddyletswydd i ddarparu addysg i'r myfyrwr.

Pennod 2: Sicrhau ansawdd a gwella ansawdd

193. Mae'r Bennod hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer sicrhau ansawdd addysg drydyddol a ariennir yn gyhoeddus, boed yn gofrestredig neu'n anghofrestredig, a hynny drwy fonitro, asesu ac arolygu.

194. Mae adran 48 yn rhoi pwerau i'r Comisiwn lunio a chyhoeddi un neu ragor o fframweithiau sicrhau ansawdd. Fframwaith lefel uchel fyddai fframwaith o'r fath, a byddai'n nodi materion allweddol megis meini prawf ar gyfer asesu darpariaeth addysg drydyddol, rolau a chyfrifoldebau a'r prosesau ar gyfer cynnal gwaith o'r fath. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â darparwyr addysg drydyddol cofrestredig, Estyn ac unrhyw randdeiliaid eraill y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn addas. Rhaid i Estyn a'r corff ansawdd dynodedig (gweler adran 54) roi sylw i'r fframwaith.

195. Mae adran 49 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i fonitro ac i hybu gwelliant yn ansawdd addysg a hyfforddiant ar draws addysg drydyddol gofrestredig ac a gyllidir gan y Comisiwn.

196. Mae adran 50 yn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn ddyroddi cyngor a chanllawiau i unrhyw ddarparwr cofrestredig neu ddarparwr a ariennir i gynorthwyo gwella ansawdd.

197. Mae adran 51 yn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn gynnal adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol a hyfforddiant. Gallant drefnu i'r adolygiadau hyn gael eu cynnal ar ran y Comisiwn.

Asesu ansawdd mewn addysg uwch

198. Mae adran 52 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn asesu, neu wneud trefniadau i asesu, ansawdd addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr cofrestredig a chan y darparwyr hynny sy'n cynnig darpariaeth ar ran darparwyr cofrestredig. Caiff y Comisiwn hefyd gynnal asesiadau ansawdd neu wneud trefniadau i'r perwyl hwnnw ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch a ddarperir yng Nghymru gan unrhyw ddarparwr addysg drydyddol. Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi adroddiadau ar bob asesiad. Mae'r adran hon yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru bennu cyfnodau asesu ac amserlen cyhoeddi adroddiadau.

199. Mae adran 53 yn nodi bod yn rhaid i'r darparwr cofrestredig, yn dilyn asesiad ansawdd ac ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer ymateb i'r adolygiad. Rhaid rhannu'r cynllun gweithredu hwn â'r Comisiwn a'r corff ansawdd dynodedig, a rhaid ei gyhoeddi.

200. Mae adran 54 yn cyflwyno Atodlen 3. Mae Atodlen 3 yn ymdrin â materion yn ymwneud â dynodi corff i gynnal asesiad ansawdd ar ran y Comisiwn, gan gynnwys trefniadau i ddynodi corff o'r fath, goruchwyliaeth o'r corff gan y Comisiwn a'r ddarpariaeth i'r corff dynodedig godi ffioedd. Mae adran 54 yn nodi na fydd yn ddisgwyliedig i'r Comisiwn fel arfer gyflawni'r swyddogaeth asesu os yw wedi dynodi corff i gynnal yr asesiadau hyn ar ei ran, ond bydd yn cadw'r pŵer i wneud hynny .

Arolygu addysg bellach neu hyfforddiant etc.

201. Mae adran 55 yn nodi'r meysydd addysg a hyfforddiant y mae'n rhaid i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru eu harolygu. Mae staff y Prif Arolygydd a'r arolygwyr yn rhan o'r corff o'r enw Estyn. Rydym yn cyfeirio at Estyn drwy'r adroddiad hwn yn hytrach na'r Prif Arolygydd. Addysg bellach, chweched dosbarth a phrentisiaethau yw'r meysydd darpariaeth a gwmpesir gan Estyn.

202. Mae adran 56 yn rhoi'r pŵer i Estyn arolygu ac adrodd ar unrhyw addysg a hyfforddiant a nodir yn adran 55. Rhaid i Estyn hefyd gyhoeddi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau o'r fath. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi'r pŵer i Estyn arolygu ac adrodd ar unrhyw ddarpariaeth nad yw wedi'i rhestru yn adran 55 ond sy'n cael ei chyllido gan y Comisiwn os yw'r darparwr yn gofyn am arolygiad gan yr arolygydd.

203. Mae adran 57 yn gosod dyletswydd ar Estyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn am arolygiadau ac adroddiadau a gynhelir o dan adran 55. Rhaid i Estyn hefyd roi cyngor i'r Comisiwn ar faterion sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant, arolygu darpariaeth ac adrodd ar unrhyw arolygiadau o'r fath.

204. Mae adran 58 yn gosod dyletswydd ar Estyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Weinidogion Cymru am arolygiadau ac adroddiadau a gynhelir o dan adran 55. Rhaid i Estyn hefyd roi cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant, arolygu darpariaeth ac adrodd ar unrhyw arolygiadau o'r fath.

205. Mae adran 59 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau eraill i Estyn mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant a restrir yn adran 55.

206. Mae adran 60 yn nodi bod yn rhaid i ddarparwyr ymateb i arolygiad, a chyhoeddi'r cynllun gweithredu. Mae cydymffurfio â'r ddyletswydd hon yn un o ofynion telerau ac amodau cyllido naill ai'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru.

207. Mae adran 61 yn gosod gofyniad ar Estyn i gynnal arolygiadau ardal os bydd y Comisiwn yn gofyn iddo wneud hynny.

208. Mae adran 62 yn rhoi pwerau mynediad a phwerau arolygu i Estyn. Mae'r adran hon hefyd yn darparu iddi barhau i fod yn drosedd i rwystro Estyn yn fwriadol.

209. Mae adran 63 yn nodi y caiff y Comisiwn gyfarwyddo Estyn i gynnal arolygon neu astudiaethau. Gall Estyn hefyd wneud gwaith o'r fath heb unrhyw gyfarwyddyd gan y Comisiwn.

210. Mae adran 64 yn nodi bod yn rhaid i adroddiad blynyddol Estyn gynnwys manylion ei waith o dan y Bennod hon o'r Bil.

211. Mae adran 65 yn nodi bod yn rhaid i Estyn, yn ei gynllun blynyddol ynghylch cyllid a gwariant y mae'n meddwl ei fod yn angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswyddau, gynnwys gwybodaeth am sut y bydd Estyn yn rheoli'r cyllid gan y Comisiwn.

212. Mae adran 66 yn nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn ddarparu unrhyw gyllid i Estyn y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol i Estyn allu cyflawni ei waith mewn perthynas â'r addysg drydyddol a gyllidir neu a sicrhewr gan y Comisiwn. Ni fydd Gweinidogion Cymru bellach yn gyfrifol am ddarparu cyllid ar gyfer gwaith Estyn a wneir o dan y Bennod hon. Rhaid i Estyn gyflwyno'r cynllun i'r Comisiwn (a Gweinidogion Cymru) i'w gymeradwyo. Gall y Comisiwn fynnu bod Estyn yn gwneud newidiadau i'r cynllun.

Pennod 3: Darpariaethau gorfodi a gweithdrefnol pellach

Ymyrryd yn ymddygiad sefydliadau addysg bellach

213. Mae adrannau 67 a 68 yn disodli'r darpariaethau presennol yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 mewn perthynas â phwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn addysg bellach. Mae adran 67 yn nodi'r seiliau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i Weinidogion Cymru ymyrryd, ac mae adran 68 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd. Mae adran 68 yn nodi gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn arfer eu pwerau ymyrryd.

214. Mae adran 69 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i hysbysu Gweinidogion Cymru os ydynt yn credu bod y seiliau dros ymyrryd a nodir yn adran 67 wedi'u bodloni. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i farn y Comisiwn cyn penderfynu a ddylid arfer y pwerau ymyrryd.

215. Mae adran 70 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad ar sut y maent yn bwriadu arfer eu swyddogaethau ymyrryd ac adolygu'r datganiad yn barhaus. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phobl y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn cyhoeddi eu datganiad.

Mynediad at wybodaeth a chyfleusterau

216. Mae adran 71 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu darparwyr allanol gydweithredu â naill ai'r Comisiwn neu'r sawl sy'n arfer dyletswyddau ar ran y Comisiwn mewn perthynas â dyletswyddau'r Comisiwn i fonitro a gwella ansawdd fel y'u nodir yn adrannau 49, 51 a 55.

217. Mae adran 72 yn rhoi pwerau i'r Comisiwn awdurdodi person yn ysgrifenedig i fynd i mewn ac arolygu rhai darparwyr mewn perthynas â monitro ac adolygu cydymffurfedd ag amodau cofrestru (fel y nodir yn adrannau 34 a 36) neu mewn perthynas â monitro ansawdd (fel y nodir yn adrannau 49, 51 a 52).

Y weithdrefn rhybuddio ac adolygu

218. Mae adran 73 yn nodi pryd y bydd adrannau 74 i 76 yn gymwys. Byddant yn ymwneud â:

- Chyfarwyddydau mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus (adran 37).
- Gwrthod y datganiad terfyn ffioedd arfaethedig (adran 45);
- Gwrthod amrywiad arfaethedig i ddatganiad terfyn ffioedd neu ddatganiad arfaethedig arall yn ei le (adran 45);
- Cyfarwyddydau mewn perthynas â methiant i gydweithredu (adran 71).

219. Mae adran 74 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i ddyroddi hysbysiad rhybuddio cyn rhoi hysbysiad neu gyfarwyddyd i gorff llywodraethu. Fel rhan o'r ddyletswydd hon, rhaid i'r Comisiwn hefyd roi amser i'r corff llywodraethu gyflwyno sylwadau cyn cyhoeddi'r hysbysiad neu gyfarwyddyd.

220. Mae adran 75 yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei darparu i gorff llywodraethu wrth ddyroddi hysbysiad neu gyfarwyddyd o dan adran 73.

221. Mae adran 76 yn nodi bod gan gorff llywodraethu hawl i wneud cais am adolygiad o'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd gan yr adolygydd penderfyniadau. Mae adran 77 yn nodi bod yn

rhaid i Weinidogion Cymru benodi person neu banel i gynnal yr adolygiad a rhoi pwerau iddynt wneud rheoliadau ynghylch adolygiadau.

Dyletswyddau amrywiol

222. Mae adran 78 yn nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr cofrestredig a darparwyr addysg drydyddol penodol megis y darparwyr hynny nad ydynt wedi'u cofrestru ond sydd yn y sector addysg bellach ac a ariennir gan y Comisiwn. Rhaid i'r Comisiwn anfon adroddiad at Weinidogion Cymru ar ragolygon ariannol y darparwyr hyn bob blwyddyn.

223. Mae adran 79 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gyhoeddi datganiad yn nodi sut y bydd yn defnyddio ei bwerau ymyrryd.

Cyfarwyddydau

224. Mae adran 80 yn nodi bod rhaid i gorff llywodraethu darparwr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd gan naill ai'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru a ddyroddir o dan y rhan hon. Gellir gorfodi'r cyfarwyddydau drwy waharddeb.

Cofrestru a statws elusennol

225. Dywedodd CCAUC mai un o'r trafferthion mwyaf sylweddol gyda'r Bil oedd cadw'r peirianwaith deddfwriaethol sydd eisoes yn bodoli. Roedd CCAUC yn galw am fwy o waith i gysoni'r peirianwaith rheoleiddio er mwyn ymdrin â chymhlethdodau'r trefniadau a'r rhwystrau presennol. Heb newidiadau, dywedodd y byddai cyfle'n cael ei golli i sicrhau newid sylweddol yn y trefniadau.²⁰⁰ Dywedodd y sefydliad y bydd y gwahanol ofynion ar gyfer pob rhan o'r sector yn ei gwneud yn heriol i'r Comisiwn sefydlu sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol cydlynol. Roedd yn credu y byddai'n arwain at ddull sy'n canolbwyntio ar y darparwr, yn hytrach nag un sy'n cael ei arwain gan ddysgwyr.²⁰¹ Mae pa mor ragnodol yw'r Bil, a'r ffaith yr adlewyrchir y trefniadau presennol, yn golygu mai ychydig iawn o le sydd i'r Comisiwn ddatblygu dull mwy cydgysylltiedig. Roedd CCAUC yn pryderu y bydd yn arwain at ddatblygu seilos o fewn y Comisiwn, yn hytrach nag annog dull gweithredu cyson ar draws pob math o ddarpariaeth. Dywed fod system gyson yn lleihau gwrthdaro rhwng systemau ar wahân, a bod hynny'n llesol i'r dysgwyr. Roedd yn glir iawn nad oedd dull cysoni yn golygu sefydliadau unffurf, ond meddai:

²⁰⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 253-255

²⁰¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 313

*"[it] can support a range of provision and the current education system in Wales shows that. We have a diverse range of higher education providers, but they're funded and regulated within the same machinery."*²⁰²

226. Roedd CCAUC am weld newidiadau i'r Bil gan gynnwys gosod yr un disgwyliad sylfaenol ar gyfer pob darparwr. Mae hyn yn golygu y byddai pob darparwr yn dod o dan y peirianwaith rheoleiddio a nodir yn y Bil.²⁰³ Cytunodd Coleg Caerdydd a'r Fro y dylai'r gofrestr gynnwys pob darparwr.²⁰⁴

227. Gofynnodd CCAUC hefyd am fwy o eglurder ynghylch pam na fyddai'r sector cyfan yn ddarostyngedig i'r gofynion cyfle cyfartal a nodir yn adran 31. Awgrymodd fod y ffocws ar gynyddu lefelau cyfranogiad yn berthnasol i bob darparwr ac nid i sefydliadau addysg uwch yn unig.²⁰⁵

228. Roedd WonkHE yn galw i'r Comisiwn gael ei fonitro o ran cydymffurfedd â deddfwriaeth cydraddoldeb yn ogystal â gwirio'r metrigau yn unig.²⁰⁶ Roedd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru yn cefnogi adran 31 mewn egwyddor, ond roeddent yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith, pe bai'r amodau'n berthnasol i bob darparwr yn union yr un fath, ei bod yn ymddangos y byddai hyn yn ei gwneud hi'n anodd neu'n amhosibl gosod gofynion ystyrlon. Fodd bynnag, pe câi'r amodau eu teilwra, roedden nhw'n credu y byddai'n golygu y gellir gosod canlyniadau unigol yn hytrach na chytuno arnynt, ac y byddai hynny i bob pwrpas yn creu "cytundebau canlyniadau" heb fod angen cytuno arnynt.²⁰⁷

229. Yn gyffredinol, roedd Prifysgol Caerdydd yn pryderu bod posibilrwydd o greu baich ychwanegol sylweddol mewn perthynas â'r amodau cofrestru. Dywedodd y Brifysgol fod y trefniadau presennol wedi bod yn effeithiol iawn yng Nghymru. Roedd yn annog "cynnal y gofynion rheoleiddio ar lefel gymesur o faich ..." ²⁰⁸ Roedd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru yn rhannu'r farn hon, wrth iddynt ddweud y byddai'r gofrestr yn elwa o gael ei rhesymoli ymhellach er mwyn lleihau cymhlethdodau yn ogystal â'r risg y bydd nifer yr amodau yn cynyddu. Gwnaethant godi pryderon ynghylch diffyg gwahaniaeth ymarferol rhwng

²⁰² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 294-295

²⁰³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 305

²⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 33, Coleg Caerdydd a'r Fro

²⁰⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 315

²⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 02, Jim Dickinson, Golygydd Cyswllt WonkHE

²⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraffau 6.10-6.11

²⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 22, Prifysgol Caerdydd, paragraff 5.3

amodau cychwynnol ac amodau parhaus; yn ogystal â diffyg gwahaniaeth yn yr un modd rhwng amodau mandadol ac amodau nad ydynt yn fandadol.²⁰⁹

230. Dywedodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru fod cryn fanylder yn cael ei adael i reoliadau yn sgil y diffyg manylion ar wyneb y Bil. Roeddent yn galw am welliannau:

"including the power to impose ongoing registration conditions for specific, individual institutions and the need for the detail of the initial conditions to be subject to a duty to consult."

231. Dywedasant eu bod wedi disgwyl i ragor o fanylion am gofrestru fod naill ai yn y Bil neu mewn rheoliadau drafft cysylltiedig. Ânt ymlaen i ddweud bod y diffyg gwybodaeth hwn felly yn ei gwneud yn anodd asesu ymarferoldeb y cynigion.²¹⁰ Roeddent yn awyddus i fanylion yr amodau cychwynnol fod, o leiaf, yn ddarostyngedig i ddyletswydd i ymgynghori.²¹¹ Rydym yn trafod pwerau gwneud rheoliadau yn fanylach ym Mhennod 7.

232. Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru ei fod yn pryderu rywfaint am y dyletswyddau anghymesur o fewn y Bil, gyda dyletswyddau gwahanol yn cael eu gosod ar wahanol elfennau o'r sector. Roedd yr Undeb yn siarad am sut y gall addysg bellach yn aml deimlo fel "perthynas dlawd i addysg uwch", ac nid oedd wedi'i argyhoeddi bod y Bil yn ateb rhai o'r problemau hirsefydlog.²¹²

233. Galwodd UCM Cymru ar i'r amodau cofrestru gynnwys effeithiolrwydd strwythurau llais y dysgwyr a'r myfyrwyr. Roedd UCM Cymru o'r farn y byddai hyn yn golygu y byddai darparwyr wirioneddol yn rhoi sylw dyladwy i lais y myfyriwr ac y byddai'r Comisiwn yn gallu ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr wella eu strwythurau i glywed llais myfyrwyr os nad oeddent yn meddwl eu bod yn foddhaol.²¹³ Roedd hefyd am weld iechyd a lles dysgwyr yn cael eu diogelu fel amod cofrestru, gan ei nodi fel problem ddifrifol a sylweddol yn y sector.²¹⁴ Teimlai WonkHE fod ychwanegu llesiant dysgwyr fel amod cofrestru yn gwneud synnwyr yn ymarferol a thynnodd sylw at y ffaith bod darpariaeth gyfatebol yn cael ei defnyddio yn Awstralia. Awgrymodd WonkHE y gellid gwneud hyn drwy ychwanegu yn adran 29(i) amod yn ymwneud ag iechyd, lles

²⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraffau 6.4](#)

²¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraffau 6-6.2](#)

²¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraffau 6.7](#)

²¹² [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 405](#)

²¹³ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 397](#)

²¹⁴ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 416](#)

a diogelwch myfyrwyr sydd wedi cofrestru â'r darparwr, gan gynnwys materion yn ymwneud ag aflonyddu a chamymddwyn rhywiol ac iechyd meddwl.²¹⁵

234. Roedd Gweithgor Democratiaeth/Llywodraethu Pwyllgor Sector Addysg Uwch UCU Cymru²¹⁶ a'r UCU yn galw i lywodraethiant democrataidd gael ei ychwanegu fel amod cofrestru, gan sôn am sawl pryder ynghylch trefniadau llywodraethu prifysgolion yng Nghymru dros y 15 mlynedd diwethaf yng Nghymru, nad ydynt ond yn dod i'r amlwg pan fydd hi'n rhy hwyr. Roedd o'r farn y byddai hyn yn cyd-fynd â'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol disgwylidig a datblygiadau yn yr Alban.²¹⁷ Ar y llaw arall, awgrymodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru y gallai partneriaeth gymdeithasol fod yn amod cofrestru (neu'n amod ar gyfer cyllid grant).²¹⁸ Rydym yn trafod dyletswydd strategol partneriaeth gymdeithasol yn fanylach ym Mhennod 6.

235. Cododd CCAUC bryderon ynghylch y gofynion gwahanol a fydd yn cael eu gosod ar y darparwyr hynny sy'n cofrestru yn y categori amgen ar y gofrestr, yn hytrach na'r gofrestr graidd.²¹⁹ Yn benodol, roeddent yn pryderu na fyddai'n ofynnol i'r rhai yn y categori amgen gael statws elusennol ac y gallai hyn gynyddu'r risg y byddai mwy o ddarparwyr yn darparu addysg uwch yng Nghymru a chynyddu cystadleuaeth dila. Dywedodd CCAUC fod y newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 sy'n nodi bod yn rhaid i bob darparwr addysg uwch gael statws elusennol wedi bod yn gam cadarnhaol. Roedd y Cyngor Cyllido yn ymwybodol bod y Llywodraeth yn flaenorol wedi ceisio gwneud statws elusennol yn ofyniad wrth ddynodi cyrsiau penodol yng Nghymru, ac y dylid achub ar y cyfle yn y Bil hwn i gyflawni'r canlyniad polisi cadarnhaol" hwn.²²⁰ Roedd Prifysgol Caerdydd yn cytuno â hyn, gan ddweud y byddai gofyniad o'r fath yn ffordd bwysig o wirio a chydbwyso fel na cheir darparwyr preifat nad ydynt efallai'n ychwanegu gwerth at y sector.²²¹ Soniodd Colegau Cymru y gallai fod rhai cymhlethdodau mewn perthynas â chyfraith elusennau i'r colegau hynny sydd hefyd yn rhan o Grwpiau Addysg Uwch.²²²

²¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 02, Jim Dickinson, Golygydd Cyswllt WonkHE](#).

²¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig [TER 38, Gweithgor Democratiaeth/Llywodraethu Pwyllgor Sector Addysg Uwch UCU Cymru](#)

²¹⁷ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 417](#)

²¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 14, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru](#)

²¹⁹ Bydd darparwyr sydd wedi'u cofrestru ar y gofrestr amgen yn gymwys i gael cymorth ffioedd a chynhaliadaeth myfyrwyr ar y lefel ffioedd is (£6,165 y flwyddyn ar hyn o bryd), a bydd y rheini ar y Gofrestr Graidd yn gymwys i gael cymorth ffioedd a chynhaliadaeth myfyrwyr ar y lefel ffioedd uwch (£9,000 y flwyddyn ar hyn o bryd).

²²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 32, CCAUC, paragraff 2.27](#)

²²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 22, Prifysgol Caerdydd, paragraff 7.7](#)

²²² Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 31, Colegau Cymru](#)

236. Mewn perthynas ag adran 17(1), soniodd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr y gallai cwmpas yr hyn y gellid ei ystyried yn “anghydnaws” â statws elusennol sefydliad gael ei ddehongli mewn gwahanol ffyrdd. Roedd y Comisiwn yn galw am ddatblygu canllawiau pellach ar y pwynt hwn. Cododd bryderon hefyd ynghylch y diffiniad o ddogfen lywodraethu yn is-adran (2) gan awgrymu bod yr ystyr yn fwy cul na’r diffiniad o “ymddiriedolaethau” yn Neddf Elusennau 2011, ac y gallai defnyddio dogfennau llywodraethu yn hytrach nag ymddiriedolaethau yn anfwriadol fethu â chynnwys pob darparwyr addysg drydyddol. Trafododd hefyd a ddylai terminoleg offerynnau ac erthyglau llywodraethu yn adran 68(9) (mewn perthynas â phenodi aelod o gorff llywodraethu) gael ei hehangu.²²³

237. Cododd Prifysgol Caerdydd bryderon am adran 27, gan ddweud y gallai roi i’r Comisiwn “ryddid enfawr i bwerau annisgwyl ac anghymesur gael eu gorfodi ar sefydliadau yn ôl yr ewyllys”. Roedd hefyd yn pryderu y gallai arwain at y posibilrwydd o “drin gwahanol ddarparwyr yn annheg neu’n anghyfartal”.²²⁴ Roedd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru²²⁵, ynghyd â Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam yn rhannu’r pryderon hyn. Roedd Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn pryderu y gallai sefydliadau a allai gael eu hystyried yn rhai ar y cyrion gael eu trin yn wahanol wrth i amodau cofrestru parhaus penodol gael eu gosod arnynt.²²⁶ Credai pawb y dylid cymhwyso amodau o’r fath i gategorïau penodol o ddarparwyr yn unig, yn hytrach na darparwyr unigol.

238. Dywedodd Cyngor Deoniaid Iechyd Cymru fod yn rhaid i’r rheoliadau gofal iechyd presennol gan yr NMC a HCPC, sy’n gweithredu ledled y DU, gael blaenoriaeth dros y Comisiwn ar gyfer cyrsiau lle bo’r rheolyddion hyn yn rheoli mynediad at gofrestrau proffesiynol.²²⁷ Dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru y dylai gofynion rheoleiddiol osgoi dyblygu a chynnig sicrwydd y gallai rheoleiddwyr eraill y DU ddibynnu arno.²²⁸

239. Gofynnodd Grŵp Colegau NPTC am sicrwydd, mewn perthynas â’r amod cofrestru cynaliadwyedd ariannol (adran 25(1)(c)) na fydd sefydliadau sy’n gorfod gweithredu cynlluniau pensiwn (fel y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) yn cael eu cosbi am gofnodion cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod a’r diffygion ariannol posibl mewn cynlluniau sy’n ofynnol gan FRS102.

²²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 27, Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, paragraffau 12-15](#);

²²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 22, Prifysgol Caerdydd, paragraff 5.4](#)

²²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 6.6](#)

²²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 05, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, paragraff 10](#)

²²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 10, Cyngor Deoniaid Iechyd Cymru](#)

²²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 12, Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraff 2.7](#)

Dywedodd y Grŵp Colegau fod y rhain yn gynlluniau lle nad oes gan sefydliadau reolaeth ar benderfyniadau gweinyddol neu fuddsoddi.²²⁹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

240. Buom yn trafod â'r Gweinidog y gwahanol ddulliau rheoleiddio ar gyfer gwahanol rannau o'r sector ôl-16. Dywedodd y Gweinidog mai dim ond darparwyr addysg uwch fydd yn gorfod cofrestru gyda'r Comisiwn i ddechrau. Dywedodd mai'r rheswm dros beidio â chynnwys darparwyr addysg bellach o fewn y gofrestr oedd oherwydd bod y mecanwaith ariannu yn wahanol. Eglurodd y bydd y Comisiwn yn gallu gosod telerau ac amodau ynghlwm wrth gyllid ac y bydd y rhain yn cynnwys gofynion yn ymwneud â sicrwydd ariannol ac ansawdd. Gan hynny, dywedodd y gall y mecanwaith ar gyfer goruchwyliaeth reoleiddiol fod yn wahanol, er bod y cyd-destun polisi cyffredinol yr un fath.²³⁰ Aeth ymlaen i egluro bod y sail dros benderfynu ar y math o drefniadau rheoleiddio yn dibynnu ar brif ffynhonnell cyllid y darparwr.²³¹

241. Roedd y Gweinidog hefyd yn credu bod y Bil, mewn perthynas â chofrestru, am wrthsefyll heriau'r dyfodol ac meddai, pe bai strwythurau cyllido yn newid yn y dyfodol, bod y ffaith bod cofrestr i'w chael yn cynnig hyblygrwydd i ymateb i'r newid hwnnw. Roedd hefyd yn glir ei farn nad yw bod ar y rhestr yn dweud dim mewn gwirionedd am barch cydradd, ac na wahaniaethir ar sail darparwr. Yn hytrach, gwahaniaethir ar sail darpariaeth.²³²

242. Mewn gohebiaeth, cadarnhaodd y Gweinidog y bydd y rheoliadau a wneir o dan adran 25(3) yn cynnwys amod cofrestru cychwynnol ar gyfer darparwyr craidd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr fod yn elusen.²³³

243. Gofynnwyd i'r Gweinidog am y pwerau ymyrryd sydd ar gael i'r Comisiwn, gan ddweud yng nghyd-destun CCAUC fod y pwerau ymyrryd o dan Ddeddf 2015 yn anodd eu defnyddio'n ymarferol. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod y Bil hwn yn galluogi dull sy'n dilyn camau graddol. Dywedodd y Llywodraeth mai un o fanteision defnyddio'r gofrestr fel y prif fframwaith rheoleiddio yw bod hyn yn golygu y gall gwmpasu ystod llawer ehangach o faterion rheoleiddio, sef ansawdd, llywodraethiant, cyllid, cyfleoedd cyfartal ynghyd â chod ymgysylltu â dysgwyr. Aeth ymlaen i ddweud ei bod yn bosibl y daw amodau rheoleiddio neu amodau cofrestru eraill yn y dyfodol. Bydd y dull cam-wrth-gam yn golygu y gellir dyroddi cyngor yn gyntaf, ac yna gynnal adolygiad manylach, cyn cyhoeddi cyfarwyddydau. Wedi hynny, byddai'r

²²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 15, Grŵp Colegau NPTC.

²³⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 162.

²³¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 181.

²³² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 69.

²³³ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 4 Chwefror 2022, paragraff 5.4.

opsiwn niwclear fel petai, sef yr opsiwn olaf, o ddatgofrestru, a dywedodd y Llywodraeth na fyddai'r opsiwn hwn ond yn cael ei ddefnyddio fel y dewis olaf un, os o gwbl. Dywedodd fod hwn yn ddull mwy hyblyg na'r trefniadau presennol.²³⁴

Sicrhau Ansawdd

244. Roedd CCAUC yn siomedig bod y darpariaethau sicrhau ansawdd yn "cadw'r trefniadau cyfredol, gan golli cyfle i symleiddio'r trefniadau hynny a pharhau i drin gwahanol rannau o'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ar wahân". Roedd yn credu bod hyn yn peri risg i barch cydradd yn ogystal â chreu trafferthion o ran atebolrwydd a thanseilio gallu'r Comisiwn i gynnal ei oruchwyliaeth strategol.²³⁵ Roedd CCAUC yn credu ei fod yn ychwanegu mwy o gymhlethdod, mwy o waith ychwanegol a thensiynau posibl o ran gwahanol safbwyntiau. Roedd yn pryderu bod yna risg, gan fod y Bil yn benodol iawn mewn mannau, y gallai fod bylchau ac y byddai unrhyw bethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn cael eu gadael allan am byth. Yn ôl CCAUC, unwaith y bydd gennych chi ddeddfwriaeth, yr unig ffordd y gallwch chi ei newid yw ei newid trwy broses ddeddfu sylfaenol eto.²³⁶

245. Roedd Estyn yn anghytuno. Dywedodd fod:

*"... y darpariaethau yn y Bil yn adeiladu ar y cryfderau presennol mewn sicrhau ansawdd ymysg ein hunain, ac ar draws yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, ac yn adlewyrchu'r angen am ddulliau teilwredig ar draws y sector trydyddol. Mae cryfder mewn amrywiaeth ac mae'r dull yn adlewyrchu hynny. Nid yw cyson yr un fath ag unffurf."*²³⁷

246. Nododd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fod y trefniadau presennol yn gweithio'n effeithiol, ac roedd yn hyderus y byddent yn parhau i fod yn effeithiol.²³⁸

247. Er bod yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn credu y byddai'r cynigion yn caniatáu ar gyfer cydweithio pellach ar draws asiantaethau drwy'r un fframwaith hwnnw, roedd hefyd yn meddwl y byddai'n helpu i ddatblygu dull ac iaith gyffredin mewn perthynas ag ansawdd ar draws y sectorau, a hynny o fewn un sector, ac y dylai hynny wneud trefniadau pontio a chydweithio. rhwng sefydliadau a darparwyr yn llawer haws.²³⁹

²³⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 174-175

²³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32 CCAUC, paragraff D

²³⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 325-327

²³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 11 Estyn

²³⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 524

²³⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 318

248. Roedd Colegau Cymru yn cydnabod gwrthgyferbyniad llwyr i'r gwahanol ddulliau o sicrhau ansawdd rhwng addysg uwch a mathau eraill o ddarpariaeth yn y Bil. Fe wnaethon nhw awgrymu bod angen meddwl ymhellach am hyblygrwydd, gan egluro neu sicrhau bod lle i wahanol fathau o gymwysterau, gwahanol fathau o drefniadau arolygu priodol yn y dyfodol. Yn ôl Colegau Cymru, wrth fod yn rhy benodol yn y Bil, mae risg na chaniateir digon o le i'r hyn y gallai fod angen i'r Comisiwn ymateb iddo, neu ei ddatblygu yn y dyfodol.²⁴⁰ Aethant ymlaen i ddweud ei bod braidd yn flêr dychwelyd at hen ddiffiniadau lle nad yw ystyr darpariaethau yn gwbl glir ar hyn o bryd, a dywedodd fod colegau'n darparu cymwysterau lefel 4 a 5, sef addysg bellach yn ei hanfod, tra bod prifysgolion yn cynnal rhaglenni blwyddyn sero a lefelau sylfaen.²⁴¹

249. Croesawodd Grŵp Colegau NPTC ddarpariaethau'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a'r penderfyniad i fabwysiadu dull cyson o weithredu, ond roedd yn galw am fwy o gydraddoldeb rhwng prosesau sicrhau ansawdd addysg bellach, chweched dosbarth ysgolion ac addysg uwch.²⁴² Roedd Coleg Caerdydd a'r Fro o blaid cyflwyno un fframwaith sicrhau ansawdd cyffredinol ar gyfer y sector ôl-16 cyfan. Dywedodd na ddylai fod unrhyw wahaniaeth yn y ddarpariaeth arolygu rhwng addysg uwch ac addysg bellach, yn enwedig pan fo darparwyr yn cynnig y ddau fath o addysg.²⁴³

250. Roedd Addysg Oedolion Cymru yn cefnogi'r cynigion yn y Bil, ond dywedodd efallai yr hoffai'r Comisiwn dros amser ddwyn ynghyd y trefniadau arolygu ar gyfer yr holl ddarpariaeth ôl-16.²⁴⁴ Dywedodd UCM Cymru hefyd yr hoffai weld mwy o gydlyniant rhwng y sectorau.²⁴⁵

251. Nododd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch y gwahaniaeth yn y dull o ymdrin â ffioedd y gwaith o asesu ansawdd. Er bod yr Asiantaeth yn croesawu'r ffaith y byddai'r corff ansawdd dynodedig yn meddu ar yr opsiwn i godi ffioedd, galwodd am sicrhau ansawdd addysg uwch ac addysg bellach ar yr un sail. Nododd yr Asiantaeth nad yw Estyn yn codi ffi, a galwodd i sicrwydd ansawdd mewn addysg uwch gael ei ariannu'n uniongyrchol gan y Comisiwn. Roedd hefyd yn galw i'r corff ansawdd dynodedig gael ei ariannu'n ddigonol gan y Comisiwn i gynnal gweithgareddau gwella y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol, i gefnogi dyletswyddau strategol y Bil.²⁴⁶

²⁴⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 352

²⁴¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 254

²⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 15, Grŵp Colegau NPTC

²⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 33, Coleg Caerdydd a'r Fro

²⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 29, Addysg Oedolion Cymru, paragraff 11

²⁴⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 431

²⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 16, Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, paragraff 15

252. Cymharodd UCU Cymru y gwahaniaethau rhwng y darpariaethau sy'n ymwneud ag addysg uwch â'r darpariaethau sy'n cwmpasu gweddill y sector addysg drydyddol, gan ddweud bod sicrwydd ansawdd prifysgolion i bob pwrpas wedi'i gynnwys mewn tair adran, a bod gweddill y sector addysg drydyddol yn mynnu 11 adran. Roedd UCU Cymru yn credu y gallai hyn fod yn arwydd o anghydbwysedd sylweddol a allai olygu mai'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y chweched dosbarth (sef yr elfen leiaf o bell ffordd) sy'n gyrru'r trefniant ar gyfer gweddill y sector.²⁴⁷ Roedd gan Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru bryderon am rôl Estyn, ac roedd yn cwestiynu pam y byddai ganddo rôl o fewn y sector addysg drydyddol, gan ddweud os byddai mwy o gysondeb rheoleiddiol drwy'r Comisiwn, byddai rôl Estyn i'w weld yn broblematic.²⁴⁸

253. Wrth drafod y mater o beidio â chael cyfundrefn unigol i sicrhau ansawdd, dywedodd y Gweinidog fod y Bil yn amlinellu cyfrifoldebau yn ôl y math o ddarpariaeth, yn hytrach na fesul darparwr. Dywedodd hefyd fod goruchwyliaeth y Comisiwn dros y corff ansawdd dynodedig ac Estyn wrth wraidd y cyfan. Galwodd y dull yn un "esblygiadol" sy'n cydnabod y cryfderau presennol o fewn Estyn a'r Asiantaeth, ond sy'n caniatáu i'r Comisiwn gael darlun cydlynol o ansawdd ar draws y sector ni waeth pwy yw'r darparwr. Nododd y Gweinidog hefyd y byddai hyn yn golygu y bydd addysg uwch Cymru yn aros yn rhan o seilwaith sicrhau ansawdd y DU gyfan ond mewn ffordd sy'n galluogi mwy o gysondeb â blaenoriaethau Cymru, a chredai fod hyn yn taro'r cydbwysedd cywir.²⁴⁹

Addysg Uwch (Corff Ansawdd Dynodedig)

254. Croesawodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru y darpariaethau sicrwydd ansawdd, gan ddweud eu bod yn adlewyrchu y gydnabyddiaeth a roddir yn rhyngwladol o bwysigrwydd sicrwydd ansawdd mewn addysg uwch. Roeddent hefyd yn croesawu datganiadau'r Gweinidog (gweler paragraff 253) ynghylch rheoleiddio yn seiliedig ar y ddarpariaeth yn hytrach na'r darparwr.²⁵⁰

255. Galwodd CCAUC am ddileu adran 54 ac Atodlen 3. Er mwyn i'r sector a'r Comisiwn fod yn ystwyth wrth ymateb i'r ystod o alwadau sy'n wynebu'r sector a'r gymdeithas yn ehangach, dywedodd CCAUC fod yn rhaid i'r Comisiwn allu pennu trefniadau sicrhau ansawdd. Roedd y Cyngor Cyllido yn credu bod ychwanegu haen weithdrefnol anhyblyg i'r trefniadau hyn yn tanseilio ystwythder y Comisiwn. Er bod y darpariaethau hyn yn gymaradwy â'r rhai yn Lloegr, roedd CCAUC yn credu bod y cyd-destun yng Nghymru yn wahanol ac y bydd yn parhau felly

²⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 23, UCU Cymru](#)

²⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 14, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru](#)

²⁴⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 193-195](#)

²⁵⁰ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 225](#)

gyda'r Comisiwn, a chredai nad oedd yn ddymunol adlewyrchu'r darpariaethau hynny.²⁵¹ Roedd y Brifysgol Agored yn anghytuno ac yn croesawu'r ffaith bod y Bil yn gosod cyfrifoldeb ar y Comisiwn i ddynodi'r corff ansawdd.²⁵²

256. Galwodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch am fwy o eglurder yn y Bil ynghylch hyd cyfnod dynodi, a ph'un a fyddai gweithdrefn adnewyddu ai peidio. Roedd yn galw i unrhyw broses adnewyddu, neu reolau ar ddileu dynodiad gael eu cysylltu â'r cylch adolygu addysg uwch. Ar hyn o bryd mae pob sefydliad addysg uwch yn cael ei adolygu bob pump i chwe blynedd yn unol â'r safonau a chanllawiau sicrhau ansawdd. Dywedodd yr Asiantaeth na ddylai cyfnodau dynodi, neu newidiadau i ddynodiad ymyrryd â'r cylchoedd adolygu hyn.²⁵³

257. Dywedodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ei bod yn credu bod cyfle i'r corff ansawdd dynodedig weithio ar draws y sector addysg drydyddol i gynnal gwaith ymchwil a hwyluso digwyddiadau i wella ansawdd. Dywedodd yr Asiantaeth ei bod yn bwysig y bydd gan y corff y gallu i wneud hyn y tu hwnt i unrhyw ofynion sylfaenol. Galwodd hefyd i'r corff ansawdd dynodedig gael ei ddewis cyn gynted â phosibl, er mwyn galluogi'r corff i gynllunio ei waith adolygu a gwella ar gyfer y blynnyddoedd i ddod.²⁵⁴ Galwodd hefyd i gryfhau llais dysgwyr wrth ddatblygu'r fframweithiau gwella ansawdd.²⁵⁵

Trefniadau ar gyfer darpariaeth addysg uwch drawswladol/wedi'i dilysu

258. Soniodd CCAUC am ei bryderon nad yw'r trefniadau sicrhau ansawdd yn cynnwys goruchwyllo "darpariaeth wedi'i dilysu, ei breinio, neu ei chyflenwi'n uniongyrchol gan ddarparydd â phwerau dyfarnu yng Nghymru, ond a gyflenwir y tu allan i Gymru." Nododd y gall y ddarpariaeth beri'r risg fwyaf ac y gall "niweidio enw da" y sector cyfan yng Nghymru. Galwodd i'r Bil gael ei ddiwygio i sicrhau bod y Comisiwn yn goruchwyllo'r ddarpariaeth hon, yn yr un modd ag y mae'r Swyddfa Fyfyrrwyr yn goruchwyllo'r maes hwn.²⁵⁶ Aeth ymlaen i ddweud, fel arall, fod angen i'r holl drefniadau sicrhau ansawdd fod yn llai pendant gan roi mwy o hyblygrwydd i'r Comisiwn ymdrin â'r materion hyn.²⁵⁷

259. Cytunodd yr Asiantaeth Sicrhau Safonau fod hwn yn faes â chryn risg, ond bod y risg yn un ddeinamig a bod angen bod yn ymatebol, gan olygu ei bod yn bosibl na fydd yn eistedd yn

²⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32 CCAUC, paragraff 2.7

²⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12 Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraff 4.18

²⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 16, Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, paragraffau 19-20

²⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 16, Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, paragraffau 17-20

²⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 16, Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, paragraff 22

²⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32 CCAUC, paragraff 2.21

²⁵⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 331

dda ar wyneb y Bil. Gan hynny, argymhellodd y dylid bod yn bwylllog. Nododd yr Asiantaeth fod CCAUC wedi ariannu holl sefydliadau addysg uwch Cymru i gymryd rhan yng nghynllun gwirfoddol yr Asiantaeth o werthuso ansawdd a gwella darpariaeth drawswladol. Soniodd hefyd am ei bresenoldeb rhyngwladol cryf, sy'n ei alluogi i fwrw ymlaen â meysydd sy'n peri pryder.²⁵⁸

260. Dywedodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru eu bod yn credu y byddai'r trefniadau presennol ar gyfer darpariaeth drawswladol yn parhau, gyda'r Asiantaeth yn adolygu holl ddarpariaeth sefydliadau, ni waeth ble mae'n cael ei darparu.²⁵⁹

Trefniadau ar gyfer gradd-brentisiaethau

261. Galwodd nifer o randdeiliaid am eglurder ynghylch trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer gradd-brentisiaethau, gan gynnwys yr Asiantaeth Sicrhau Safonau.²⁶⁰ Dywedodd yr Asiantaeth nad oes unrhyw gyfeiriadau penodol at radd-brentisiaethau yn Nodiadau Esboniadol y Bil.²⁶¹ Galwodd Estyn hefyd am fwy o eglurder naill ai yn y Bil neu'r Memorandwm Esboniadol, a dywedodd y gellid diffinio cymwysterau galwedigaethol technegol yn well.²⁶²

262. Credai Estyn fod y Bil yn gadael y posibilrwydd i hyn gael ei wneud yn fwy eglur yn y dyfodol, a bod hyn yn briodol, a dywedodd y gellid gwneud hyn drwy'r pwerau gwneud rheoliadau o dan adran 55(1). Credai pe bai'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu dirprwyo i Estyn y byddai'n galluogi dull cydgysylltiedig o sicrhau ansawdd a gwella'r holl ddarpariaeth prentisiaethau dysgu sy'n seiliedig ar waith ar ba bynnag lefel. Dywedodd y gallai gydweithio â'r corff ansawdd dynodedig i sicrhau bod yr arbenigedd cywir yn cael ei ddefnyddio.²⁶³ Cyfeiriodd Estyn at ei brofiad o arolygu prentisiaethau uwch hyd at lefel 5, a bod eu cymheiriaid yn Lloegr yn arwain y gwaith o arolygu pob rhaglen brentisiaeth. Credai ei bod yn gwneud synnwyr defnyddio cryfderau dull Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a'u cyfuno.²⁶⁴

263. Cytunodd yr Asiantaeth ag Estyn, o ran yr angen am hyblygrwydd i ymateb i'r maes hwn sy'n datblygu'n gyflym, a bod cysylltiadau digon da yng Nghymru i wneud yn siŵr bod ymagwedd cydgysylltiedig a synhwyrol o ran prentisiaethau.²⁶⁵

²⁵⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 391-392

²⁵⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 227

²⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 16, Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, paragraff 26

²⁶¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 369

²⁶² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 374

²⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 11 Estyn

²⁶⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 367

²⁶⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 369

264. Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru y dylai gradd-brentisiaethau ddod o dan yr un mecanweithiau sicrhau ansawdd â lefelau eraill o brentisiaethau. Credai y byddai hyn yn gwneud gradd-brentisiaethau yn llawer mwy cydweithredol ac yn darparu llwybr cliriach drwy'r broses.²⁶⁶

Addysg bellach a darpariaeth drydyddol (Estyn)

265. Nid oedd Estyn yn rhannu pryderon CCAUC ynghylch lefel y manylder yn y Bil i'r graddau y mae'n ymwneud â gwaith Estyn (gweler paragraff 244). O ran y berthynas rhwng Estyn a'r Comisiwn, cydnabu y byddai "angen cyfathrebu a chyswllt cryf yn y berthynas â'r Comisiwn, ond nid yw hyn yn destun pryder". Cyfeiriodd at eu cysylltiadau presennol â Llywodraeth Cymru, CCAUC a'r Asiantaeth Sicrhau Safonau a'u bod eisoes wedi dechrau datblygu dulliau cydlynol mewn perthynas ag ansawdd mewn addysg bellach, addysg uwch a hyfforddiant. Roedd yn galw am femorandwm cyd-ddealltwriaeth clir neu ddogfennaeth debyg a fyddai'n helpu i bennu ystod gwaith Estyn ar gyfer y Comisiwn, a'r hyn sydd ei angen ar Weinidogion Cymru. Cynigiodd un dull posibl, sef dau lythyr cylch gwaith a chyfarfodydd panel ar y cyd rhwng y tri chorff.²⁶⁷

266. O ran y trefniadau ariannu a nodir yn adran 66, dywedodd Estyn y byddai'n well ganddo pe bai'r cyllid ar gyfer ei waith craidd, statudol yn cyrraedd ei gronfeydd canolog fel un dyraniad, yn hytrach na'n rhannol drwy'r Comisiwn, sy'n gorff a noddur gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddai Estyn yn croesawu mecanwaith i ganiatáu i'r Comisiwn ei ariannu'n uniongyrchol ar gyfer gwaith ychwanegol penodol sydd angen ei wneud yn ystod y flwyddyn.²⁶⁸ Cyfeiriodd at y trefniadau presennol sydd ar waith gydag adrannau unigol o Lywodraeth Cymru, sy'n darparu rhywfaint o wahaniad rhwng yr adrannau sy'n gyfrifol am ddarparu addysg a hyfforddiant a'r adran lle mae swyddog cyfrifyddu ychwanegol Estyn wedi'i leoli. Cynigiodd fod annibyniaeth yno ar un ystyr.²⁶⁹ Dywedodd Estyn y gallai fod yn bosibl cynnig "dyraniad craidd canolog" yn cwmpasu cyllid y Comisiwn a Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys "trefniadau i sicrhau nad yw mecanweithiau cyllid yn peryglu ein hannibyniaeth, heb wneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth."²⁷⁰

267. Teimlai Estyn fod cyfle wedi'i golli gan na roddwyd dyletswydd ar Estyn i arolygu darpariaeth addysg gychwynnol ar gyfer y sector ôl-orfodol. Roedd o'r farn y byddai gosod hyn

²⁶⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 102

²⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 11 Estyn

²⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 11 Estyn

²⁶⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 351

²⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 11 Estyn

ar wyneb y Bil wirioneddol yn cadarnhau pwysigrwydd cyffredinol y gweithlu wrth fwrw ymlaen â'r holl ddyletswyddau strategol, ac yn enwedig y ddyletswydd o sicrhau gwelliant parhaus.²⁷¹

268. Roedd y Gweinidog yn anghytuno â CCAUC mewn perthynas â'u pryderon ynghylch dyblygu cyfrifoldebau gyda'r Comisiwn ac Estyn. Dywedodd nad oedd yn fwriad gan y Bil nac yn ganlyniad yn ei sgil y byddai unrhyw orgyffwrdd mewn pwerau rhwng y Comisiwn ac Estyn. Credai hefyd y byddai ei gwneud yn ofynnol i'r cynlluniau ar gyfer arolygu darpariaeth gael eu cytuno yn lleihau gorgyffwrdd ar gyfer darparwyr gan y bydd y Comisiwn mewn sefyllfa i sicrhau bod trefniadau asesu ansawdd, mewn addysg bellach ac addysg uwch, yn fwy cyson yn y pen draw, a hynny mewn ffordd nad yw'n bosibl ar hyn o bryd.²⁷²

269. O ran y pwyntiau a godwyd am lefel y manylder yn y Bil ynghylch Estyn, dywedodd y Gweinidog fod hyn oherwydd bod y manylion hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod Estyn yn gallu gweithredu o fewn y gyfraith. Eglurodd fod swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gydag Estyn mewn perthynas â'r hyn sydd ei angen arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau. Roedd yn teimlo ei bod yn rhesymol eu bod yn cael eu gosod yn llawn ar wyneb y Bil.²⁷³ Nid oedd yn siŵr sut y gallai'r darpariaethau hyn ddod allan o'r Bil.²⁷⁴

270. O ran y trefniadau ariannu ar gyfer Estyn dywedodd mai'r rhesymeg yw bod dwy ffynhonnell ariannu i gyd-fynd â'r ddwy set o weithgareddau. Roedd yn credu bod y newidiadau yn weddol syml ac yn drosglwyddiad didrafferth o gyfrifoldeb.²⁷⁵

Pwerau uniongyrchol Gweinidogion Cymru dros sefydliadau addysg bellach, ac mewn perthynas â sefydliadau addysg bellach

271. Dywedodd Grŵp Colegau NPTC fod y Bil yn dychwelyd y pŵer o ystyried yn ôl i Lywodraeth Cymru, ac y gallai gael effaith sylweddol ar sut y mae sefydliadau unigol yn rheoleiddio eu hunain ac yn gwneud penderfyniadau. Roedd gan y Grŵp Colegau bryderon penodol ynghylch cymalau 67 a 68 gan ddweud y gellid ei ddehongli'n diddymiad i'r rhyddid sy'n deillio o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014. Roedd y Grŵp eisiau rhagor o wybodaeth am sut y mae'n rhyngweithio ochr yn ochr â rôl Llywodraeth Cymru fel Prif Reolydd y sefydliadau addysg bellach fel elusennau wedi'u heithrio.²⁷⁶

²⁷¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 316

²⁷² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion paragraffau 94-95

²⁷³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 192

²⁷⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 101

²⁷⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 98-99

²⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 15, Grŵp Colegau NPTC

272. Eglurodd y Gweinidog nad yw'r Bil yn effeithio ar y berthynas rhwng pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru mewn perthynas â sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a'u rôl fel Prif Reoleiddwyr at ddibenion elusennol. Dywedodd y bydd y Bil yn ailddatgan y pwerau sy'n gymwys ar hyn o bryd yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn cynnig adolygu rôl y Prif Reoleiddiwr yn y dyfodol, gan ystyried a fyddai'n fwy priodol i'r rôl hon gael ei chyflawni gan y Comisiwn yng ngoleuni ei rôl reoleiddiol. Cadarnhaodd y byddai unrhyw newidiadau yn destun ymgynghoriad.²⁷⁷

Safbwynt y Pwyllgor

Cofrestru a statws elusennol

273. Rydym yn nodi'r pwyntiau cyffredinol a godwyd gan randdeiliaid ynghylch yr angen i'r broses gofrestru a'r amodau cysylltiedig fod mor syml ac effeithlon â phosibl. Rydym hefyd yn ymwybodol, gyda chymaint o fanylion i ddod mewn rheoliadau, ei bod yn anodd i randdeiliaid a ninnau wneud asesiadau i weld a yw hwn yn bryder y gellir ei gyfiawnhau.

274. O ran yr anghysondebau rhwng y darparwyr a allai ddod yn ddarostyngedig i'r amodau cofrestru (e.e. addysg uwch) a'r rhai nad ydynt yn ddarostyngedig i'r amodau cofrestru (pob darparwr arall) credwn ei bod yn bwysig bod dull llinell sylfaen mwy cyson yn cael ei ddefnyddio i sicrhau cyfle cyfartal ac ehangu mynediad.

275. Rydym yn credu y dylid gosod gofynion cyfatebol ar y darparwyr addysg drydyddol sydd y tu allan i'r system gofrestru â'r gofynion a roddir ar y rhai y mae'n rhaid iddynt gofrestru i gael cyllid. Rydym yn cydnabod y gall y gofynion penodol edrych yn wahanol gan ddibynnu ar y math o ddarparwr, ond dylai'r egwyddor cyffredinol o bwysleisio pwysigrwydd cyfle cyfartal ystyrllon ac ehangu mynediad fod yn berthnasol i bawb, a rhaid i'r Comisiwn gael pwerau i fonitro a rheoli hyn. Os yw sefydliad yn cael arian cyhoeddus, rhaid iddo gadw at ddisgwyliadau'r Llywodraeth. Mae gwella mynediad, cyfranogiad a chanlyniadau i bawb ar draws yr holl ddarparwyr yn flaenoriaeth glir a byddai hyn yn ffordd amlwg o ddangos hyn, yn ogystal â gosod dyletswydd strategol i ategu hyn.

Argymhelliad 22. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu dull mwy cyson ac eang o ymdrin â'r dyletswyddau cyfle cyfartal ac ehangu mynediad ar gyfer pob rhan o'r sector ôl-16, ac nid dim ond y darparwyr hynny sy'n gorfod cofrestru.

Sicrhau Ansawdd

²⁷⁷ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 4 Chwefror 2022, paragraffau 3.1-3.2

276. Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd gan CCAUC ynghylch lefel y manylder ar gyfer sicrhau ansawdd yn y sector addysg bellach a hyfforddiant. Gallwn weld bod risg y gallai fod angen deddfwriaeth sylfaenol bellach pe gwneid newidiadau i rôl neu swyddogaethau Estyn. Mae hyn yn gwneud y Bil yn llai gwydn i wrthsefyll heriau'r dyfodol. Byddai'n ddefnyddiol felly i'r Gweinidog amlinellu sut y byddai sefyllfa o'r fath yn cael ei rheoli.

Argymhelliad 23. Bod y Gweinidog yn amlinellu naill ai yn y ddadl Cyfnod 1 neu'n ysgrifenedig cyn y ddadl Cyfnod 1 sut y byddai Llywodraeth Cymru yn rheoli unrhyw newidiadau i rôl a swyddogaeth Estyn mewn perthynas â darpariaethau'r Bil hwn.

Pwerau uniongyrchol Gweinidogion Cymru dros sefydliadau addysg bellach

277. Bydd y pwerau hyn yn dyroddi pwerau penodol i Weinidogion Cymru dros sector penodol o fewn y sector ôl-16. Mae yna eisoes nifer o feysydd lle mae gwahanol rannau o'r sector yn cael eu trin yn wahanol, a bob tro mae hyn yn digwydd mae'n creu rhwystr posibl i'r sector cydlynol y mae'r Bil yn ceisio ei sefydlu. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod y tystion y gwnaethom ofyn iddynt ynghylch y pŵer hwn yn weddol ddibryder ynghylch hyn (yn wahanol iawn i'r pwerau uniongyrchol hynny sydd gan Weinidogion Cymru dros gorfforaethau addysg uwch, gweler Pennod 7). Yng ngoleuni hyn, rydym yn gyfforddus â'r pwerau a nodwyd i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r rhan hon o'r Bil.

6. Rhan 3: Sicrhau Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'u Cyllido

Mae Rhan 3 yn nodi'r mecanweithiau cyllido ar gyfer y sector addysg drydyddol. Yma, rydym yn trafod materion yn ymwneud â chytundebau canlyniadau, dysgu gydol oes, ymchwil ac arloesi, y chweched dosbarth, cydbwysedd cyllid a chydweithio a chydsyniad.

278. Mae Rhan 3 yn nodi'r trefniadau cyllido ar gyfer addysg drydyddol, hyfforddiant ac ymchwil. Mae'n gwahanu'r trefniadau cyllido ar gyfer:

- Y Comisiwn;
- Addysg uwch;
- Addysg bellach a hyfforddiant;
- Prentisiaethau;
- Ymchwil ac arloesi; a
- Gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol.

279. Yn fras, dywedodd y Gweinidog mai'r egwyddor sylfaenol oedd bod y pwerau cyllido wedi'u cynllunio i ddilyn y math o addysg a ddarperir, yn hytrach na'r math o gyllid. Dyma oedd yr un egwyddor gyson, a oedd yn bwynt gwbl sylfaenol yn y Bil gan esgor ar lawer iawn o fanteision eraill i'r Bil. Roedd yn cydnabod natur gymhleth ac amrywiol y ddarpariaeth ar draws y sector ac na all dull cyllido cydlynol gael gwared ar y gwahaniaethau sylfaenol rhwng gwahanol fathau o addysg drydyddol a chan bwy y maent yn cael eu cyllido'n ehangach. Gan hynny, teimlai fod pwerau'r Comisiwn mor gydlynol ag y mae'n bosibl iddynt fod gan gydnabod y modelau gwahanol hyn, gan fod yn rhaid iddynt weithredu o fewn un strwythur cyllido cyffredin.²⁷⁸

²⁷⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 160-161

Beth mae'r darpariaethau yn Rhan 3 yn ei wneud

Cyllido'r Comisiwn

280. Mae adran 83 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyllido'r Comisiwn a sicrhau bod y cyllid hwn yn ddarostyngedig i delerau ac amodau. Mae hefyd yn nodi y caiff y telerau ac amodau gynnwys gofyniad i'r Comisiwn lunio cytundeb canlyniadau gyda pherson y mae'n darparu cyllid iddo.

281. Mae adran 84 yn nodi'r hyn na all Gweinidogion Cymru ei gynnwys yn nhelerau ac amodau cyllid y Comisiwn o dan adran 83. Bwriad y rhain yw diogelu ymreolaeth y Comisiwn, darparwyr, rhyddid academiaidd a rhyddid ymchwil. Mae'r cyfyngiadau a osodir ar gyllid y Comisiwn yn is-adrannau (4), (5) a (6) yn gymwys i gyllid addysg uwch ac ymchwil yn unig, ond nid ydynt yn gymwys i gyrsiau sy'n cael eu darparu a'u hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gan hynny, mae hyn yn golygu y gall Gweinidogion Cymru ddyrannu cyllid i'r Comisiwn wedi'i dargedu at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Cyllido addysg uwch

282. Mae adrannau 85 ac 86 yn darparu mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer cyllid addysg uwch, ac yn adran 102 ar gyfer cyllid at ddibenion ymchwil. (Rydym wedi trafod materion sy'n ymwneud â rhyddid sefydliadol a rhyddid academiaidd ym mhennod 4.)

283. Mae adran 85 yn rhoi pwerau i'r Comisiwn gyllido darparwyr penodol er mwyn cefnogi darpariaeth addysg uwch gan y darparwr neu ar ei ran. Bydd Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, yn gallu pennu'r categorïau o ddarparwyr cofrestredig a fydd yn gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn o dan yr adran hon.

284. Mae adran 86 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru allu pennu drwy reoliadau gyrsiau cymwys y caiff y Comisiwn eu cyllido y tu allan i'r system gofrestru. Y bwriad yw y gall Gweinidogion Cymru lenwi bylchau yn yr hyn a ddarperir ar gyfer rhai pynciau neu leoliadau penodol.

285. Mae adran 87 yn rhoi pwerau i'r Comisiwn osod telerau ac amodau ynghlwm wrth gyllid a roddir o dan adran 85 ac adran 86. Dim ond ar gyllid gan y Comisiwn y gall y Comisiwn osod telerau ac amodau, ac nid cyllid o ffynonellau eraill, megis incwm a gynhyrchir gan ddarparwr o weithgareddau eraill. Rhaid i'r Comisiwn atodi telerau ac amodau penodol i gyllid a roddir o dan adran 86, a bwriedir i'r telerau ac amodau hyn wneud iawn am y ffaith nad yw'r darparwr yn ddarostyngedig i amodau cofrestru.

286. Mae adran 89 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyllido ystod benodol a chyfyng o gyrsiau addysg uwch yn uniongyrchol fel y'u nodir yn Neddf Diwygio Addysg 1998 (er enghraifft, cyrsiau heblaw graddau wrth baratoi ar gyfer arholiadau proffesiynol ar lefel uwch neu wrth ddarparu addysg ar lefel uwch).

Addysg bellach a hyfforddiant

287. Mae adran 90 yn nodi dyletswydd y Comisiwn i sicrhau cyfleusterau ar gyfer addysg a hyfforddiant i bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed. Rhaid i'r Comisiwn sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer y rheini sydd dros yr oedran ysgol gorfodol ac nad ydynt yn 19 oed eto. Yn ôl yr adran hon, diffinnir y term "priodol" fel ansawdd "digonol" i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae hefyd yn nodi bod yn rhaid i ddarpariaeth fodloni hawliau myfyrwyr i gwricwla lleol o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

288. Mae adran 91 yn nodi dyletswydd y Comisiwn i sicrhau "cyfleusterau priodol" ar gyfer addysg a hyfforddiant i bersonau cymwys dros 19 oed. Bydd y diffiniad o berson cymwys yn cael ei wneud mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru (ond mae'r Bil yn nodi bod yn rhaid i'r person fod dros 19 oed).

289. Mae adran 92 yn nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn sicrhau cyfleusterau "rhesymol" ar gyfer addysg a hyfforddiant i bobl dros 19 oed. Ystyr cyfleusterau "rhesymol" yw cyfleusterau sydd, o ystyried adnoddau'r Comisiwn, o'r fath ansawdd a maint fel y gellir disgwyl i'r Comisiwn sicrhau'r ddarpariaeth ohonynt. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi bod y math hwn o ddarpariaeth yn cwmpasu pob math o ddysgu, gan gynnwys dysgu nad yw'n ffurfiol ac na fydd o bosibl yn arwain at gymhwyster.

290. Mae adran 93 yn nodi'r gofynion a osodir ar y Comisiwn wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 90-92, gan gynnwys rhoi sylw i ofynion cyflogwyr; gofynion o ran hyfforddiant cyfrwng Cymraeg; a gofynion o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

291. Mae adran 94 yn nodi'r pwerau i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru gyllido addysg bellach a hyfforddiant. Mae'n rhoi pwerau i gyllido darparwyr ond hefyd i gyllido dysgwyr yn uniongyrchol ar ffurf cymorth ariannol (er enghraifft costau cludiant a/neu ofal plant).

292. Mae adran 95 yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau bennu mai dim ond i ddarparwyr cofrestredig mewn categorïau cofrestru penodol y gellir darparu adnoddau o dan adran 94. Mae pwerau hefyd o dan yr adran hon i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i alluogi naill ai'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru i gyllido'n uniongyrchol ddarpariaeth gan ddarparwyr anghofrestredig ar gyfer mathau penodol o addysg a hyfforddiant. Byddai hyn yn

caniatáu darparu dysgu a oedd yn rhy arbenigol neu nad oedd yn gost-effeithiol i ddarparwyr cofrestredig ei gynnig.

293. Mae adran 96 yn nodi y caiff y Comisiwn neu Weinidogion Cymru osod telerau ac amodau y maent yn ystyried eu bod yn briodol ynghlwm wrth gyllid a roddir o dan adran 94. Mae'r adran yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r telerau ac amodau ei gwmpasu neu'r hyn y caiff ei gwmpasu (gan gynnwys gwaharddiad ar godi ffioedd ar bobl ifanc 16-19 oed mewn addysg bellach a hyfforddiant).

294. Mae adran 97 yn rhoi'r pwerau i'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru gynnal neu ariannu profion modd, ac mae'n eu galluogi i ystyried hyn wrth wneud penderfyniadau ar unrhyw hawlogaethau ar gyfer unrhyw gymorth ariannol i bobl sy'n ceisio ymgymryd ag addysg bellach neu hyfforddiant.

295. Mae adran 98 yn rhoi pŵer i'r Comisiwn gyllido addysg a ddarperir gan chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, ac mae'n eu galluogi i osod telerau ac amodau "priodol" i'r cymorth.

296. Mae adran 99 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i anghenion pobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a dymunoldeb sicrhau bod cyfleusterau ar gael a fyddai'n cynorthwyo i gyflawni dyletswyddau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

297. Mae adran 100 yn rhoi pŵer i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru gyllido ystod eang o weithgareddau mewn perthynas ag addysg drydyddol. Gall hyn gynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau.

Cymorth ariannol ar gyfer prentisiaethau

298. Mae adran 101 yn rhoi pwerau i'r Comisiwn gyllido darparwyr fframwaith prentisiaeth cymeradwy ac i gyllido person i ddatblygu fframwaith o'r fath. O dan yr adran hon, gall y Comisiwn osod telerau ac amodau ynghlwm wrth y cyllid hwn. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau fel bod cymhwysra ar gyfer y cyllid hwn wedi ei gyfyngu i ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru mewn categorïau penodol, yn ogystal â'u galluogi i wneud eithriadau. Mae'r adran hon yn galluogi darparwr i drosglwyddo cyllid i gorff sy'n cydlafurio, gyda chaniatâd y Comisiwn.

Ymchwil ac arloesi

299. Yn ôl adran 102, ceir cyllido ymchwil ac arloesi mewn darparwr cofrestredig sydd wedi'i gofrestru mewn categori penodol, fel y nodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

300. Mae adran 103 yn nodi y gall cyllid a ddyrennir o dan adran 102 fod yn ddarostyngedig i delerau ac amodau y mae'r Comisiwn yn eu hystyried yn briodol.

301. Mae adran 104 yn nodi swyddogaethau eraill y Comisiwn mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd ar y Comisiwn i hybu ymwybyddiaeth o'r gweithgareddau ymchwil ac arloesi y mae'n eu cyllido, lledaenu canlyniadau'r gweithgareddau ac annog rhagor o weithgareddau ymchwil ac arloesi. Rhaid iddo adrodd ar ymchwil ac arloesi yn ei adroddiad blynyddol.

Darpariaethau cymorth ariannol

302. Mae adran 105 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru osod trefniadau rheoli ynghylch cyllid a gaiff ei drosglwyddo o ddarparwyr i gyrff sy'n cydlafurio (er enghraifft is-gontractwyr).

303. Mae adran 106 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddyd ariannol i'r Comisiwn os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod materion ariannol darparwr cofrestredig neu bersonau sy'n cael cyllid wedi'u camreoli neu'n cael eu camreoli.

Cytundebau canlyniadau

304. Mae cytundebau canlyniadau yn cael eu cyflwyno a'u diffinio yn adran 83. Bwriedir iddynt fod yn ysgogiad polisi allweddol i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn er mwyn sicrhau bod darparwyr a ariennir yn cadw at flaenoriaethau'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru ac yn bodloni dyletswyddau strategol y Comisiwn fel y'u nodir yn adrannau 2-10.

305. Nid oedd CCAUC yn sicr sut y byddai'r cytundebau canlyniadau yn bodloni'r amcan polisi o hyrwyddo cydlyniant ar draws y sector. Soniodd y Cyngor Cyllido am ei brofiad o weithredu cynlluniau mynediad a ffioedd, yn enwedig y cyfnod amser rhwng datblygu cynllun a phryd y gellir asesu effeithiolrwydd, a all fod yn flynyddoedd. Roedd hefyd yn teimlo, drwy ganolbwyntio ar fwriadau sefydliad penodol, mai gweddol brin oedd y cyfleoedd i gymell ymrwymïadau i ddatblygu a chyflawni ar y cyd. Dywedodd y Cyngor Cyllido fod materion tebyg wedi bod yn yr Alban, a bod arfau o'r fath yn rhai hirdymor ac yn araf.²⁷⁹

²⁷⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 247

306. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn pryderu nad oedd yna fawr ddim esboniad o ran sut olwg fyddai ar gytundebau canlyniadau. Dywedodd y bydd y rhain yn ofynion newydd i lawer o ddarparwyr os cânt eu defnyddio fel sail i benderfyniadau cyllid. Roedd yn galw am ystyried enghreifftiau rhyngwladol, fel y rhai sydd wedi bod ar waith yn yr Alban ers 2016.²⁸⁰ Soniodd Addysg Oedolion Cymru hefyd am ddull yr Alban fel un positif, yn hytrach na'r dulliau yn Lloegr sydd wedi canolbwyntio ar gyflog eu graddedigion.²⁸¹ Dywedodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru fod y cytundebau yn yr Alban yn canolbwyntio ar feysydd penodol y cytunir arnynt rhwng y sector a'r rheoleiddiwr, ac nad ydynt yn cwmpasu popeth o'r hyn y mae darparwyr yn ei wneud o ddydd i ddydd.²⁸²

307. Roedd Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn pryderu y gallai'r cytundebau canlyniadau arwain at orlwytho biwrocraidd ochr yn ochr â'r gofynion cofrestru.²⁸³ Roedd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru hefyd yn rhannu'r pryderon am y gofynion beichus posibl o'u cyfuno ag amodau cofrestru.²⁸⁴ Roedd y Brifysgol Agored yng Nghymru hefyd yn awyddus i osgoi eu gweld yn dod yn ddull o led-reoleiddio cyffredinol. Roedd hefyd yn pryderu na fyddent yn ystyried amgylchiadau unigryw y Brifysgol Agored.²⁸⁵ Roedd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn gefnogol cyn belled â'u bod yn cael eu gweithredu'n dda a'u bod yn gymesur o ran baich biwrocraidd.²⁸⁶

308. Dywedodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru y gallen nhw weithio cyn belled nad ydynt yn dyblygu'r hyn a wneir yn barod. Dywedasant nad oedd sefydliadau eisiau cael eu rhwystro gan yr angen i gyflawni'r hyn sydd mewn cytundeb canlyniadau yn hytrach na chyflawni'r hyn sy'n wirioneddol bwysig i'r rhanbarth a'r economi, gan wneud hynny ar sail yr ymreolaeth sefydliadol a'r rhyddid academiaidd sydd ganddynt ar hyn o bryd.²⁸⁷

309. Roedd Cyngor Deoniaid Iechyd Cymru yn gwrthwynebu cyflwyno cytundebau canlyniadau, gan bryderu y gallent fod yn seiliedig ar fetrigau meintiol yn unig ac na fyddent yn ystyried ffactorau ehangach. Pe cânt eu cyflwyno, roedd y Cyngor am weld gwybodaeth ansoddol a chyd-destunol yn cael ei chynnwys, gyda ffactorau cymdeithasol-economaidd

²⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 01, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, paragraff 12.

²⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 29, Addysg Oedolion Cymru, paragraffau 26-27.

²⁸² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 148.

²⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 05, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, paragraff 6.

²⁸⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 148.

²⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12, Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraff 5.3.

²⁸⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 335.

²⁸⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 149.

ehangach, gwledigrwydd a defnydd o'r Gymraeg yn cael eu hystyried.²⁸⁸ Galwodd Adran Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd am i'r cytundebau "groesawu syniadau ehangach gwerth ac ansawdd", yn hytrach na'r hyn yr oedd yr Adran yn ei ystyried yn ddiffiniadau cul o'r cyfeiriadau yn y Memorandwm Esboniadol.²⁸⁹ Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd yn galw am ganolbwyntio ar ddyletswyddau strategol cyfle cyfartal ac annog cyfranogiad eraill wrth lunio'r cytundebau canlyniadau.²⁹⁰ Dywedodd Colegau Cymru os gellir lleihau'r ffocws ar fewnbynnau a symud y ffocws i allbynnau mewn ffordd synhwyrol, dyna fyddai'r peth cywir.²⁹¹ Dywedodd Addysg Oedolion Cymru y byddai angen i'r cytundebau adlewyrchu gwir genhadaeth a nodau penodol sefydliad.²⁹²

310. Roedd ambell sefydliad megis Unison Cymru,²⁹³ a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd²⁹⁴ yn teimlo y gallai cytundebau canlyniadau fod yn arf effeithiol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau strategol yn ogystal â helpu gydag atebolrwydd. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod cyfle i gytundebau canlyniadau gael eu defnyddio i sicrhau darpariaeth cyfrwng Gymraeg.²⁹⁵ Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd hefyd yn annog y dylid gofalu i sicrhau nad yw'r cytundebau canlyniadau yn gwanhau'r ddarpariaeth chweched dosbarth cyfrwng Gymraeg.²⁹⁶ Roedd Estyn hefyd yn credu bod potensial y gallai cytundebau canlyniadau esgor ar fuddion. Teimlai ei bod yn rhesymol i'r Comisiwn bennu'r canlyniadau disgwylidig.²⁹⁷

311. Roedd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn gefnogol iawn i gytundebau canlyniadau gan ei alw'n "fudd absoliwt", sy'n cyd-fynd â sut y mae prentisiaethau'n cael eu rheoli ar hyn o bryd. Dywedodd y Ffederasiwn ei bod yn briodol bod darparwyr yn cael eu dwyn i gyfrif gan mai arian cyhoeddus sydd dan sylw. Dywedodd hefyd na ellir diystyru'r pwysigrwydd sylweddol y gallai cytundebau canlyniadau eu cynnig i economi Cymru o ran dylanwadu ar ymddygiad i ddilyn blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol.²⁹⁸

²⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 10. Cyngor Deoniaid Iechyd Cymru

²⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 20. Adran Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin, paragraff 1.3.

²⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 24. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

²⁹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 349

²⁹² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 23

²⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 22. Unison Cymru, paragraff 12

²⁹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 335

²⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 03. Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 2.6

²⁹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 516

²⁹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 334

²⁹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 21 a 27

312. Disgrifiodd y Gweinidog gytundebau canlyniadau fel rhan wirioneddol bwysig o'r Bil oherwydd eu bod yn darparu'r hollt rhwng blaenoriaethau cenedlaethol a phenderfyniadau a wneir gan sefydliadau unigol. Dywedodd y bydd yn ffordd gyhoeddus, dryloyw iawn o ddangos y cysylltiad hwn.²⁹⁹ Disgrifiodd aelod o Dîm Polisi Llywodraeth Cymru y cytundebau fel telerau ac amodau ynghlwm wrth gyllid i bob pwrpas.³⁰⁰

Dysgu gydol oes a dysgu oedolion

313. Bwriad adrannau 90-92 yw bod y Comisiwn yn blaenoriaethu sicrhau darpariaeth addysg bellach a hyfforddiant, yn y drefn a ganlyn:

- Darpariaeth 'briodol' ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed ac addysg a hyfforddiant perthnasol penodol ar gyfer personau cymwys penodol dros 19 oed;
- Darpariaeth 'resymol' i bawb arall dros 19 oed.

314. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd angen i'r Comisiwn "roi blaenoriaeth i ddiwallu anghenion dysgu a sgiliau'r grŵp oedran iau a'r oedolion hynny dros 19 oed sy'n bodloni'r meini prawf". Mae hyn, meddai Llywodraeth Cymru, yn "ehangu'r polisi presennol".³⁰¹

315. Galwodd y Brifysgol Agored yng Nghymru adrannau 91 a 92 yn "addawol iawn".³⁰² Dywedodd Colegau Cymru hefyd ei fod yn gam ymlaen.³⁰³ Dywedodd hefyd ei fod yn deall y dull cynyddrannol y mae'r Llywodraeth yn ei ddilyn wrth ehangu'r ddarpariaeth:

*"... a pragmatic response that says there is a longer term commitment to progressively improving lifelong learning opportunities is a good way forward, because yes, we have to make priorities and I guess our priorities for 16-19-year olds are important ..."*³⁰⁴

316. Dywedodd CCAUC, drwy fethu â gosod dyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau cyfleusterau priodol i bawb, fod "risg y bydd cyllid a gaiff rhannau o'r ddarpariaeth yn anghymesur â rhannau eraill". Galwodd am ddiwygio'r Bil i naill ai osod dyletswydd i sicrhau cyfleusterau priodol i bawb, neu i ychwanegu dyletswydd i sicrhau bod dull cytbwys wrth gyllido ar draws yr

²⁹⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 103.

³⁰⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 176.

³⁰¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), paragraff 3.264, 1 Tachwedd 2020.

³⁰² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 200.

³⁰³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 275.

³⁰⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 273.

holl ddarpariaeth a ariennir gan y Comisiwn.³⁰⁵ Mae hyn hefyd yn cysylltu â thystiolaeth ehangach yr ydym wedi ei chasglu ynghylch yr angen am ddyletswydd ariannu gytbwys, a drafodir ymhellach yn yr adran isod. Galwodd Addysg Oedolion Cymru hefyd i'r ddyletswydd i ddarparu cyfleusterau priodol gynnwys pob dysgwr ni waeth beth yw eu hoedran.³⁰⁶ Dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru y dylai pawb sy'n gymwys at ddibenion y Bil neu fel arall allu cael mynediad at gyfleoedd dysgu llawn mor briodol gydol eu hoes.³⁰⁷

317. Er bod y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn croesawu'r ddyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau cyfleusterau priodol, roedd yn pryderu y byddai'r diffiniadau o'r termau perthnasol a chymwys yn gul. Roedd yn pryderu y bydd y meini prawf cymhwysedd yn canolbwyntio ar garfannau iau i ddechrau, a thrwy hynny'n eithrio dysgwyr canol gyrfa a dysgwyr hŷn. Dywedodd y byddai dull o'r fath yn tanseilio'r ddyletswydd strategol yn y Bil i hybu dysgu gydol oes. Dywedodd y dylid osgoi "cystadlu rhwng carfannau", ac y dylid cael "buddsoddiad cytbwys ar draws y sector a phroffil oedran dysgwyr".³⁰⁸ Dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru fod angen i'r Bil fod yn wirioneddol agored i ailsgilio pobl trwy gydol eu bywydau ar bob math o lefelau iddynt allu datblygu. Dywedodd ei bod yn bwysig sicrhau nad yw'r Bil yn gweithredu yn groes i hynny.³⁰⁹

318. Galwodd Coleg Caerdydd a'r Fro am fwy o eglurder ynghylch y ffordd y diffinnir y termau "priodol", "rhesymol", "cymwys" a "pherthnasol" yn adrannau 90-92.³¹⁰ Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru na all fod yn rhy frwdfrydig ynghylch cyflawni ymrwymadau dysgu gydol oes nes ei fod yn gwybod beth yw ystyr "person cymwys".³¹¹

319. Yn gyffredinol, roedd Addysg Oedolion Cymru yn croesawu'r hyblygrwydd ychwanegol yn adran 91 i Weinidogion Cymru ehangu drwy reoliadau pa ddysgwyr dros 19 oed allai gael eu cwmpasu gan y ddyletswydd i sicrhau cyfleusterau priodol.³¹² Dywedodd Addysg Oedolion Cymru fod y geiriad hwn o gymorth gan y byddai gweision sifil bob amser yn dweud bod rhaid gwneud toriadau i addysg oedolion oherwydd y ddeddfwriaeth, ac yna byddent yn dilyn y ddeddfwriaeth honno.³¹³ Roedd hefyd yn gobeithio y byddai'r rheoliadau hyn yn agor y drws i

³⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32 CCAUC, paragraff 2.20

³⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 29, Addysg Oedolion Cymru, paragraff 23

³⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12 Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraff 5.8

³⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 26, Y Sefydliad Dysgu a Gwaith

³⁰⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 205

³¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 33, Coleg Caerdydd a'r Fro

³¹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 98

³¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 29, Addysg Oedolion Cymru, paragraffau 23-25

³¹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 59-60

lawer o gategorïau o ddysgwyr nad ydynt wedi'u cynnwys yn y trefniadau cyllido ar hyn o bryd.³¹⁴

320. Galwodd y Brifysgol Agored yng Nghymru am gynnwys cyfeiriad at ddarparu hyfforddiant yn y mathau o addysg bellach neu hyfforddiant y gellir eu disgrifio mewn rheoliadau o dan adran 91(4). Soniodd am hyn yng nghyd-destun y cynnydd tebygol mewn darpariaeth o bell ac ar-lein yn y dyfodol. Dywedodd y byddai datganiad clir o hyn yn y Bil i'w groesawu fel arwydd y bydd y gwaith cynyddol o ehangu dysgu gydol oes yn cynnwys dysgu a ddarperir ar-lein neu ddysgu o bell.

321. Nododd y Brifysgol Agored hefyd fod adran 91 yn cyfeirio at gyrsiau ar lefelau 1-3, ond nid yw dysgu gydol oes yn golygu dim ond dilyn cwrs ar lefelau 1-3 fel oedolyn; yn hytrach dylai olygu bod dysgu yn broses flaengar a pharhaus.³¹⁵ Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru fod pennu'r lefelau hyn o fewn y Bil hwn yn lefel o fanylder a oedd yn annefnyddiol. Soniodd y Ffederasiwn fod pobl sy'n gwneud prentisiaethau lefel uwch yn gyffredinol dros 19 oed.³¹⁶ Roedd ColegauCymru yn cytuno bod angen bod yn ofalus fel na chaiff neb, yn ddamweiniol, eu hatal rhag cael cymwysterau ar lefel uwch o bosibl, neu pe symudir i systemau a ddefnyddir yn rhywle arall, lle nad yw cymhwyster yn un lefel yn unig.³¹⁷

322. Dywedodd ColegauCymru fod yr arweinyddiaeth ar lefelau 4 a 5 yn ddryslyd iawn, a bod tipyn o dir neb rhwng addysg uwch ac addysg bellach. Roedd yn credu bod y Comisiwn yn darparu cyfle gwirioneddol i ddangos yr arweinyddiaeth yma. Galwodd am ddileu rhai o'r cyfyngiadau sydd yn eu lle ar hyn o bryd, megis gorfod breinio o addysg uwch, ac y dylid diddymu'r rhwystrau hynny a gadael i'r lefelau hyn fagu stêm, a gadael i'r cwricwlwm ddatblygu. Fodd bynnag, nododd hefyd nad oedd y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn mynd i'r afael â hyn fel mater sylweddol.³¹⁸

323. Soniodd Addysg Oedolion Cymru am bwyslais cryf ar addysg i oedolion sy'n seiliedig ar gymwysterau. Yn benodol, nododd hyn mewn perthynas â mynediad at gyfleusterau priodol i bersonau cymwys dros 19 oed. Gan gydnabod pwysigrwydd dysgu achrededig a dysgu sy'n seiliedig ar gymwysterau, dywedodd fod manteision pwysig i weithgareddau ymgysylltu nad ydynt yn achrededig. Dywedodd fod "cyrsiau denu" o'r fath yn chwarae rhan hollbwysig i gael y

³¹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 95.

³¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12 Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraff 5.13-5.14; 5.17.

³¹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 48.

³¹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 275.

³¹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 281, 283.

sawl sydd anoddaf eu cyrraedd ac sydd bellaf o addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn ôl i ddysgu.³¹⁹ Galwodd am gyfeiriad at y math hwn o ddarpariaeth yn y Bil.³²⁰

324. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 327, mae'r Gweinidog wedi nodi y bydd y dull gweithredu yn y Bil yn caniatáu ehangu dysgu gydol oes yn raddol. Croesawodd y Brifysgol Agored hyn, a dywedodd fod blaenoriaethu dysgwyr cymwys yn y lle cyntaf yn ymddangos i fod yn ddull synhwyrol. Wedi dweud hynny, roedd gan y Brifysgol Agored amheuan y gallai sefydlu'r gwahaniaeth rhwng cyfleusterau "rhesymol" a "phriodol" mewn deddfwriaeth sylfaenol fod yn rhwstr i ddyheadau'r Gweinidog yn ymarferol.³²¹

325. Cododd Addysg Oedolion Cymru bryderon ynghylch y diffyg cynnydd a wnaed o ran sefydlu corff strategol cenedlaethol i oruchwyllo dysgu oedolion yn y gymuned. Roedd y Gweinidog Addysg blaenrol wedi dweud y byddai'r trefniadau ar gyfer y corff cenedlaethol wedi'u lleoli o fewn y Comisiwn, ond dywedodd Addysg Oedolion Cymru nad oedd unrhyw gyfeiriad at hyn yn y Bil nac yn y ddogfennaeth ategol. Dywedodd fod angen enfawr am y corff hwn gan fod perygl y bydd dysgu oedolion yn y gymuned yn cael ei golli yn yr agenda dysgu oedolion ehangach.³²² Galwodd am gryfhau'r Bil i sicrhau bod dysgu oedolion yn y gymuned yn cael ei ystyried, ei reoli, a'i gynrychioli'n briodol o fewn y sector ôl-16.³²³ Cytunodd y Sefydliad Dysgu a Gwaith hefyd fod angen i'r Comisiwn gydnabod yn glir y rôl y gall dysgu oedolion yn y gymuned ei chwarae.³²⁴

326. Ar fater ehangach yn ymwneud â dysgu gydol oes, galwodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i raglenni cyflogadwyedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru fod o fewn cylch gorchwyl y Comisiwn. Dywedodd y Ffederasiwn mai'r dysgwyr hyn sydd angen y gefnogaeth fwyaf, ac sydd angen y lefel fwyaf o oruchwyliaeth a darpariaeth o'r safon uchaf, a'i bod yn gwbl briodol felly bod darparwyr yn cael eu dwyn i gyfrif am hyn. Roedd yn derbyn y gallai fod rhesymau dilys am hyn, ond nid oedd yn ymwybodol eto pam nad yw'r Comisiwn yn cynnig gwarchodaeth na goruchwyliaeth i'r unigolion sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad swyddi ac sydd angen y gefnogaeth fwyaf.³²⁵

³¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 29, Addysg Oedolion Cymru, paragraffau 7-8

³²⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 54

³²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12 Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraffau 5.10-5.11

³²² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 29

³²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 29, Addysg Oedolion Cymru, paragraff 1

³²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 26, Y Sefydliad Dysgu a Gwaith

³²⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 62

327. Dywedodd y Gweinidog fod dysgu gydol oes yn rhan hollbwysig o'r Bil. Dywedodd, yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i ehangu dysgu gydol oes, fod y Bil yn ymestyn y gofynion i ddarparu cyfleusterau priodol, sy'n lefel uwch o rwymedigaeth, i'r unigolion ôl-19 sy'n ddysgwyr cymwys. O ran y pwerau gwneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiffinio personau cymwys, ychwanegodd:

"the mechanism in the Bill that allows the progressive expansion of lifelong learning for the first time. So it isn't simply 'reasonable facilities' it's broader than that."

Dywedodd mai'r rheswm pam nad yw'r Bil yn darparu cyfleusterau priodol i bawb yw bod nifer y bobl ôl-19 yn llawer uwch, gan ofyn am yr ehangiad blaengar dan sylw. Dywedodd fod y rheoliadau yn rhoi'r hyblygrwydd i hyn gael ei wneud.³²⁶

328. Eglurodd y Gweinidog hefyd fod defnyddio'r termau "priodol" a "rhesymol" yn gysyniad a fenthycwyd o'r fframwaith deddfwriaethol presennol, gyda'r termau hyn yn deillio o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Dywedodd ei fod yn fecanwaith i bennu blaenoriaethau, ac mai pwrpas y mecanwaith yw estyn yn gynyddol y lefel uwch honno o rwymedigaeth.³²⁷

329. Pan wnaethom godi'r pryderon ynghylch darpariaeth dysgu gydol oes yn cael ei fframio'n benodol o ran addysg bellach yn y Bil, dywedodd y Gweinidog ei fod ar hyn o bryd yn rhagweld y gallai'r Comisiwn wneud trefniadau cyllido grantiau ar gyfer cyrsiau addysg uwch rhan-amser a fyddai'n debyg i'r grantiau a wneir ar hyn o bryd gan CCAUC. Ychwanegodd fod gan y Llywodraeth ddiddordeb ym marn y sector ar yr hyn y gellir ei wneud i hwyluso dysgu gydol oes mewn addysg uwch.³²⁸

330. Ymrwymodd y Gweinidog i'r rheoliadau hyn gael eu llunio ar y cyd â'r sector a'u llywio gan yr arbenigedd o fewn y sector. Dywedodd y byddai adroddiad diweddar Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, "Cefnogi System Dysgu Gydol Oes Cymru", yn llywio'r rheoliadau. Mae'n bwriadu ymgynghori ar y rheoliadau yn ystod 2023, a sicrhau eu bod yn weithredol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25.³²⁹

³²⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 184-186

³²⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 73-75

³²⁸ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 4 Chwefror 2022, paragraff 2.3

³²⁹ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Chwefror 2022

331. Wrth drafod corff cenedlaethol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned, dywedodd y Gweinidog fod y Gweinidog Addysg blaenorol wedi gwneud datganiad am benderfyniad i archwilio dichonoldeb corff cenedlaethol. Dywedodd mai ei farn ef yw mai'r mater allweddol yw cydgyssylltu cenedlaethol a sicrhau bod pethau wedi datblygu ers y datganiad blaenorol.³³⁰ Wedi hynny, rhoddodd ragor o wybodaeth gan ddweud bod ystyriaethau polisi wedi symud ymlaen ers y datganiad yn 2019, ac y bydd y Comisiwn yn gyfrifol am gynllunio a chyllido ar draws y sector gan gynnwys dysgu i oedolion a dysgu gydol oes. Dywedodd ei fod wrthi'n sefydlu Grŵp Cyfeirio Allanol i fwrw ymlaen â rhaglen cydgyssylltu genedlaethol â rhanddeiliaid allweddol o'r sector.³³¹

Cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi

332. Fe wnaeth rhanddeiliaid gan gynnwys CCAUC³³² a Chymdeithas Ddysgedig Cymru³³³ bwysleisio pwysigrwydd gwarchod y system ddeuol o gefnogaeth ar gyfer cyllid ymchwil. Dywedodd CCAUC fod hyn yn galluogi Cymru i fod ar yr un lefel â gwledydd mwy o faint mewn perthynas ag ansawdd yr ymchwil a gynhyrchwyd.³³⁴

333. Cododd nifer o randdeiliaid gan gynnwys CCAUC³³⁵ a'r Gymdeithas Ddysgedig³³⁶ bryderon y gallai'r Bil leihau'r ffrydiau ariannu ymchwil a elwir yn Gyllid Ymchwil o Ansawdd. Yn ôl y Gymdeithas Ddysgedig, mae Cyllid Ymchwil o Ansawdd yn hollol hanfodol i ymchwil prifysgolion, a dywedodd fod angen iddo gael ei gydnabod fel bloc adeiladu sylfaenol i holl waith ymchwil ac arloesi prifysgolion.³³⁷ Dywedodd CCAUC fod risg, pe bai'r Bil yn nodi'r meysydd ymchwil sydd i'w hariannu, y gallai hynny fod ar draul Cyllid Ymchwil o Ansawdd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ymchwil hirdymor.³³⁸ Dywedodd y Cyngor Cyllido hefyd, trwy fod yn fwy penodol ar feysydd sydd i'w hariannu, ei fod yn cynyddu'r risg o leihau capasiti'r mecanwaith ymchwil i ymateb i gyfleoedd wrth iddynt godi. Pwysleisiodd nad yw CCAUC na

³³⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 85-86

³³¹ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 4 Chwefror 2022, paragraffau 10.1-10.2

³³² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32, CCAUC, paragraff 2.10

³³³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 154

³³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32, CCAUC, paragraff 2.10

³³⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 299

³³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 25, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, paragraff 6.5

³³⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 237-238

³³⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 299

Llywodraeth Cymru ar lawr y dosbarth, a bod hyn yn cyfyngu ar eu gallu i weld o ble mae'r wybodaeth newydd yn mynd i ddod mewn gwirionedd.³³⁹

334. Galwodd y Gymdeithas Ddysgedig am warchod y gronfa Cyllid Ymchwil o Ansawdd yn unol ag argymhellion Adolygiad Diamond a Reid. Galwodd hefyd am gynyddu Cyllid Ymchwil o Ansawdd yn unol â'r hyn a wneir yn Lloegr er mwyn sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn gystadleuol. Pwysleisiodd hefyd y rôl y mae Cyllid Ymchwil o Ansawdd yn ei chwarae wrth alluogi prifysgolion i gael y platfform i sicrhau cyfran fwy o gyllid ymchwil a ddyfernir drwy broses gystadleuol.³⁴⁰ Nododd y Gymdeithas Ddysgedig hefyd y cynnydd yn y cyllid sydd ar gael ar lefel y DU, a bod Cyllid Ymchwil o Ansawdd yn bwysig i sicrhau bod y sector yng Nghymru mewn cyflwr da i allu gwneud cais llwyddiannus i gystadlu am y pot arian llawer mwy hwn.³⁴¹

335. Soniodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru am bwysigrwydd cyllid craidd wrth adeiladu sylfeini'r sylfaen ymchwil. Dywedasant ei bod yn hollbwysig bod gan y Comisiwn gymhellant i hybu gwaith ymchwil ac arloesi, gan gynnwys ymchwil sylfaenol.³⁴²

336. Fel y gwnaethom ei drafod ym Mhennod 4 ynghylch dyletswyddau strategol y Comisiwn, roedd galw i gryfhau rôl ymchwil o fewn y dyletswyddau hyn. Credai'r Gymdeithas Ddysgedig y byddai atgyfnerthu o'r fath hefyd yn helpu i ddiogelu cyllid ymchwil o fewn y Comisiwn.³⁴³

337. Un o'r meysydd a oedd yn peri pryder oedd y gallai rhai o'r darpariaethau ynghylch cydsyniad fod yn rhwystr i gydweithredu. Rydym yn trafod hyn yn yr adran isod ar Gydweithio a Chydsyniad.

338. Cododd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru bryderon na fydd dyletswydd ar y Comisiwn i ymgynghori â phrifysgolion ynghylch newidiadau i bolisiau cyllido. Dywedasant y dylai pwerau cyllido o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r gofyniad hwn fel mater o arfer darbodus a chyfrifol.³⁴⁴

339. Gwnaethom drafod y cyfyngiadau sy'n ymddangos i fod yn y Bil sydd ond yn galluogi'r Comisiwn i ddarparu cyllid ymchwil ac arloesi i ddarparwyr cofrestredig, gan olygu mai dim ond sefydliadau addysg uwch fyddai'n gymwys ar hyn o bryd. Dywedodd y Gymdeithas Ddysgedig fod ffynonellau eraill ar gael i sefydliadau nad ydynt yn sefydliadau addysg uwch, a dywedodd ei

³³⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 309

³⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 25, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, paragraff 6.5

³⁴¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 154

³⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 5

³⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 25, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, paragraff 4.4

³⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 7.11

bod yn iawn bod y Comisiwn yn canolbwyntio ar brifysgolion. Nid oedd y Gymdeithas yn credu y byddai effaith enfawr ar ymchwil ac arloesi y tu allan i'r sector addysg uwch. Dywedodd ei bod yn bwysig bod cyfle i gydweithio â sefydliadau nad ydynt yn sefydliadau addysg uwch.³⁴⁵

340. Roedd David Notley yn anghytuno â safbwynt y Gymdeithas Ddysgedig gan ddweud bod risg y byddai cyllid yn cael ei roi mewn seilos, a'i bod yn bosibl na fydd y dull hwnnw'n annog nac yn mandadu cydweithio. Roedd yn hapus i gyllid ymchwil ac arloesi gael ei wreiddio yn y sector addysg, ond roedd angen mecanweithiau a fyddai'n hwyluso, yn annog, ac efallai hyd yn oed yn mandadu cydweithio. Pryderai ei bod yn dod yn ddyletswydd ar y sector addysg i estyn allan a chydweithio, ac efallai na fyddai hynny bob amser yn digwydd.³⁴⁶

341. O ran diffyg pwerau'r Comisiwn i gyllido ymchwil y tu allan i'r sector addysg uwch, pwysleisiodd y Gweinidog mai prif gwmpas y Bil oedd rheoleiddio, cyllido a goruchwyllo'r sector addysg drydyddol. Er bod ymchwil yn rhan bwysig o hynny, dywedodd fod peth ymchwil yn cael ei wneud y tu allan i'r sector hwn. Dywedodd nad oedd ffrydiau eraill o gyllid ymchwil ar gael i'r Comisiwn gan na fyddai'n cael ei reoleiddio gan y darparwyr cyllid hyn ac felly ni fyddai'n briodol.³⁴⁷

Y Chweched Dosbarth

342. Mae'r chweched dosbarth wedi'i gynnwys o fewn cylch gwaith y Comisiwn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro, gan y bydd gan y Comisiwn gyfrifoldeb strategol am sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed, y bydd y Comisiwn o dan rai amgylchiadau yn gallu cyfarwyddo bod chweched dosbarth mewn ysgol yn cael ei sefydlu neu ei derfynu. Bydd awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu yn dal i fod â'r pŵer i gyflwyno eu cynigion eu hunain, ond ni fydd gan Weinidogion Cymru bellach rôl i wneud cynigion cyffredinol i ailstrwythuro'r ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi y cynhelir ymgynghoriad ar yr amgylchiadau a'r cyfyngiadau ar yr hyn a allai sbarduno'r Comisiwn i gyhoeddi cyfarwyddydau a'u cynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol.³⁴⁸

343. Clywsom bryderon ynghylch y ffaith bod gan y Comisiwn y cyfrifoldebau hyn. Roedd Adran Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin o'r farn y gallai fod yn drychineb os ceir gwared ar y cydestun lleol wrth wneud penderfyniadau. Roedd hefyd yn credu ei fod yn tanseilio egwyddorion

³⁴⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 193-194

³⁴⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 197.

³⁴⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 77-78

³⁴⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), paragraff 3.280 a 3.282, 1 Tachwedd 2020

sybsidiaredd, ymreolaeth leol a phwyslais sydd i'w gweld yn y Cwricwlwm newydd. Awgrymodd yr Adran Addysg y gellid dadlau hefyd ei fod yn awgrymu "nod gwleidyddol dichellgar i danseilio rôl Awdurdodau Lleol a'u hysgolion fel darparwyr addysg drydyddol". Aeth ymlaen i ddweud yr "atgyfnerthir y goblygiad hwn drwy ddileu'r chweched dosbarth o sawl agwedd ar y ddeddfwriaeth, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â diogelu ac ymgysylltu â dysgwyr."³⁴⁹ Cododd Cyngor y Gweithlu Addysg bryderon y gallai pwerau'r Comisiwn dros y chweched dosbarth arwain at ddileu atebolrwydd lleol am yr elfen unigryw hon o ddarpariaeth addysg.³⁵⁰ Cytunodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru gan ddweud ei fod yn tanseilio democratiaeth a chynrychiolaeth leol.³⁵¹

344. Roedd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig hefyd yn pryderu mai canlyniad anfwriadol y Bil fyddai cau chweched dosbarth traddodiadol, a hynny o blaid darpariaeth mewn colegau addysg bellach. Dywedodd y byddai hyn yn lleihau amrywiaeth yn ogystal ag effeithio ar y cymunedau lleol sy'n cael eu cefnogi gan ysgolion Catholig ac yn effeithio ar allu ysgolion i gynnig cenhadaeth ddinesig.³⁵² Pryderai nad yw anghenion dysgwyr sydd am barhau mewn ysgol eglwysig wedi cael eu hystyried yn briodol. Cytunodd Grŵp Datblygu Ôl-16 Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, gan ddweud ei fod yn gobeithio am gyfle cyfartal i'r myfyrwyr hynny sy'n dymuno cael darpariaeth o fewn lleoliad ysgol eglwys.³⁵³ Cefnogwyd hyn hefyd gan Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Sant Joseff.³⁵⁴

345. Roedd NASUWT hefyd yn pryderu, gan sôn ei fod wedi cynghori o'r blaen y dylai rôl y Comisiwn gael ei chyfyngu i gofrestru ac adrodd ac na ddylai gynnwys cynllunio, ariannu a monitro chweched dosbarth ysgolion.³⁵⁵ Roedden nhw hefyd yn pryderu y gallai arwain at anhrefn a dryswch, a bod y cynigion yn fwy dryslyd na'r sefyllfa bresennol.³⁵⁶ Roedd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru yn pryderu'n fawr am y pwerau hyn, gan sôn am y rôl y mae dysgwyr chweched dosbarth yn ei chwarae yng nghymuned ehangach eu hysgolion.³⁵⁷ Yng ngoleuni'r effeithiau ehangach ar bobl ifanc ar draws y sector ysgolion, roedd yr Undeb yn credu ei fod yn bŵer amhriodol.³⁵⁸ Dywedodd NAHT Cymru ei fod yn pryderu'n fawr am y

³⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 20, Adran Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin, paragraff 1.2

³⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 13, Cyngor y Gweithlu Addysg

³⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 14, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

³⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 17, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

³⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 19 Grŵp Datblygu Ôl-16 Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

³⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 37 Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Sant Joseff

³⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 04, NASUWT, paragraff 23

³⁵⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 425

³⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 14, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

³⁵⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 403

pwerau hyn a'i fod yn cefnogi'r consensws amlwg yn yr ymateb i'r Bil drafft y dylai'r ffactorau sy'n sbardun i'r Comisiwn gychwyn proses ad-drefnu chweched dosbarth gael eu diffinio'n glir ac y dylent fod yn destun ymgynghoriad llawn.³⁵⁹

346. Dywedodd UCAC fod ganddo bryderon sylweddol am y cynigion hyn, gan ddatgan ei fod wedi crybwyll y pryderon mewn ymgynghoriadau blaenorol. Dywedodd hefyd fod y defnydd o'r term "rhesymoli" yma ac mewn mannau ar wyneb y Bil ei hun yn gwbl ymfflamychol ac annerbyniol. Yn ôl UCAC, ar gyfer staff chweched dosbarth, hyd yn oed os nad dyna'r bwriad, bydd yr iaith yma'n golygu dim ond un peth, sef cau chweched dosbarth. Ychwanegodd yr Undeb ei fod yn teimlo bod y pwerau hyn yn ymyrryd i raddau amhriodol, ac nad oes pwerau tebyg i unrhyw sectorau eraill.³⁶⁰

347. Soniodd Comisiynydd y Gymraeg am y rôl bwysig y mae'r chweched dosbarth yn ei chwarae i addysg cyfrwng Cymraeg gan alluogi disgyblion "wrth gynnal a datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion sydd wedi derbyn eu haddysg statudol drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfrannu at ethos Gymraeg yr ysgolion hynny". Dywedodd ei bod yn bwysig bod gan y Comisiwn "ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad" o bwysigrwydd chweched dosbarth mewn ysgolion Cymraeg.³⁶¹ Pwysleisiodd UCAC fod y chweched dosbarth yng Nghymru yn parhau â'r "model trochi, sy'n fethodoleg mor effeithiol ar gyfer datblygu sgiliau ieithyddol"³⁶². Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mai darpariaeth chweched dosbarth yw'r unig le y gall dysgwyr gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn llawer o leoedd.³⁶³ Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â hyn, gan ddweud bod angen bod yn ymwybodol mai dyma'r sefyllfa mewn rhai meysydd.³⁶⁴ Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fod angen cadw cydbwysedd o fewn y broses i sicrhau bod yr effaith ar yr iaith yn lleol yn cael ei hystyried, ynghyd â'r effaith ar gyflawni strategaeth Cymraeg 2050.³⁶⁵

348. Dywedodd ColegauCymru fod angen i'r Bil drin yr holl ddarpariaeth 16-i-19 ar sail yr hyn sydd er lles gorau dysgwyr. Gwnaethant sôn am bwysigrwydd:

"... the fundamental independence of the commission to oversee a system in which decisions are made on the basis of what is in the best interests of

³⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 40, NAHT Cymru

³⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 46, UCAC, paragraffau 6.4.2-6.5

³⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 03, Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 2.4

³⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 46, UCAC, paragraff 6.9

³⁶³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 508

³⁶⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 515

³⁶⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 520

learners, rather than trying to find ways in which to protect or insulate specific types of provider."³⁶⁶

349. Roedd CLILC yn cytuno â hyn, gan ddweud mai'r flaenoriaeth yw sicrhau'r llwybr cywir ar gyfer y dysgwr, boed yn chweched dosbarth mewn ysgol neu'n addysg bellach.³⁶⁷ Roedd y Gymdeithas hefyd yn galw am sicrwydd y bydd lefelau presennol y cyllid ar gyfer chweched dosbarth a dysgu oedolion yn y gymuned yn cael eu cynnal ar y cyfraddau presennol o leiaf.³⁶⁸

350. Dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai cynnwys y chweched dosbarth o fewn cylch gorchwyl y Comisiwn yn galluogi'r Comisiwn i fod yn strategol wrth arolygu. Roedd yn credu y byddai hefyd yn galluogi model economi gymysg yn y ddarpariaeth gan gynnig dewis amrywiol i'w barhau gan ganiatáu dull cydlynol ar gyfer cynllunio a chyllido. Dywedodd na fydd y Bil yn effeithio ar awdurdodau lleol nac ysgolion unigol o ran eu trefniadau rheoli o ddydd i ddydd na'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer hyn. Mewn achosion lle mae'r Comisiwn yn cynnig newidiadau, bydd yn rhaid iddo weithredu yn unol â'r cod trefniadaeth ysgolion. Dywedodd y Gweinidog fod y Cod wedi'i gymeradwyo gan y Senedd a bod hyn yn parhau i fod yn drefniant democrataidd os metha popeth arall. Credai fod y pŵer hwn yn ddewis olaf na chaiff ei ddefnyddio'n ddelfrydol, gan ddarparu'r cydbwysedd cywir.³⁶⁹

351. Wrth ymateb i bryderon UCAC am y defnydd o resymoli o fewn y Bil, dywedodd fod y term "rhesymoli" yn cael ei ddefnyddio yn y ddeddfwriaeth bresennol, ac mai dyna pam y mae'r ymadrodd hwnnw'n berthnasol.³⁷⁰ Aeth yn ei flaen i ailddatgan nad oedd y termau hyn wedi'u defnyddio â'r bwriad o awgrymu y dylid cau neu leihau chweched dosbarth, ond yn hytrach mai'r bwriad oedd awgrymu y dylid dod â gwell trefn ar bethau, gan sicrhau bod darpariaeth chweched dosbarth yn synhwyrol ac yn gydlynol.³⁷¹

352. Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd fod y sector ar y cyfan wedi bod o blaid cynnwys y chweched dosbarth o fewn cylch gorchwyl y Comisiwn, ac y bydd yn helpu i hyrwyddo datblygiad gweithlu mwy cydlynol, dysgu proffesiynol ac arfer gorau, ond hefyd i sicrhau taith ddi-dor rhwng y cyfnod cyn-16 a'r cyfnod ôl-16.³⁷²

³⁶⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 323

³⁶⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 325

³⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 01, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, paragraff 13

³⁶⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 106-107

³⁷⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 105

³⁷¹ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Chwefror 2022

³⁷² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 207

Pwerau cyllido Gweinidogion Cymru

353. Cododd CCAUC bryderon am adran 86, a galwodd iddi gael ei dileu o'r Bil. Yn ôl CCAUC, os oes bylchau strategol yn y ddarpariaeth, dylai'r Comisiwn gael y cyllid sydd ei angen a defnyddio ei bwerau i gyllido darparwyr, dylanwadu arnynt a'u rheoleiddio. Yn ogystal ag esgor ar risg i ddarpariaeth gyllido'r Comisiwn lle nad oes ganddo oruchwyliaeth reoleiddiol, teimlai fod yr adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau i ariannu darpariaeth a allai danseilio sefyllfa strategol y Comisiwn.³⁷³ Roedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn rhannu'r pryderon hyn. Dywedodd y Brifysgol, os yw Llywodraeth Cymru yn gallu pennu cyllid ar gyfer cyrsiau neu waith ymchwil penodol, yna byddai'n tanseilio annibyniaeth prifysgolion Cymru ac yn eu rhoi dan anfantais ddifrifol o gymharu â gweddill y DU.³⁷⁴

354. Roedd gan CCAUC bryderon hefyd ynghylch pwerau Gweinidogion Cymru i gyllido ymchwil addysg uwch yn uniongyrchol. Dywedodd, os mai'r Comisiwn sy'n gyfrifol am y cyllid strategol, dyna ddylai fod yr unig sianel gyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer y darparwyr hynny.³⁷⁵ Credai y byddai hyn yn tanseilio arweinyddiaeth strategol y Comisiwn, yn ogystal â'i allu i weithredu ar lefel y DU, yn ogystal â thanseilio'r egwyddor hyd braich sy'n sicrhau bod gwaith ymchwil mewn addysg uwch yn rhydd rhag cael ei ddylanwadu neu ei reoli'n uniongyrchol gan y Llywodraeth. Galwodd i'r pwerau cysylltiedig mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth y DU gael eu diddymu neu, os cedwir y pwerau, i ddiwygiadau gael eu cyflwyno i'r darnau presennol o ddeddfwriaeth i gynnwys ymrwymiad cyfreithiol i'r Llywodraeth gynnwys y Comisiwn wrth benderfynu sut y mae'n dyrannu cyllid ymchwil addysg uwch. Roedd hefyd yn pryderu bod y Llywodraeth yn meddu ar y gallu i gyfeirio cyllid i feysydd ymchwil penodol gan arwain at risg o leihau cyllid capasiti ymchwil yn gyffredinol er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau tymor byr.³⁷⁶

355. Dywedodd CCAUC, o dan yr amgylchiadau lle roedd angen darparu cyllid yn uniongyrchol, ei bod yn rhesymol disgwyl yr ymgynghorir â'r Comisiwn, gan ofyn i'r Comisiwn roi cyngor cyn i'r penderfyniadau cyllido gael eu gwneud.³⁷⁷

356. Galwodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru am ddiwygiadau i'r Bil i gyfyngu ar bwerau Gweinidogion Cymru i gyllido prifysgolion yn uniongyrchol, gan ddweud

³⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 32, CCAUC, paragraff 2.18](#)

³⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 21 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 6.2](#)

³⁷⁵ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 298](#)

³⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 32, CCAUC, paragraffau 2.9-2.12](#)

³⁷⁷ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 298](#)

nad oes unrhyw gyfyngiadau o gwbl i'r pŵer hwn ar hyn o bryd. Fe ddywedon nhw y dylai pwerau o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau sy'n berthnasol i'r Comisiwn wrth gyllido ddarparwyr. Roeddent hefyd yn pryderu na fydd Gweinidogion Cymru bellach yn cael eu gwahardd rhag pennu cyrsiau neu feysydd ymchwil penodol wrth osod telerau ac amodau ar gyllid y Comisiwn. Nid oeddent wedi'u hargyhoeddi bod esboniad digonol wedi'i roi am newidiadau o'r fath, a chredent y byddai'n peri risgiau i ryddid academiaidd a rôl strategol y Comisiwn.³⁷⁸

357. Roedd gan Brifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru bryderon am y bylchau o ran cyfyngiadau'r pwerau a drosglwyddwyd yn y Bil i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn wrth osod telerau ac amodau ar gyllid. Nid oeddent yn credu y cwmpesir y pwerau hyn yn llawn gan y ffaith yr estynnwyd y dyletswyddau cyffredinol mewn perthynas â chydawnsedd â chyfraith elusennau a rhyddid academiaidd.³⁷⁹

358. Roedd gan CCAUC hefyd bryderon ynghylch pwerau Gweinidogion Cymru i gyllido addysg bellach a hyfforddiant o dan adrannau 94-100. Pryderai, gyda'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru ill dau yn rhannu pwerau cyllido y gellid eu defnyddio ar yr un pryd, fod risg y ceid blaenoriaethau strategol aneglur, gan wneud llinellau atebolrwydd yn aneglur a chan ychwanegu cymhlethdod diangen i ddarparwyr.³⁸⁰

359. Wrth ymateb i bryderon am y pwerau cyllido deuol ar gyfer addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant, dywedodd y Gweinidog fod y rhain yn cyd-fynd â'r pwerau sydd yn eu lle ar hyn o bryd wrth gyllido rhai agweddau. Dywedodd fod hwn yn bŵer penodol gyda ffocws ar gymwysterau proffesiynol. Eglurodd y Gweinidog:

*"Mae'r pwerau o ran pethau sydd yn arwain at gymwysterau penodol yn gorwedd o fewn cwrpas gwaith y comisiwn, ac mae pethau sydd yn y maes employability yn dal yn nwylo y Llywodraeth. Felly, dyna'r dyraniad bras. Os edrychwch chi, er enghraifft, ar Jobs Growth Wales, gwaith Working Wales, mae elfennau o'r rheini sy'n gofyn am ariannu uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, ac mae cynnal y pwerau ariannu hynny felly yn caniatáu i ni barhau i ddarparu'r math yna o gynllun."*³⁸¹

³⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraffau 7.13-7.14

³⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 7.10

³⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32, CCAUC, paragraff 2.4

³⁸¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 144

Cydbwysedd cyllid a thryloywder

Cydbwysedd cyllid

360. Cafwyd galwadau gan randdeiliaid am ddyletswydd gyllido gytbwys, gan gynnwys Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru a ddywedodd fod y ddyletswydd hon yn un angenrheidiol.³⁸² Roedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn pryderu i ba raddau y bydd y Comisiwn yn gallu cydbwysu ei dyletswyddau ar draws ystod lawn ei gyfrifoldebau. Roedd yn annog i'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys egwyddor cyllido cytbwys i sicrhau trefniadau cyllido clir, teg a thryloyw ar draws dyletswyddau'r Comisiwn.³⁸³

361. Soniodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru am y ffaith bod cynsail eisoes ar gyfer egwyddor o'r fath mewn deddfwriaeth addysg uwch yn y DU, a chredent y gallai hyn fod o gymorth wrth lunio'r geiriad ynghylch sut y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn sicrhau darpariaeth resymol wrth sicrhau cydbwysedd wrth ddyrannu cyllid rhwng gwahanol swyddogaethau'r Comisiwn, gan gynnwys cyllido addysg bellach a hyfforddiant, addysg uwch, ac ymchwil ac arloesi.³⁸⁴

362. Dywedodd CCAUC hefyd y dylai fod rhwymedigaeth i'r Comisiwn gynnal cydbwysedd cyllidol rhesymol. Dywedodd y Cyngor Cyllido y bydd cadw cydbwysedd o'r fath yn bwysig er mwyn sicrhau sefydlogrwydd wrth ddyrannu cyllid, yn enwedig yng nghamau cynnar y Comisiwn.³⁸⁵

363. Galwodd y Sefydliad Dysgu a Gwaith ar y Comisiwn i gydbwysu'r buddsoddiad a wneir ar draws y sector i sicrhau bod dysgu'n hygyrch. Dywedodd y Sefydliad fod yn rhaid i gyllid ddarparu cyfleoedd priodol o fewn cymunedau yn ogystal â gweithgareddau allgymorth ac ymgysylltu; cyngor a chanllawiau; a chyfrifoldeb am bob rhan o'r sector i ehangu lefelau cyfranogiad ymhlith grwpiau a dangynrychiolir.³⁸⁶

364. Roedd Cymdeithas Ddysgedig Cymru o'r farn y byddai dyletswydd gyllido gytbwys, ynghyd â chryfhau'r dyletswyddau strategol ynghylch ymchwil ac arloesi, yn cydnabod Cyllid Ymchwil o Ansawdd pwysig ac yn ei ddiogelu. Roedd y Gymdeithas yn disgrifio Cyllid Ymchwil o Ansawdd fel y sylfaen y dibynnir arni gan ffrydiau cyllido cystadleuol ar gyfer prosiectau o

³⁸² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 217.

³⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 21 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraffau 5.1-5.2

³⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 7.3

³⁸⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 318.

³⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 26, Y Sefydliad Dysgu a Gwaith

ffynonellau eraill.³⁸⁷ Caiff hyn ei drafod yn fanylach yn yr adran flaenorol ar gyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi.

Tryloywder

365. Pwysleisiodd Colegau Cymru bwysigrwydd tryloywder ar draws y systemau cyllido. Roeddent yn deall yr angen am systemau cyllido gwahanol ar gyfer gwahanol rannau o'r sector, ond dywedodd fod angen digon o dryloywder fel bod holl elfennau'r sector ôl-16 yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn gyfartal.³⁸⁸

366. Wrth drafod y wybodaeth ariannol a rennir gan sefydliadau o dan adran 78, cododd CCAUC bryderon ynghylch i ba raddau y gall y Comisiwn wedyn rannu'r wybodaeth hon â Gweinidogion Cymru. Dywedodd y Cyngor Cyllido y gallai natur gyfrinachol a masnachol-sensitif y wybodaeth hon yn aml arwain at amharodrydd gan ddarparwyr i rannu gwybodaeth os gellir ei rhannu wedyn â Gweinidogion Cymru. Galwodd i'r Bil gael ei ddiwygio fel mai dim ond gofyniad i rannu crynodeb rhesymol a gynhwysir. Credai y byddai hyn yn taro cydbwysedd rhwng rhoi sicrwydd i Weinidogion Cymru a galluogi'r Comisiwn i gyflawni ei gyfrifoldebau.³⁸⁹

367. Rhannwyd y pryderon hyn gan Brifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgol Cymru. Dywedon nhw fod rhannu gwybodaeth fasnachol-sensitif yn ystod y cylch recriwtio neu gyflwyno gwybodaeth ariannol heb gyd-destun yn gallu arwain at fantais neu anfantais i ddarparwyr mewn ffordd sy'n anghydnaws â chyfraith cystadleuaeth.³⁹⁰

368. Wrth ymateb i'r galwadau am ddyletswydd gyllido gytbwys, soniodd y Gweinidog am y cysylltiad rhwng cyllid cytbwys a thryloywder. Dywedodd fod y Bil wedi'i ysbrydoli gan enghreifftiau ar draws y byd, gan gynnwys Seland Newydd, sydd â lefel uchel o dryloywder ynghylch dyraniadau cyllideb ar draws gwahanol rannau o'r sector. Credai fod y trefniadau presennol eisoes yn dryloyw iawn, a dywedodd fod CCAUC yn gosod enghraifft dda iawn yn y maes hwn. Dywedodd fod mater tryloywder yn un o'r meysydd yr oedd yn ceisio'u hystyried o ran newidiadau posibl i'r Bil.³⁹¹

Cydweithio a chydysniad

369. Soniodd CCAUC am ei brofiadau, gan ddweud nad yw rheoleiddio yn arf effeithiol i annog cydweithio, a bod cyllid gyda thelerau ac amodau priodol yn fwy effeithiol. Dywedodd hefyd

³⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 25, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, paragraff 6.3

³⁸⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 341-342

³⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 32, CCAUC, paragraff 2.23

³⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 9

³⁹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 58

nad yw'n cymeradwyo'r rhan fwyaf o'r trefniadau pan fo cyllid yn cael ei drosglwyddo i eraill gan sefydliadau. Maen nhw'n defnyddio'r telerau ac amodau cyllido sy'n darparu darlun clir o'r sefyllfa.³⁹²

370. Clywsom bryderon ynghylch sut y gallai rhai o'r darpariaethau fod yn rhwystr sylweddol i gydweithio. Yn arbennig felly mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi; a darpariaeth hyfforddiant a phrentisiaethau. Dywedodd CCAUC fod y darpariaethau hyn yn rhy ragnodol, gan ychwanegu nad yw'n ymddangos eu bod yn cwmpasu pob senario cydweithredol posibl. Dywedodd fod y darpariaethau'n feichus ac y bydd yn anodd i'r Comisiwn a darparwyr gadw atynt. Roedd y Cyngor Cyllido hefyd yn pryderu am bwerau Gweinidogion Cymru i osod y paramedrau ar gyfer cymeradwyo darpariaethau. Galwodd i'r ddeddfwriaeth fod ar lefel uwch, ac i'r manylion gael eu cynnwys yn nhelerau ac amodau'r cyllid.³⁹³ Dywedodd y Gymdeithas Ddysgedig y gallai'r darpariaethau fod yn rhwystr i gydweithio effeithiol, a galwodd am brosesau tryloyw ac effeithlon i osgoi hyn.³⁹⁴

371. Roedd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd bryderon am y gofyniad am gydsyniad, gan grybwyll y graddau y cydweithredir o fewn prifysgolion wrth iddynt weithio gyda miloedd o bartneriaid, ac y byddai cwmpas a graddfa'r gofyniad ychwanegol hwn yn achosi baich gormodol ac y byddai'n debygol o leihau cydweithio.³⁹⁵ Roedd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru yn rhannu'r pryderon am hyn, gan sôn am y profiadau yn Lloegr, lle cyflwynwyd gofyniad mwy cyfyngedig am gydsyniad, ond sydd bellach wedi'i leihau yn dilyn ymgynghoriad. Roeddent yn cytuno â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd y byddai'n creu rhwystrau ac y gallai o bosibl annog busnesau i flaenoriaethu'r gweithgaredd hwnnw mewn mannau eraill yn y DU. Roeddent yn cwestiynu a oedd angen cynnwys y gofyniad cydsyniad o fewn y Bil o gwbl, gan ddweud bod gan y Comisiwn ddigon o hyblygrwydd drwy'r telerau ac amodau. Roeddent yn galw am ddiwygio'r pwerau hyn i sicrhau nad oes yn rhaid i'r Comisiwn gytuno'n unigol ar bob cytundeb cydweithredol posibl neu bob math o gydweithio.³⁹⁶

372. Galwodd Colegau Cymru am ragor o wybodaeth am y darpariaethau hyn gan ddweud ei bod yn ddilys i gyllid beidio â chael ei drosglwyddo i ddarparwyr eraill lle nad oes unrhyw fath o atebolrwydd. Roeddent eisiau gwybod ar ba drothwy y byddai'r darpariaethau hyn yn gymwys, gan ddweud bod colegau addysg bellach ar hyn o bryd yn cydweithio â cholegau a darparwyr

³⁹² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 317 a 320

³⁹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 321

³⁹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 292

³⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 21 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 6.4

³⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraffau 7: 7.16-7.17; 7.21

eraill mewn ffyrdd dilys, a hynny'n aml gyda symiau bach iawn o gyllid. Dywedodd ColegauCymru y byddai angen i'r prosesau fod yn ymatebol ac yn gymesur.³⁹⁷

373. Defnyddiodd ColegauCymru enghraifft go iawn i ddangos sut y mae'r sector yn aml yn gorfod ymateb yn gyflym i amgylchiadau:

*"... working with the private sector, for example, the latest crisis has been in terms of heavy goods vehicle drivers. We've used the extra personal learning accounts funding now and worked in collaboration as a college with local HGV trainers in order to provide them with funding to try and solve some of this problem. So, I think we need flexibility here if we're going to react quickly to certain problems. We need flexibility to be able to commission, and I think please let's not inhibit that because it can work very, very effectively."*³⁹⁸

374. Soniodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru am y ffordd y mae'r fframweithiau prentisiaethau yn cael eu comisiynu ar hyn o bryd, gan ddweud bod cyflwyno'r darpariaethau cydsyniad yn rhwstr i'r hyn a allai fod yn system heb adnoddau digonol. Dywedodd nad oedd angen eu cyflwyno nawr nac mewn unrhyw raglenni prentisiaethau yn y dyfodol.³⁹⁹ Galwodd y Ffederasiwn hefyd am brosesau nad ydynt yn dyblygu amser, egni nac arian cyhoeddus ar bethau sy'n cael eu darparu mewn mannau eraill yn y system.⁴⁰⁰

375. Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd y darpariaethau cydsyniad yn rhwstr:

*"actually, in substance, it extends collaboration in the following way: the commission will not have a direct regulatory or funding relationship with collaborating bodies ... what the mechanism provides is an extension of that funding beyond the direct relationship into third parties, so it enhances that ability to collaborate ... there is some mechanism for that to be consented, just on the basis of value for money and public funding principles ..."*⁴⁰¹

³⁹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 289 a 294

³⁹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 291

³⁹⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 37

⁴⁰⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 11

⁴⁰¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 188

Safbwynt y Pwyllgor

Cytundebau canlyniadau

376. Roedd amryfal safbwyntiau mewn perthynas â'r cytundebau canlyniadau, ac rydym yn nodi'r ffaith honno. Mae'n amlwg bod yn rhaid i'r cytundebau canlyniadau fod yn ystyrlon, ac ni ddylent fod yn ddim ond prosesau biwrocraidd. Dylid cael cydnabyddiaeth, dealltwriaeth a diogelwch clir o nodweddion unigryw sefydliadau unigol wrth weithredu cytundebau canlyniadau.

Dysgu gydol oes a dysgu oedolion

377. Rydym yn credu y dylai fod ymrwymiad clir i gynnig cyfleoedd dysgu gydol oes i bobl ledled Cymru, waeth beth fo'u hoedran. Rydym yn pryderu y gallai'r darpariaethau presennol greu rhwystrau i bobl rhag manteisio ar gyfleoedd o'r fath. Mae cymdeithas a'r byd gwaith yn newid yn gyflym, gyda phobl yn aml naill ai'n dymuno, neu'n gorfod, newid swyddi, ac angen ailsigilo. Mae'n gwestiwn sylfaenol o gydraddoldeb rhwng grwpiau gwahanol o bobl. Nid ydym yn credu ei bod yn glir pam na ddylai'r cynnig dysgu gydol oes fod yn llawer ehangach ac yn fwy blaengar.

378. Hoffem gael rhagor o eglurder gan y Gweinidog mewn perthynas â'r corff cenedlaethol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned (gweler paragraff 325). Ymddengys fod y dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r corff hwn yn cael ei ddatblygu bellach, ond hoffem gael ateb pendant gan y Gweinidog ar hyn.

Argymhelliad 24. Bod y Gweinidog yn rhoi eglurder llwyr ynghylch a fydd corff cenedlaethol yn cael ei sefydlu ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned.

Cydbwyso cyllid a thryloywder

379. Mae'r Comisiwn yn mynd i gael cylch gwaith hynod o eang, ac ni fydd y gyllideb y bydd yn gyfrifol amdani ond yn ail i rai o ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Bydd y Comisiwn yn meddu ar y gallu i gyflwyno darpariaeth sy'n effeithio ar lawer o feysydd datganoledig. Gyda chyfrifoldeb mor eang, gallwn ddeall pryderon ynghylch sicrhau nad yw rhai adrannau o'r sector ôl-16 yn cael eu colli yn y maes hwn neu, oherwydd realiti trefniadau cyllido, fod rhai adrannau'n canfod eu hunain yn cael lefel o adnoddau sy'n is i raddau anghymesur yn y dyfodol gan fod y Bil yn gosod dyletswyddau ar y Comisiwn i flaenoriaethu sicrhau addysg bellach a hyfforddiant priodol.

380. Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y bydd dyletswydd gyllido gytbwys, ynghyd â gwybodaeth dryloyw am gyllid, yn helpu i leddfu'r pryderon hyn, ac yn helpu'r Comisiwn i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau strategol ar draws ehangder llawn y sector ôl-16.

381. Dylai'r ddyletswydd gael ei hategu gan dryloywder ynghylch trefniadau cyllido. Rydym yn nodi bod hyn eisoes ar waith mewn perthynas â chyllid CCAUC, a nododd bob manylyn o'i ddyraniadau cyllid i ddarparwyr a'r methodolegau a ddefnyddiwyd, ond mae llawer llai o dryloywder mewn rhannau eraill o'r sector ôl-16 lle mae Llywodraeth Cymru ei hun yn eu rheoleiddio ac yn eu cyllido. Mae llawer o'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn deillio o bwyllgorau'r Senedd yn gofyn am y wybodaeth hon wrth graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Nid yw hyn yn dderbyniol, a dylai llawer mwy o'r wybodaeth hon fod yn gyhoeddus fel mater o drefn. Mae tryloywder trefniadau ariannu yn hanfodol i allu craffu'n effeithiol ar Lywodraeth Cymru a'r sector ac i alluogi darparwyr i gynllunio eu darpariaeth gyda mwy o hyder a llai o risg. Nid oes unrhyw reswm pam na ddylai fod mwy o dryloywder, a hynny o leiaf i'r safonau presennol a ddangosir gan CCAUC. Mae cefnogaeth eang hefyd o fewn y sector ar gyfer lefelau uwch o dryloywder.

382. Byddem hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod gofynion drwy gydol y Bil i'r Comisiwn gyhoeddi ystod eang o wybodaeth wrth gyflawni ei ddyletswyddau, a chredwn fod diffyg dyletswydd debyg mewn perthynas â phenderfyniadau cyllido yn agwedd anghyson y mae'n rhaid ei hunioni.

Argymhelliad 25. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd gyllido gytbwys ar wyneb y Bil.

Argymhelliad 26. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswyddau ar y Comisiwn i gyhoeddi manylion, fan leiaf, ei ddyraniadau cyllid; ei fethodolegau cyllido; ei fformiwlâu ariannu; a'i alldro cyllidol, yn ogystal â gosod dyletswydd i fod yn dryloyw yn ei benderfyniadau cyllido.

Cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi

383. Rydym yn nodi'r dystiolaeth sy'n trafod pwysigrwydd y systemau cyllido presennol ar gyfer cyllid ymchwil ac arloesi. Byddem yn tynnu sylw Llywodraeth Cymru at y galwadau am weithredu adolygiadau Reid a Diamond yn llawn. Ni fyddem am weld unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil hwn a fyddai'n gwanhau gallu'r sector yng Nghymru i wneud ceisiadau llwyddiannus am gyllid ymchwil ac arloesi ar lefel y DU.

384. Rydym hefyd yn credu y dylai fod gan y Comisiwn ryddid pellach i ddarparu cyllid ymchwil i ystod gyfyngedig o gyrff anghofrestredig. Byddai'r rhestr o gyrff cymwys o blith Ymchwil ac

Arloesi yn y DU yn ymddangos yn fan cychwyn priodol ar gyfer llunio rhestr briodol ar gyfer Cymru, a byddai'n helpu i leihau'r risgiau a allai godi o'r Comisiwn yn cyllido sefydliadau y tu allan i'w gylch gwaith rheoleiddiol.

Argymhelliad 27. Bod gwelliannau'n cael eu cyflwyno yng Nghyfnod 2 i alluogi'r Comisiwn i ddarparu cronfa ymchwil ac arloesi i ystod gyfyngedig o gyrff anghofrestredig.

Pwerau cyllido Gweinidogion Cymru

385. Rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid ynghylch graddau'r pwerau cyllido sydd gan Weinidogion Cymru mewn manau penodol yn y Bil. Rydym hefyd yn nodi eglurhad y Gweinidog bod y pwerau cyllido hyn yn rhai penodol ac nid yn rhai cyffredinol. Credwn felly y dylai'r Bil wneud hyn yn glir i sicrhau nad oes unrhyw ddryswch na gor-ddefnydd posibl ar bwerau yn y dyfodol.

Argymhelliad 28. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i dynnu gwahaniaeth clir rhwng pwerau Gweinidogion Cymru i gyllido darparwyr addysg drydyddol yn uniongyrchol i gynnig darpariaeth cyflogadwyedd, a phwerau cyllido ehangach y Comisiwn.

Y Chweched Dosbarth

386. Rydym yn nodi teimladau cryf rhai o'r rhanddeiliaid am y darpariaethau ynghylch y chweched dosbarth. Er ein bod yn croesawu cynnwys y chweched dosbarth o fewn cylch gwaith y Comisiwn i helpu i gyflawni taith ddi-dor y dysgwr, sy'n un o brif nodau'r ddeddfwriaeth, rydym yn deall y pryderon a godwyd.

387. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y pŵer hwn i'w ddefnyddio os metha popeth arall, sy'n codi'r cwestiwn, os yw'n annhebygol y bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio, a ddylai gael ei gynnwys yn y Bil? Mae'r chweched dosbarth yn chwarae rhan bwysig, yn enwedig o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a darpariaeth o fewn cyd-destun crefyddol. Credwn y dylai mesurau diogelu ychwanegol, er enghraifft, prosesau cadarn i asesu'r effaith, fod wedi'u rhoi ar waith i osgoi sefyllfa lle gallai'r Comisiwn geisio ad-drefnu a allai gael effaith andwyol ar wireddu Cymraeg 2050 neu leihau'r ddarpariaeth mewn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol. Ni ddylid gwneud y penderfyniadau hyn yn groes i ewyllys yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu.

Argymhelliad 29. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu mesurau diogelu ychwanegol i sicrhau nad yw unrhyw gynlluniau a gyflwynir gan y Comisiwn ar gyfer newidiadau i ddarpariaeth chweched dosbarth yn cael effaith andwyol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg na darpariaeth mewn lleoliad ysgol grefyddol.

Cydweithio a chydsyniad

388. Roedd pryderon amlwg ynghylch effaith adran 105 o'r Bil⁴⁰² ar gydweithio. Roedd enghraifft ColegauCymru o'r angen i fod yn ymatebol wrth ddatblygu sgiliau gyrru Cerbydau Nwyddau Trwm yn astudiaeth achos effeithiol o'r modd y mae angen i'r sector allu ymateb yn ystwyth i ddigwyddiadau. Rydym yn nodi bod diwydrwydd dyladwy eisoes ar waith yn y system bresennol, a bod yn rhaid i'r prif gyfrifoldeb fod ar y sefydliad sy'n trosglwyddo'r cyllid. Nid ydym am weld rhwystrau diangen yn cael eu rhoi ar waith a allai leihau cydweithio a chydsyniad neu a allai amharu ar allu'r sector i ymateb i ddigwyddiadau.

Argymhelliad 30. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adran 105, a'i fod yn nodi dull gwahanol o reoli diwydrwydd dyladwy pan fydd cyllid yn cael ei drosglwyddo i drydydd partion.

⁴⁰² Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gydsyniad y Comisiwn gael ei roi cyn y gellir trosglwyddo ei gyllid i drydydd partion.

7. Rhan 4: Prentisiaethau

Mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Comisiwn mewn perthynas â phrentisiaethau, ac mae Gweinidogion Cymru yn parhau i gadw rhai pwerau. Credwn ei bod yn briodol rhannu'r pwerau hyn.

389. Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer prentisiaethau Cymreig cymeradwy. Prentisiaethau yw'r rhain sy'n digwydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru yn unol â'r fframweithiau prentisiaethau a gyhoeddir gan y Comisiwn.

390. Mae adran 107 yn diffinio ystyr "prentisiaeth Gymreig gymeradwy" fel trefniant sy'n digwydd o dan gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy.

391. Mae adran 108 yn diffinio ystyr "cytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy" fel cytundeb sy'n darparu i berson weithio am gydnabyddiaeth mewn galwedigaeth y mae fframwaith prentisiaeth cyhoeddedig perthnasol mewn grym ar ei chyfer.

392. Mae adran 109 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ganiatáu i brentisiaeth gael ei thrin fel prentisiaeth Gymreig gymeradwy o dan amgylchiadau penodol.

393. Mae adran 110 yn diffinio ystyr "fframwaith prentisiaeth" fel dogfen sy'n nodi'r amodau y mae angen eu bodloni i gyflawni prentisiaeth Gymreig gymeradwy.

394. Mae adran 111 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu gofynion prentisiaethau Cymreig cymeradwy a datblygiad y fframwaith prentisiaeth. Mae adran 112 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y gofynion a bennir o dan adran 111.

395. Mae adran 113 yn caniatáu i'r Comisiwn lunio fframweithiau prentisiaethau, neu i berson arall eu llunio. Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi unrhyw fframweithiau prentisiaethau, a rhaid iddo barhau i adolygu fframweithiau sydd wedi'u cyhoeddi, a'u hadolygu neu eu tynnu'n ôl pan fydd o'r farn bod hynny'n briodol.

396. O dan adran 114 rhaid i'r Comisiwn gynnal a chyhoeddi cofrestr o fframweithiau prentisiaethau a gyhoeddir o dan adran 113.

397. Mae adran 115 yn rhoi pwerau i'r Comisiwn ddyroddi tystysgrifau i'r rhai sydd wedi cwblhau prentisiaeth Gymreig.

398. Mae adran 116 yn caniatáu i'r Comisiwn ddirprwyo i berson arall ei bŵer i gyhoeddi fframweithiau prentisiaethau o dan adran 113; ac i ddirprwyo ei bŵer i ddwyroddi fframweithiau prentisiaethau o dan adran 115. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiwn dalu symiau naill ai i dalu am wariant yr aed iddo, neu wariant yr eir iddo, gan bobl wrth arfer y swyddogaethau dirprwyedig o dan yr adran hon.

399. Mae adrannau 117-120 yn ymdrin â materion technegol megis darpariaethau aneffeithiol mewn cytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy; peidio â thrin cytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy fel contract prentisiaeth; trosglwyddo hawlfraint o'r awdur i'r Comisiwn pan gyhoeddir fframwaith gan y Comisiwn; a gallu gweision y Goron i ymgymryd â phrentisiaethau.

Trefniadau rheoli strategol ar gyfer y system brentisiaethau

400. Yn ôl ColegauCymru, os yw'r Comisiwn am gyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol, mae'n hanfodol y gall y Comisiwn fynd i'r afael â'r mater o ddarparu cymwysterau technegol a galwedigaethol i helpu'r sector addysg bellach i weithio'n fwy effeithlon ac effeithiol yn y maes hwn.⁴⁰³

401. Roedd gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru bryderon y bydd y Bil yn gwneud y system yn fwy trwsogl oherwydd bydd y swyddogaethau sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd oll yn cael eu rhannu rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru. Dywedodd fod y system bresennol yn ei gwneud hi'n symlach i brentisiaethau ddiwallu anghenion cyflogwyr ac ymateb i'r anghenion hynny Dywedodd mai'r hyn sydd ei angen yn ddifawr yw i brentisiaethau fod yn llawer mwy ymatebol ac ystwyth, gydag adnoddau ychwanegol i'r seilwaith hwnnw fel y diwellir anghenion Gweinidogion Cymru.⁴⁰⁴ Aeth ymlaen i ddweud, os yw'r Comisiwn am fod yn strategol, fe ddylai gael y pŵer i dynnu fframweithiau prentisiaethau yn ôl os oes angen. Fodd bynnag, yn y Bil fel y'i drafftwyd, bydd Gweinidogion Cymru yn cadw pwerau dros brentisiaethau a allai arwain at ddryswch o ran cyfrifoldebau a'r posibilrwydd i'r Comisiwn ddweud un peth ac i Weinidogion Cymru benderfynu ar rywbeth arall.⁴⁰⁵

402. Galwodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i gorff fod â chyfrifoldeb am brentisiaethau yn eu cyfanrwydd. Dywedodd fod rhaglen brentisiaethau dda ar waith yng Nghymru, ond bod angen seilwaith i'w datblygu ymhellach. Dywedodd y Ffederasiwn fod hyn yn cynnwys pobl, clystyrau, trafodaethau, ond bod hefyd angen adnoddau. Aeth ymlaen i

⁴⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 31 ColegauCymru, Atodiad A, paragraff 5.

⁴⁰⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 33.

⁴⁰⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 75.

ddweud mai'r hyn nad yw i'w weld yn y Bil na'r Memorandwm Esboniadol yw o ble y bydd Cymru yn mynd i gael ei hadnoddau i gynnal ei system brentisiaethau ei hun.⁴⁰⁶

403. Disgrifiodd y Gweinidog hefyd y trefniadau prentisiaethau presennol fel rhai trwsogl a'u bod yn seiliedig ar ddeddfwriaeth hen ffasiwn. Dywedodd fod y Bil yn ceisio sicrhau'r canlynol:

"[the balance] between maintaining the link to national economic priorities on the one hand but enabling the provision and design of frameworks to be nimble, flexible and engaging stakeholders fully on the other hand ..."

Dywedodd y Gweinidog ei fod yn rhagweld y byddai'r Comisiwn yn trefnu bod datblygwyr fframweithiau yn adnewyddu'r fframweithiau, gyda chylch adolygu i ddilyn. Dywedodd mai'r dull a ddilynir yn y Bil yw caniatáu i hynny ddatblygu'n hyblyg. Dywedodd mai'r mecanwaith i Weinidogion Cymru fynegi'r blaenoriaethau polisi trawsbynciol hynny fyddai drwy'r gofynion craidd ym manyleb prentisiaethau Cymreig.⁴⁰⁷

404. Dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai'r dull newydd yn gwneud y prentisiaethau'n fwy ystwyth, yn gyflymach ac yn fwy ymatebol. Ychwanegodd ei bod yn hollol ddilys i Lywodraeth Cymru allu dylanwadu ar flaenoriaethau'r system brentisiaethau ac y byddai'n golygu bod stiwardiaeth ar y lefel uchaf un, ac y byddai hefyd yn gwneud y gwaith o gyflawni, ymgynghori, a gwireddu prentisiaethau ar lawr gwlad yn llawer mwy hyblyg.⁴⁰⁸

Safbwynt y Pwyllgor

405. Rydym yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, fodd bynnag, credwn ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cadw'r oruchwyliaeth strategol o'r system brentisiaethau. Credwn felly fod y pwerau o fewn y Bil yn briodol.

406. Rydym yn nodi'r cymhlethdodau ynghylch y system brentisiaethau, a'r gwahanol safbwyntiau ynghylch a fydd y darpariaethau yn y Bil yn lleihau'r cymhlethdodau hyn. O ystyried y safbwyntiau croes hyn, credwn y dylid cynnal adolygiad o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith prentisiaethau gan edrych ar y rhain yn y cyd-destun ehangaf, er mwyn helpu i sicrhau bod y fframweithiau'n berthnasol, yn amserol, yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd.

Argymhelliad 31. Bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o'r gwaith o ddatblygu fframwaith prentisiaethau sy'n ystyried y cyd-destun ehangach y tu hwnt i'r Comisiwn.

⁴⁰⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 143.

⁴⁰⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 205 a 209.

⁴⁰⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 110-111.

8. Rhan 5: Diogelu Dysgwyr, Gweithdrefnau Cwyno ac Ymgysylltu â Dysgwyr

Mae'r Rhan hon o'r Bil yn ymdrin â diogelu dysgwyr ac ymgysylltu â hwy. Credwn y gellir gwneud mwy i gryfhau llais y dysgwr yn y Bil.

407. Mae adran 122 yn galluogi'r Comisiwn i roi hysbysiad i ddarparwr addysg drydyddol perthnasol yn gofyn i'r darparwr gyflwyno cynllun diogelu dysgwyr. Mae'r adran hon yn diffinio cynllun diogelu dysgwyr fel dogfen sy'n nodi trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu buddiannau myfyrwyr sy'n ymgymryd â chwrs os bydd y cwrs hwnnw'n peidio â chael ei ddarparu neu os bydd dysgwyr yn dymuno trosglwyddo i gwrs arall. Pan fydd y Comisiwn wedi cyhoeddi hysbysiad i ddarparwr, caiff y cynllun ei orfodi drwy amodau cofrestru a thelerau ac amodau cyllido. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi canllawiau ar lunio ac adolygu cynlluniau diogelu dysgwyr. Rhaid i'r Comisiwn fonitro effeithiolrwydd cynlluniau diogelu dysgwyr a rhoi sylw i hyn yn ei adroddiad blynyddol.

408. Mae adran 123 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gymryd camau i sicrhau bod darparwr addysg drydyddol perthnasol wedi sefydlu gweithdrefn gwyno a'i fod yn gwneud dysgwyr yn ymwybodol o sut i gael gafael ar y weithdrefn.

409. Mae adran 124 yn diwygio Deddf Addysg Uwch 2004 i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ehangu'r ystod o ddysgwyr a all gael mynediad at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

410. Mae adran 125 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn lunio a chyhoeddi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ynghylch ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau. Rhaid i'r Comisiwn adolygu'r cod yn barhaus, a bydd yn gymwys i ddarparwyr perthnasol a phenderfyniadau perthnasol a wneir gan ddarparwyr perthnasol. Gorfodir cydymffurfedd lle bo hynny'n berthnasol drwy gofrestru a thelerau ac amodau cyllido.

Llais y dysgwr

411. Fel y nodwn ym Mhennod 1, cafwyd galwadau gan UCM Cymru i ychwanegu llais y myfyrwyr at y dyletswyddau strategol. Rydym wedi cytuno â hyn, ac felly gwnaethom argymhelliad 18.

412. Dywedodd CCAUC mai'r unig le y gallai weld dull amlwg sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr yw'r darpariaethau ymgysylltu â dysgwyr a'u diogelu.⁴⁰⁹ Dywedodd Colegau Cymru ei fod yn teimlo bod llawer o'r Bil yn canolbwyntio ar y dysgwr, ond roeddent yn nodi mai'r manylion eu hunain oedd yn bwysig.⁴¹⁰

413. Dywedodd UCM Cymru nad yw'r Bil yn adlewyrchu pwysigrwydd llais myfyrwyr.⁴¹¹ Teimlai fod y Bil yn gyfle gwirioneddol euraidd i roi llais go iawn i fyfyrwyr yn eu haddysg, ni waeth ym mhle maent yn astudio, beth maent yn ei astudio na'r dull astudio. Dywedodd fod y Bil yn dangos camddealltwriaeth sylfaenol o ran sut beth yw cynrychioli myfyrwyr yn dda. Ymhellach, soniodd UCM Cymru am y ffaith bod cynrychiolaeth bresennol myfyrwyr ar draws y sector yn llawer gwell na'r hyn sydd yn y Bil. Dywedodd fod cyfle'n cael ei golli drwy beidio â rhoi llais y myfyrwyr yn fwy amlwg a diamwys yn yr amcanion polisi.⁴¹²

414. Credai UCM Cymru y byddai defnyddio'r term dysgwyr yn arwain at ddryswch a'i fod yn gwanhau hunaniaeth myfyrwyr a mudiad y myfyrwyr, a galwodd am ddiwygiadau i'r Bil i ddefnyddio'r gair "myfyrwyr" yn lle. Credai'r Undeb fod colli'r gair "myfyrwyr" yn fwy arwyddocaol nag y mae Llywodraeth Cymru yn ei sylweddoli. Aeth ymlaen i egluro pam felly:

"The two words are not used interchangeably in the different sectors the Bill will cover. While we accept that there are pedagogical arguments for the use of 'learner', this descriptor removes agency and implies that 'learners' exist only to learn. 'Learner' may reflect the Welsh Government's aim of embedding a lifelong understanding of the person as a learner, but it also defines them entirely through their course of study. Being a learner is just one part of being a student or an apprentice: university students access housing, mental and physical health support and financial aid through their institution; college students are embedded in their communities and make use of local transport and sporting facilities; and apprentices often work for more hours than they receive training, usually below minimum wage without access to the same level support and advocacy as their peers in full-time education."

Dywedodd yr Undeb y gallai hyn gael ei ddiwygio'n hawdd yn y Bil gan fod yr ymadrodd "personau sy'n cael addysg drydyddol" yn cael ei ddefnyddio, gan gyfeirio'n fyrrach wedi hynny

⁴⁰⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 337

⁴¹⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 356

⁴¹¹ Papur ysgrifenedig, CYPE(6)-07-21 Papur 6, UCM Cymru

⁴¹² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 376-378

at “ddysgwyr” – gallai hyn gael ei ddiwygio i “myfyrwyr/dysgwyr” heb fawr o effaith gyffredinol ar y Bil.⁴¹³

415. Pwysleisiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bwysigrwydd un diwylliant sydd wedi'i wreiddio ar draws y sector i sicrhau ymgysylltiad parhaus rhwng dysgwyr a darparwyr ar bob lefel. Cydnabu y gallai mecanweithiau amrywio gan ddibynnu ar y darparwr, ond dywedodd fod angen egwyddorion cyson yn sail i'r mecanweithiau hyn.⁴¹⁴ Dywedodd Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn rhaid i system sy'n canolbwyntio ar y dysgwr roi ystyriaeth i bob un dysgwr yn ddieithriad o fewn y sector.⁴¹⁵

416. Roedd y Brifysgol Agored yn galw am ymgysylltu â dysgwyr er mwyn ystyried lleisiau dysgwyr rhan-amser nas clywir mor aml. Tynnodd sylw at y ffaith nad yw myfyrwyr y Brifysgol Agored yn cael eu cynrychioli gan UCM Cymru.⁴¹⁶ Cytunodd UCM Cymru fod diffyg parch cydradd enfawr i lais myfyrwyr, a bod hynny'n dibynnu ar ble mae rhywun yn astudio. Aeth ymlaen i ddweud bod gan fyfyrwyr addysg uwch fynediad at eiriolaeth sy'n gryfach ac yn fwy annibynnol o'u cymharu â chyfoedion mewn addysg bellach neu ddysgu oedolion yn y gymuned.⁴¹⁷ Soniodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mor bwysig ydyw bod llais y dysgwyr Cymraeg eu hiaith yn cael ei glywed, gan ddweud bod eu profiadau'n aml iawn yn wahanol a'u hanghenion yn wahanol.⁴¹⁸ Roedd Estyn yn cytuno â hyn gan ddweud ei bod yn bwysig nad yw llais y dysgwr yn “unffurf” a'i bod yn arbennig o bwysig sicrhau y cynhwysir dysgwyr a dangynrychiolir.⁴¹⁹

417. Galwodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru am linell sylfaen o ran gofynion naill ai trwy delerau ac amodau ynghlwm wrth gyllid neu gofrestru i roi mwy o ddiogelwch i fyfyrwyr a bod trefniadau digonol i ymgysylltu â dysgwyr.⁴²⁰

418. Yn y sesiwn dystiolaeth ddiwethaf, cydnabu'r Gweinidog y bu trafodaethau ynghylch sut y gall y Llywodraeth wneud mwy i gryfhau darpariaethau llais y dysgwr yn y Bil ymhellach fyth.⁴²¹

⁴¹³ Papur ysgrifenedig, CYPE(6)-07-21 Papur 6, UCM Cymru

⁴¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 01, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, paragraff 16

⁴¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 33 Coleg Caerdydd a'r Fro

⁴¹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 196

⁴¹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 381

⁴¹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 536

⁴¹⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 360

⁴²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 8.1

⁴²¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 10

Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

419. Roedd cefnogaeth eang i'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, gan gynnwys gan yr Asiantaeth Sicrhau Safonau ar gyfer Addysg Uwch a ddywedodd ei bod yn teimlo y byddai Cod o'r fath yn sicrhau bod ymgysylltu â dysgwyr wrth wraidd y sector addysg drydyddol.⁴²² ac UCM Cymru.⁴²³

420. Clywsom am bwysigrwydd sicrhau bod ymgysylltu â dysgwyr yn gynhwysol ac yn agored i bob dysgwr yn y sector ôl-16. Dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru y byddai angen i'r Comisiwn, wrth lunio'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, ystyried sut mae ymgysylltu â dysgwyr rhan-amser yn wahanol i ymgysylltu â dysgwyr amser llawn. Roedd hefyd yn galw i'r Cod roi ystyriaeth briodol i sefydliadau fel y Brifysgol Agored ei hun, gan fod ymgysylltu â dysgwyr yn weithgaredd cymhleth sy'n defnyddio llawer o adnoddau.⁴²⁴

421. Dywedodd Cynghair y Trydydd Sector ar Anghenion Ychwanegol y dylid gosod gofynion ar ddarparwyr i ddangos eu bod wedi ymgysylltu â myfyrwyr anabl, a bod rhaid i hynny gynnwys dysgwyr sy'n fyddar, sydd â nam ar eu golwg a dysgwyr aneiriol.⁴²⁵ Roedd hon yn safbwynt a ategwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru a ddywedodd nad yw myfyrwyr anabl yn un grŵp unffurf â'r un anghenion.⁴²⁶ Galwodd yr Asiantaeth Sicrhau Safonau am fwy o fanylion penodol i sicrhau bod llais myfyrwyr yn ei ystyr ehangaf yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu'r Cod.⁴²⁷

422. Roedd rhai safbwyntiau gwrthgyferbyniol ynghylch cynnwys y chweched dosbarth yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. Croesawodd Estyn hyn, ond dywedodd er mwyn sicrhau bod y Cod yn gynhwysol, y byddai angen iddo:

"gydnabod ac ystyried gwahaniaethau o ran aeddfedrwydd, annibyniaeth a medrau cyfathrebu dysgwyr cyn 18, ac ar ôl 18, yn cynnwys y rhai ag ADY, anawsterau cyfathrebu a'r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae'r cod yn ymgorffori pwysigrwydd rhoi llais i bob dysgwr, felly bydd yn bwysig fod y Comisiwn a darparwyr yn ystyried natur eang iawn yr holl

⁴²² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 16, Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, paragraff 24

⁴²³ Papur ysgrifenedig, CYPE(6)-07-21.Papur 6, UCM Cymru

⁴²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12, Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraffau 6.5-6.6

⁴²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 34, Cynghair y Trydydd Sector ar Anghenion Ychwanegol

⁴²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 41, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru

⁴²⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 363

*ddysgwyr yn y sectorau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, ac nad yw llais dysgwyr yn unffurf."*⁴²⁸

423. Galwodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru ar y Comisiwn i fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ddarpariaeth yn hytrach na darparwr mewn perthynas â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, yn unol â darpariaethau mewn mannau eraill yn y Bil. Dywedasant fod hwn yn ddull anghywir mewn egwyddor.⁴²⁹ Dywedodd CCAUC y dylid disgwyl ymgysylltiad da â dysgwyr ar draws yr holl ddarpariaeth, a'i bod yn aneglur pam y mae'r ddeddfwriaeth yn gosod gwahanol ddisgwyliadau ar gyfer gwahanol ddarparwyr. Dywedodd y Cyngor Cyllido hefyd mai o'r gwaelod am i fyny y mae ymgysylltu'n effeithiol.⁴³⁰

424. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg y dylai'r Cod sicrhau bod y rhai sy'n dymuno dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu gwneud hynny a bod hyn yn cael ei adlewyrchu o ran y gofynion ar ddarparwyr i gynnig y ddarpariaeth honno.⁴³¹

425. Dywedodd y Gweinidog mai nod y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr mandadol oedd "cydnabod a chryfhau'r trefniadau presennol sydd ar waith ar draws y sector ôl-16." Bydd hyn yn sicrhau bod "lleisiau dysgwyr yn cael eu clywed "beth bynnag fo'u cwrs, lleoliad, lefel a dull astudio". Wrth drafod y chweched dosbarth, dywedodd y bydd hyn yn "ategu'r trefniadau presennol sydd ar waith ar lefel yr ysgol, gan gynnwys trefniadau'r cyngor ysgol."⁴³²

Gweithdrefnau cwyno

426. Cododd y Comisiynydd Plant bryderon nad oedd chweched dosbarth ysgolion yn dod o dan adran 123. Dywedodd nad yw gweithdrefnau cwyno presennol ysgolion fel arfer yn "galluogi atgyfeirio cwynion heb eu datrys i gorff annibynnol". Ond mae adran 123 yn galluogi myfyrwyr a dysgwyr i ddefnyddio Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Cyfeiriodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant at ei gwaith achos ei hun â phobl ifanc a theuluoedd yn mynegi pryderon am ddiffyg annibyniaeth yn y gweithdrefnau cwynion mewn ysgolion. Galwodd am roi ystyriaeth bellach i gynnwys chweched dosbarth ysgolion yn adran 123 er mwyn sicrhau cydraddoldeb mewn atebolrwydd i bob dysgwr ôl-16.⁴³³ Roedd Coleg Caerdydd a'r Fro o blaid cynnig

⁴²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 11 Estyn

⁴²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 8.5

⁴³⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 342-344

⁴³¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 537

⁴³² Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 4 Chwefror 2022, paragraff 12.3

⁴³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 28, Comisiynydd Plant Cymru

mynediad at ddyfarnwr annibynnol, gan alw ar y Comisiwn i sefydlu corff tebyg i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol mewn Addysg Uwch i ddyfarnu ar gwynion.⁴³⁴

427. Dywedodd UCM Cymru ei bod yn bwysig bod myfyrwyr yn gallu cael mynediad at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, ond soniodd y gall fod yn broses gymhleth ac anodd i'w llywio, hyd yn oed os oes gan y myfyrwyr gefnogaeth undeb myfyrwyr sydd â digon o adnoddau.⁴³⁵

428. Dywedodd Adran Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin fod diffyg cydlynid yn sgil cael gweithdrefnau ar wahân ar gyfer chweched dosbarth ysgolion. Cododd yr Adran Addysg bryderon hefyd y byddai cyrff llywodraethu yn ymateb i gwynion, lle mai'r darparwr cofrestredig fydd yr awdurdod lleol a bydd yn rhaid iddo "ddelio â'r broblem daw'r Comisiwn i'r casgliad bod unrhyw ddarpariaeth drydyddol yn anfoddhaol". Galwodd i'r awdurdod lleol gael goruchwyliaeth, a galwodd i hyn gael ei ymestyn i bob dysgwr mewn awdurdod lleol gan y gallai darpariaeth anfoddhaol mewn coleg fod â "goblygiadau i'r dysgwyr a'r chweched dosbarth yn yr awdurdod lleol hwnnw".⁴³⁶

429. Galwodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru i weithdrefnau cwyno fod yn hollol hygyrch ac mor glir â phosibl i bob dysgwr.⁴³⁷

Cynlluniau Diogelu Dysgwyr

430. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd cynllun diogelu dysgwyr yn nodi trefniadau darparwr ar gyfer diogelu buddiannau dysgwr os bydd cwrs yn peidio â chael ei ddarparu, ac i gefnogi dysgwyr sydd am drosglwyddo i gwrs arall (naill ai o fewn yr un darparwr neu o fewn darparwr arall.) Nid yw'n ofynnol i bob darparwr gael cynlluniau o'r fath. Mae hyn yn ôl disgrisiwn y Comisiwn i sicrhau nad oes rhaid i ddarparwyr lunio cynlluniau o'r fath lle na fyddai'n briodol neu'n gymesur.⁴³⁸

431. O ran cynlluniau diogelu dysgwyr, dywedwyd wrthym nad pan fydd cwrs yn peidio â chael ei ddarparu yw'r broblem wirioneddol, ond yn hytrach pan fydd newidiadau sylweddol i gynnwys cwrs. Disgrifiodd WonkHE senario lle câi'r rhan fwyaf o'r opsiynau modiwlau dewisol eu tynnu nôl yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, neu lle byddai newidiadau a fyddai'n newid ffocws cwrs cyfryngau er enghraifft o fod yn un ymarferol i fod yn un damcaniaethol. Galwodd WonkHE i'r

⁴³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 33, Coleg Caerdydd a'r Fro

⁴³⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 413

⁴³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 20, Adran Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin, paragraff 3.2

⁴³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 41, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru

⁴³⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), paragraffau 3.350-3.352, 1 Tachwedd 2020

cynlluniau diogelu dysgwyr hefyd gwmpasu pan fo newid i elfen materol bwysig o'r cwrs. Galwodd hefyd i Lywodraeth Cymru sefydlu egwyddor sylfaenol na ddylai unrhyw fyfyrwr ddioddef anfantais, gan gynnwys anfantais ariannol, ac aeth ymlaen i sôn am y problemau a wynebir gan fyfyrwyr sydd angen astudio'n lleol ond sy'n wynebu anawsterau os daw cwrs i ben.⁴³⁹

432. Dywedodd CCAUC fod dau fater i'w hystyried – diogelu myfyrwyr pan fydd cwrs yn peidio â chael ei ddarparu; a hwyluso'r broses drosglwyddo o un cwrs i'r llall. Dywedodd, er mai'r ateb i un mater yw'r mater arall, nid ydynt yr un peth. Aeth ymlaen i ddweud bod sefydlu cynlluniau diogelu dysgwyr ystyrlon yn Lloegr wedi bod yn anodd iawn, ac nad yw sefydliad prin byth yn gadael myfyrwyr heb atebion. Mewn achosion lle mae anawsterau, dywedodd CCAUC ei fod yn aml yn deillio o amgylchiadau penodol iawn o ran y cwrs, y myfyrwyr, lleoliad astudio a'r pwnc sy'n cael ei astudio, sy'n golygu bod cystal cynlluniau diogelu dysgwyr ar lefel sefydliadol fel y byddent bron yn ddiwerth o ran deall sut y byddech chi'n diogelu'r myfyrwyr unigol o dan yr amgylchiadau penodol.⁴⁴⁰

433. Roedd UCM Cymru yn credu bod rhai bylchau yn y cynlluniau diogelu dysgwyr.⁴⁴¹ Roedd yn cytuno â phryderon CCAUC, yn ogystal â phryderu mai dim ond ar gais y Comisiwn y ceir cynlluniau, a dywedodd UCM Cymru nad yw hyn yn gwneud llawer i roi sicrwydd i fyfyrwyr eu bod yn cael eu diogelu. Roedd hefyd yn rhannu'r pryderon a godwyd gan WonkHE mai'r rheswm mwy cyffredin dros fod angen diogelwch o'r fath yw oherwydd nad oes modd cynnal cwrs mwyach yn y ffordd y cafodd ei hysbysebu. Dywedodd ei bod yn anarferol iawn yn y mathau hynny o enghreifftiau i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol neu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ymyrryd.⁴⁴²

434. Ar ochr arall y geiniog, dywedodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru fod peth dyfalu'r hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol gan na wyddys ar hyn o bryd pa rannau o'r Bil fydd yn effeithiol. Fodd bynnag, fe wnaethon nhw dynnu sylw at y ffaith bod prifysgolion yn destun deddfwriaeth hawliau defnyddwyr sylweddol a deddfwriaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Dywedasant ei bod yn bwysig bod cynlluniau diogelu dysgwyr lleol ar waith yn ogystal â'r fframwaith deddfwriaethol ehangach y maent yn ddarostyngedig iddo.⁴⁴³

⁴³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 02, Jim Dickinson, Golygydd Cyswllt WonkHE.

⁴⁴⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 338-339.

⁴⁴¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 394.

⁴⁴² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 418-419.

⁴⁴³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 231-232.

435. Galwodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru i'r Bil gael ei ddiwygio i ddileu gallu'r Comisiwn i osod ei addasiad ei hun heb gytundeb y darparwr. Dywedasant y dylai'r Comisiwn allu pennu gofynion fel amod ar gyfer cymeradwyo, ond mai'r corff llywodraethu wedyn ddylai benderfynu a yw'n cytuno ac yn derbyn yr addasiadau. Cododd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru bryderon hefyd y gallai'r pŵer i osod addasiadau heb gydsyniad y darparwr arwain at risg i'r Comisiwn dorri'r ddyletswydd i gadw at gyfraith elusennau, sy'n golygu bod y Bil yn cyfeirio at ddarpariaethau anymarferol.⁴⁴⁴

436. Nid yw chweched dosbarth ysgolion yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r cynllun diogelu dysgwyr. Roedd CLILC yn croesawu'r eglurder a'r dull gweithredu hwn.⁴⁴⁵ Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei bod yn ddiddorol na fyddai'r cynlluniau'n cwmpasu chweched dosbarth ysgolion, a dywedodd y "dylid gofyn y cwestiwn, 'Wel, beth felly fydd yn gwarchod myfyrwyr y chweched dosbarth petai darpariaeth yn dod i ben'"⁴⁴⁶. Cytunodd Comisiynydd y Gymraeg y dylid cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cynlluniau diogelu dysgwyr.⁴⁴⁷

437. Nododd Estyn, wrth lunio cynlluniau diogelu dysgwyr, y byddai'n bwysig peidio ag anwybyddu buddiannau dysgwyr mewn gwahanol fathau o ddarpariaeth, yn enwedig y rheini mewn dysgu seiliedig ar waith, neu leoliadau dysgu oedolion yn y gymuned, neu chweched dosbarth.⁴⁴⁸

438. Croesawodd Coleg Caerdydd a'r Fro y cynlluniau diogelu dysgwyr ond cododd bryderon bod rhai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed mewn hyfforddiant sydd y tu allan i gylch gwaith y Comisiwn, megis Rhaglen Gyflogadwyedd yr Adran Gwaith a Phensiynau.⁴⁴⁹

439. Nododd y Brifysgol Agored yng Nghymru fod ganddi eisoes gynllun diogelu myfyrwyr sydd wedi'i gymeradwyo gan y Swyddfa Fyfyrrwyr, ac sy'n berthnasol i holl fyfyrwyr y Brifysgol Agored gan gynnwys y rheini yng Nghymru. Dywedodd y dylai gweithredu cynlluniau diogelu dysgwyr o dan y Bil hwn fod yn ddigon hyblyg i ystyried amgylchiadau penodol ac unigryw'r Brifysgol Agored.⁴⁵⁰ Trafodwn rai o'r materion ehangach yn ymwneud â'r Brifysgol Agored ym Mhennod 0.

⁴⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraffau 8 ac 8.3

⁴⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 01, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, paragraff 14

⁴⁴⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 536

⁴⁴⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 542

⁴⁴⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 361

⁴⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 33, Coleg Caerdydd a'r Fro

⁴⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12 Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraffau 6.1-6.3

440. Dywedodd y Gweinidog mai osgoi dyblygu oedd y sail dros benderfynu peidio ag ymestyn y gofynion o ran cwynion dysgwyr a gofynion y cynllun diogelu dysgwyr i chweched dosbarth ysgolion. Byddai hefyd yn sicrhau nad oedd Llywodraeth Cymru yn gosod baich gweinyddol ychwanegol ar ysgolion ac awdurdodau lleol wrth reoli trefniadau gwahanol ar gyfer dysgwyr cyn-16 ac ôl-16 mewn lleoliad ysgol a gynhelir. Dywedodd fod trefniadau a chymorth sefydledig eisoes ar waith ar gyfer diogelu dysgwyr ar lefel ysgolion ac awdurdodau lleol pan fydd dysgwyr yn symud o un lleoliad i'r llall oherwydd ysgol neu gwrs yn dod i ben, newid mewn amgylchiadau personol neu ddewis y dysgwr. O ran y galwadau i fyfyrwyr chweched dosbarth gael mynediad at drefniadau dyfarnu annibynnol ar gyfer cwynion, dywedodd na fydd Gweinidogion Cymru "yn gallu pennu bod awdurdodau lleol yn ddarparwyr cymwys mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth ysgolion a gynhelir ac na fyddant yn rhan o gynllun Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol." Credai ei fod yn ddull "cytbwys, cymesur ac ymarferol".⁴⁵¹

Safbwynt y Pwyllgor

441. Credwn fod gosod llais y dysgwr wrth galon y system addysg ôl-16 yn dda i ddysgwyr unigol ond hefyd i ansawdd ac effeithiolrwydd yr ystod eang o ddarpariaeth ar draws y sector. Dyma pam yr ydym wedi gwneud Argymhelliad 18, gan osod llais y dysgwr wrth galon dyletswyddau strategol y Comisiwn.

Llais y dysgwr

442. Rydym yn cytuno â'r rhanddeiliaid ei bod yn bwysig bod cyfle cyfartal i lais y dysgwr gael ei glywed, ar draws pob math o ddarpariaeth, ac y clywir llais pob dysgwr. Mae'n haws ar hyn o bryd i lais rhai dysgwyr gael ei glywed, fel yr amlygir gan UCM Cymru. Yn benodol, mae myfyrwyr mewn addysg uwch yn llawer mwy tebygol o gael mynediad at strwythurau cyfranogol cryf a all eu helpu i godi eu llais. Mae angen inni sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael yn gyffredinol, gan gydnabod y bydd sut y gall hyn ddigwydd yn amrywio yn ôl y ddarpariaeth a'r dysgwr unigol.

Cynlluniau Diogelu Dysgwyr

443. Rydym yn nodi'r dystiolaeth a glywsom am rai o'r cymhlethdodau sy'n ymwneud â diogelu dysgwyr, a bod yr heriau hyn yn aml yn ymwneud â newidiadau sylweddol yng nghynnwys cyrsiau yn fwy na therfynu cyrsiau'n gyfan gwbl. Rydym hefyd yn ymwybodol iawn y gall hyn fod yn arbennig o heriol os yw'r ddarpariaeth yn un cyfrwng Cymraeg, lle gallai fod opsiynau llawer

⁴⁵¹ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 4 Chwefror 2022, paragraffau 12.41-12.10

mwy cyfyngedig i drosglwyddo, ac y byddai myfyriwr, yn y sefyllfa waethaf bosibl, yn gweld na all barhau i ymgymryd â'i astudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

444. Rydym yn gwybod bod angen i fyfyrwyr/dysgwyr drosglwyddo weithiau am resymau personol, ac nid oherwydd penderfyniadau a wneir gan y sefydliad yn unig. Mae'n hanfodol cefnogi anghenion a dewisiadau'r unigolyn yn yr achosion hyn, a bod cynlluniau diogelu dysgwyr yn hwyluso hyn. Gall fod yn wir, o dan yr amgylchiadau hyn, y gall y person fod yn wynebu amgylchiadau personol heriol. Rhaid i sefydliadau sicrhau eu bod yn ystyried lles y myfyriwr/dysgwr unigol. Dylai anghenion y dysgwr fod yn hollbwysig yn yr amgylchiadau hyn. Gan hynny, rydym am weld newidiadau pellach i'r Bil i sicrhau bod lles myfyrwyr wrth galon y cynlluniau diogelu dysgwyr. Mae lles myfyrwyr a dysgwyr yn faes sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor, ac rydym yn debygol o ailedrych ar y materion hyn yn fanylach yn ystod tymor y Senedd.

Argymhelliad 32. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod yn rhaid i gynlluniau diogelu dysgwyr ystyried lles myfyrwyr/dysgwyr a sicrhau bod myfyrwyr yn gallu parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

9. Rhan 6: Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau

Mae darpariaethau rhannu gwybodaeth eang yn y Bil, y credwn y dylid eu gwneud yn fwy cul.

445. Mae Rhan 6 yn darparu pwerau a dyletswyddau i roi gwybodaeth, cyngor a chanllawiau.

446. Mae adrannau 126-131 yn nodi'r darpariaethau ynghylch rhannu gwybodaeth. Maent yn cwmpasu:

- Gwybodaeth a chynghor y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu rhoi i Weinidogion Cymru (adran 126);
- Pwerau'r Comisiwn i ofyn am wybodaeth gan bersonau eraill (adran 127);
- Darpariaeth i ganiatáu i gyrff penodol rannu gwybodaeth â'r Comisiwn (adran 128);
- Pwerau i Weinidogion Cymru ofyn am wybodaeth o gyflwyno'r cais i dderbyn y cynnig i Weinidogion Cymru neu'r Comisiwn at ddibenion ymchwil cyfyngedig (adran 129);
- Sut y caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio gwybodaeth o wneud y cais i dderbyn y cynnig (adran 130); a
- Phwerau'r Comisiwn i roi cyngor a dyroddi canllawiau i unrhyw berson ynghylch darparu addysg drydyddol neu unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Comisiwn (adran 131).

447. Mae adran 132 yn caniatáu i Weinidogion Cymru neu'r Comisiwn gynnal gwaith ymchwil, gan nodi'r pynciau y gellir ymchwilio iddynt.

448. Roedd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru wedi galw i'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn darparu eglurder a sicrwydd ynghylch defnydd yn y dyfodol o wybodaeth fasnachol-sensitif. Roeddent hefyd yn pryderu y byddai'r darpariaethau'n golygu y byddai'n rhaid i'r Comisiwn rannu gwybodaeth a ddarperir gan sefydliadau i'r Comisiwn yn wirfoddol ac yn gyfrinachol â Gweinidogion Cymru. Soniodd cytbwys, cymesur ac ymarferol fod canllaw'r Comisiwn Elusennau yn nodi mai un o feini prawf statws elusennol yw i elusennau beidio â

chytuno i amodau sy'n tanseilio cyfrinachedd eu trafodaethau.⁴⁵² Roedd Prifysgol Abertawe yn rhannu'r un pryderon, gan dynnu sylw at y ffaith bod y pryderon hyn wedi'u codi yn ystod yr ymgynghoriad ar y Bil drafft.⁴⁵³

449. Galwodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru i adran 126 gael ei diwygio fel na all Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn rannu gwybodaeth a geir wrth gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau os nad yw'r wybodaeth honno'n ymwneud â'i swyddogaethau.⁴⁵⁴

450. O ran yr wybodaeth ynghylch data ceisiadau (adrannau 129-130), dywedasant y byddai'r pwerau hyn yn rhoi mynediad uniongyrchol i wybodaeth nad yw'n cael ei chyhoeddi neu o reidrwydd wedi'i gwirio gan y darparwyr eu hunain. Aethant ymlaen i ddweud y byddai angen rhoi'r holl ddata o'r fath yn eu cyd-destun yn ofalus os ydynt am gael eu dehongli heb fod yn gamarweiniol, rôl y byddai'r Comisiwn mewn sefyllfa well i'w chyflawni.⁴⁵⁵

451. Pwysleisiodd CCAUC mor bwysig yw cadw ymddiriedaeth darparwyr fel y gallant rannu gwybodaeth, yn enwedig gwybodaeth fasnachol-sensitif. Dywedodd fod hyn yn hollbwysig i gael dealltwriaeth glir o'r heriau, y risgiau, a'r cyfleoedd y mae darparwyr yn eu hwynebu. Yn ôl CCAUC, mewn termau ymarferol, mae hyn yn golygu na ddylai'r Comisiwn orfod rhannu'r holl wybodaeth sydd ganddo gyda Llywodraeth Cymru. Roedd yn cydnabod y bydd angen i'r Llywodraeth fod yn ymwybodol o'r risgiau a wynebier gan ddarparwyr, ond bod yn rhaid i'r Comisiwn feddu ar y trefniadau goruchwylio manwl.⁴⁵⁶

452. Dywedodd ColegauCymru nad yw'r systemau addysg yn trafod â'i gilydd. Credent y byddai mwy o rannu data yn helpu i wella'r gwasanaeth i ddysgwyr. Aethant ymlaen i ddweud bod angen i'r data a rennir fod yn gymesur, yn enwedig mewn perthynas â gwybodaeth fasnachol-sensitif.⁴⁵⁷ Roedd Addysg Oedolion Cymru o'r un farn.⁴⁵⁸ Dywedodd ColegauCymru bod angen ystyried y canlyniadau anfwriadol i wneud yn siŵr bod y trefniadau rhannu gwybodaeth yn well ac yn ehangach, ond nad yw'n mynd yn groes i'r hyn y mae pobl yn fodlon ei rannu.⁴⁵⁹

⁴⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 9.9

⁴⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 39 Prifysgol Abertawe

⁴⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 9

⁴⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 9.3

⁴⁵⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 270-271

⁴⁵⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 260

⁴⁵⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 14

⁴⁵⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 260 a 262

453. Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru nad oedd ganddo unrhyw bryderon am y darpariaethau rhannu gwybodaeth gan ddweud eu bod eisoes yn gweithredu prosesau rhannu gwybodaeth agored a thryloyw iawn.⁴⁶⁰ Nid oedd gan Estyn⁴⁶¹ na'r Asiantaeth Sicrhau Safonau⁴⁶² unrhyw bryderon penodol ynghylch y darpariaethau chwaith.

Safbwynt y Pwyllgor

454. Nodwn y pryderon a godwyd mewn perthynas â'r darpariaethau hyn, yn enwedig pryderon CCAUC sy'n deillio o flynyddoedd o brofiad o reoleiddio'r sector addysg uwch. Credwn y dylid ychwanegu profion pellach i leihau'r risg i sefydliadau unigol o rannu gwybodaeth fasnachol-sensitif yn rhy eang neu heb unrhyw ddiben clir. Rydym yn cydnabod y dylai'r Comisiwn allu ceisio unrhyw wybodaeth y mae ei hangen gan sefydliadau, ond nid ydym yn credu bod angen rhannu'r un wybodaeth â Gweinidogion Cymru.

Argymhelliad 33. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 126 fel mai dim ond pan fydd yn ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau Gweinidogion Cymru y gall Gweinidogion Cymru ofyn am wybodaeth gan y Comisiwn.

⁴⁶⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 11.

⁴⁶¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 308.

⁴⁶² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 311.

10. Rhan 7: Amrywiol a Chyffredinol

Mae Rhan 7 yn cynnwys darpariaethau ynghylch Corfforaethau Addysg Uwch a phwerau gwneud rheoliadau.

455. Mae gan adrannau 133-134 ddarpariaeth dechnegol sy'n ymwneud â dogfennau llywodraethu Corfforaethau Addysg Uwch.

456. Trafodir adran 135 yn fanylach yn yr adran nesaf.

457. Bydd adran 136 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiwn yn flynyddol ynghylch y blaenoriaethau strategol ar gyfer gwasanaethau gyrfaoedd.

458. Mae adran 137 yn gwneud darpariaethau sy'n ymwneud â phob dyletswydd cyhoeddi o dan y Bil.

459. Mae adran 138 yn gwneud darpariaethau cyffredinol ynghylch sut i wneud y rheoliadau amrywiol y ceir eu gwneud o dan y Bil.

460. Mae adran 139 yn nodi diffiniadau o dermau a ddefnyddir drwy gydol y Bil.

461. Mae adran 140 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru gymhwyso'r darpariaethau o dan y Bil i'r Brifysgol Agored.

462. Mae adran 143 yn nodi'r manylion cychwyn. Dim ond adrannau 138-141 ddaw i rym y diwrnod ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Bydd yr holl ddarpariaethau eraill yn cael eu cychwyn drwy orchymyn.

Diddymu Corfforaethau Addysg Uwch

463. Mae adran 135 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaethau addysg uwch. Mae'n diwygio adran 128 o Ddeddf Diwygio Addysg 1998, ac yn mynd ymhellach na phwerau tebyg yn Lloegr, lle mai dim ond ar gais ei gorff llywodraethu ei hun y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddiddymu corfforaeth addysg uwch. O dan adran 128 o Ddeddf 1988, nid oes ond angen i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r corfforaethau addysg uwch ynghylch eu bwriad i'w diddymu, sy'n golygu y gellir eu diddymu yn groes i ewyllys corff llywodraethu corfforaeth addysg uwch.

464. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cadw'r pwerau hyn, a phe byddai'r pŵer yn cyfateb i'r pŵer yn Lloegr "mae risg na fyddai cais o'r fath yn cael ei wneud [...] mewn rhai amgylchiadau penodol". Byddai hyn yn golygu y byddai angen Deddf Senedd y DU neu Ddeddf Senedd Cymru i dynnu'r gorfforaeth o'r llyfr statud, sy'n rhywbeth nad yw'r Llywodraeth yn credu ei fod yn sefyllfa ddymunol.⁴⁶³

465. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd dau o'r tri chorfforaeth addysg uwch wrthym eu bod yn anghytuno â'r pŵer hwn fel y'i drafftwyd. Teimlai'r ddau fod y rhesymeg y tu ôl i gadw'r pŵer yn aneglur. Mynegwyd yr un farn gan CCAUC⁴⁶⁴ a Phrifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru.⁴⁶⁵ Gwrthwynebodd Prifysgol Wrecsam Glyndŵr yn gryf,⁴⁶⁶ ac roedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn bryderus am y pŵer.⁴⁶⁷ Dywedodd Prifysgol Wrecsam Glyndŵr y byddai'n mynd yn groes i argymhellion gan Gomisiwn y Gyfraith, gan roi corfforaethau addysg uwch Cymru yn y sefyllfa wannaf ar draws y DU gyfan.⁴⁶⁸ Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ei bod yn hollbwysig bod y sector addysg uwch yn cael ei weld i fod yn un sector ac nid yn dau sector y gellir eu gwahaniaethu yn ôl mympwy. Credai'r Brifysgol y byddai tynnu'r gwahaniaeth yma rhwng sefydliadau Cymreig yn gwanhau'r sector yn hytrach na'i gryfhau.⁴⁶⁹ Roedd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru o'r un farn, gan ei galw'n anghyfiawn i'r pŵer hwn gael ei gadw gan iddo ymwneud â nifer fach am resymau hanesyddol yn unig.⁴⁷⁰

466. Cytunodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, gan nodi eu bod am weld y pŵer yn cael ei ddiwygio fel na ellid diddymu unrhyw gorfforaeth addysg uwch yn erbyn ei ewyllys.⁴⁷¹ Dywedasant, yn hytrach na dileu'r pŵer hwn, fod y Bil yn ei gwneud yn haws i'w arfer⁴⁷² ac yng ngoleuni'r ystod o ddyletswyddau cyfreithiol sy'n berthnasol i brifysgolion, ei bod yn anodd meddwl am sefyllfa lle byddai angen pŵer os metha popeth arall i ddiddymu corfforaeth addysg uwch heb gydsyniad y corff llywodraethu.⁴⁷³ Nid oedd rhesymeg y pŵer os

⁴⁶³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), paragraffau 3.405-3.406, 1 Tachwedd 2020

⁴⁶⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 282

⁴⁶⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 173

⁴⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 05, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, paragraff 8

⁴⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 21 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraff 3.1

⁴⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 05, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, paragraff 8

⁴⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 21 Prifysgol Metropolitan Caerdydd, paragraffau 3.3-3.4

⁴⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraffau 4.1-4.2

⁴⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 1.3

⁴⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 4.1

⁴⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 4.3

metha popeth arall yn glir i CCAUC.⁴⁷⁴ Cwestiynodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, os mai'r rhesymeg yw mai dim ond pŵer wrth gefn ydyw a bod ei angen er mwyn diogelu dysgwyr, yna pam mai dim ond i dair prifysgol yng Nghymru y byddai'n berthnasol.⁴⁷⁵

467. Nododd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru fod y pŵer hwn i ddiddymu heb gydsyniad sefydliad wedi'i ddileu yn Lloegr oherwydd pryderon ei bod yn debygol y byddai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ailddosbarthu prifysgolion o'r sector nid-er-elw i sector y llywodraeth ganolog.⁴⁷⁶ Dywedodd CCAUC wrthym hefyd fod darpariaethau tebyg i Ddeddf 1992 wedi'u profi gan Lywodraeth Cymru a bod y cyngor cyfreithiol wedi datgan nad oes modd eu gweithredu. Yn ôl y cyngor cyfreithiol, oni bai fod y corff llywodraethu o blaid diddymu, mae'n amhosibl i arfer y pŵer i bob pwrpas. Yn y cyd-destun hwnnw, cwestiynodd CCAUC pam y cafodd ei gynnwys yn y Bil.⁴⁷⁷ Dywedodd Prifysgolion Cymru fod pwerau absoliwt os metha popeth arall eisoes ar waith, ac na fydd y pŵer hwn yn cymryd lle'r pwerau hynny.⁴⁷⁸

468. Clywsom y dylid diwygio'r pŵer fel mai dim ond ar anogaeth a chyda chydsyniad y sefydliad ei hun y gellir ei arfer.⁴⁷⁹ Dywedodd CCAUC mai'r broblem gyda'r pŵer hwn oedd ei fod yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru ddiddymu corfforaeth addysg uwch yn erbyn ewyllys y corff llywodraethu, a bod hon yn broblem fawr.⁴⁸⁰

469. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y pwerau hyn yn rhai i'w defnyddio os metha popeth arall. Dywedodd fod y pwerau o fewn y Bil yr un pwerau sy'n bodoli ar hyn o bryd, heblaw am ambell addasiad technegol. Aeth ymlaen i ddweud y byddai'r pwerau'n cael eu defnyddio 'os metha popeth arall' lle nad oedd sefydliad mewn sefyllfa i ofyn i'r Llywodraeth ddiddymu'r sefydliad er mwyn sicrhau bod modd gwneud hynny mewn ffordd drefnus sy'n diogelu myfyrwyr. Ychwanegodd y byddai defnyddio'r pŵer yn ddarostyngedig i egwyddorion cyfraith gyhoeddus.⁴⁸¹

470. Roedd y Gweinidog wedi dweud ar ddechrau ein gwaith craffu ei fod yn agored i glywed unrhyw awgrymiadau i gryfhau'r elfen hon o'r Bil, ac yn y sesiwn graffu olaf ar y Bil dywedodd

⁴⁷⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 282

⁴⁷⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 175

⁴⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 4.4

⁴⁷⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 282

⁴⁷⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 177

⁴⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 4.5

⁴⁸⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 282

⁴⁸¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 152-153

wrthym ei fod yn bwriadu cyflwyno gwelliant, ond bod y manylion eto i'w cwblhau. Soniodd am y dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu, a'r adborth uniongyrchol y mae wedi'i gael, yn enwedig gan y sefydliadau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol.⁴⁸²

Diffiniadau

471. Cododd Addysg Oedolion Cymru bryderon ynghylch anghysondeb yn y diffiniad o 'addysg drydyddol'. Nododd fod y diffiniad yn adran 139(1) yn cyfeirio at addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant yn unig ond bod y Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn cynnwys dysgu oedolion yn y gymuned wrth ddiffinio 'addysg drydyddol'.⁴⁸³ Nodir yn y Nodiadau Esboniadol:

*"The facilities to be secured for education and training include both full-time and part-time further education and training as well as vocational, social, physical and recreational training (see the definitions in section 139(2) to (5)). This includes organised activities offering opportunities for non-formal learning which may not lead to a qualification. For example, adult learning opportunities in community settings including education engagement activities."*⁴⁸⁴

Rôl unigryw y Brifysgol Agored

472. Mae adran 140 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â'r Brifysgol Agored. Cawsom ein hatgoffa gan y Brifysgol Agored yng Nghymru am ei safle unigryw o fewn y sector yng Nghymru, oherwydd ei bod yn rhan o brifysgol ar gyfer y DU gyfan, a chan nad yw ei gweithgareddau wedi'u lleoli'n "bennaf nac yn gyfan gwbl" yng Nghymru, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu dynodi fel darparwr addysg drydyddol ar gyfer sail y Bil.⁴⁸⁵ Ar un llaw, dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru fod gadael ei holl gyllid a'i drefniadau rheoleiddio yn y dyfodol yng Nghymru i reoliadau yn cynnig cyfle i gydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y rheoliadau hynny'n gywir ac yn gymesur. Ond ar y llaw arall, dywedodd fod hyn hefyd yn golygu nad oes gan y Brifysgol sicrwydd ar hyn o bryd ynghylch ei

⁴⁸² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 45

⁴⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 29, Addysg Oedolion Cymru, paragraff 3.

⁴⁸⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), Nodiadau Esboniadol, Paragraff 285, 1 Tachwedd 2020

⁴⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12 Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraff 1.7.

phertynas â'r Comisiwn yn y dyfodol.⁴⁸⁶ Galwodd i'r rheoliadau hyn gael eu cyflwyno mewn modd prydlon ac ystyriol.⁴⁸⁷

473. Roedd yn awyddus i osgoi dyblygu rhwng y gofynion rheoleiddiol yng Nghymru a'r rhai yng ngweddill y DU. Dywedodd fod cyfle i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwneud y mwyaf o botensial safonau unffurf ar draws gwledydd y DU a lleihau trefniadau rheoleiddio gor-feichus ar ddarparwyr.⁴⁸⁸ Yn benodol, gofynnodd y Brifysgol Agored yng Nghymru am sicrwydd na fyddai'r Comisiwn neu'r Swyddfa Fyfyrrwyr yn ei gwneud yn destun dyletswyddau sy'n gwrthdaro neu ddyblygu trefniadau rheoleiddio mewn perthynas â rhyddid academiaidd a/neu ryddid i lefaru.⁴⁸⁹

474. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod gwerthoedd ac amcanion y Bil yn cyd-fynd â rhai'r Brifysgol Agored. Dywedodd y byddai rhan o'r Cynllun Gweithredu Deddfwriaeth y Bil yn ystyried datblygiad y rheoliadau hyn. Dywedodd y byddai'n gweithio gyda'r Brifysgol Agored i benderfynu ar y ffurf mwyaf priodol ar gyfer gwahanol rannau'r Bil. Dywedodd y byddai'r meysydd tebygol yn cynnwys:

- Amodau cofrestru
- Cynlluniau Diogelu Dysgwyr
- Cyllid a threfniadau diogelu i fyfyrwyr sy'n astudio gyda'r Brifysgol Agored.⁴⁹⁰

Y defnydd a wneir o bwerau gwneud rheoliadau

475. Mae'r Bil yn cynnwys 46 o bwerau gwneud rheoliadau. Bydd rhai o'r rheoliadau hyn yn cynnwys manylion ynghylch sut y bydd y Bil yn gweithredu'n ymarferol, er enghraifft yr hawl i ddarpariaeth gydol oes (gweler Rhan 3: Sicrhau Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'u Cyllido). Dywedodd rhanddeiliaid wrthym ei bod yn anodd dod i farn ar y Bil mewn rhai mannau heb weld manylion y rheoliadau.

476. Dywedodd Prifysgol Caerdydd fod ganddi bryderon bod y Bil yn brin o fanylion ynghylch llawer o'i nodweddion sylfaenol gan gynnwys categorïau a gofynion cofrestru. Roedd yn credu bod disgwyliad rhesymol y dylai'r manylion hyn fod wedi'u gosod ar wyneb y Bil neu yn y rheoliadau drafft cysylltiedig. Mae'r diffyg manylder hwn yn golygu bod y Brifysgol wedi'i chael

⁴⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12 Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraff 4.9

⁴⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12 Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraff 2.3

⁴⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12 Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraffau 4.7-4.8

⁴⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12 Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraff 3.18

⁴⁹⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 34-35

yn anodd asesu ymarferoldeb y Bil. Dywedodd hefyd ei bod wedi codi pryderon wrth ymateb i'r Bil drafft ynghylch nifer y pwerau gwneud rheoliadau. Dywedodd fod y cynnydd a wnaed i'r perwyl hwn rhwng y Bil drafft a'r Bil fel y'i cyflwynwyd wedi bod yn fach iawn.⁴⁹¹ Dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru hefyd fod y diffyg manylion yn golygu ei bod yn anodd deall sut y bydd y model cofrestru'n gweithio'n ymarferol.⁴⁹²

477. Dywedodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru eu bod yn croesawu'r hyblygrwydd o fewn y Bil ac nad oedden nhw am iddo fod yn rhy ragnodol. Fodd bynnag, dywedasant y byddai'n ddefnyddiol iawn i reoliadau drafft fod ar gael ochr yn ochr â'r Bil. Dywedasant y dylent gael gwybod cyn i'r Bil gael ei basio beth fydd amodau cyffredinol o ran cofrestru a rheoleiddio.⁴⁹³

478. Dywedodd Colegau Cymru fod llawer o'r rheoliadau, cynlluniau a chodau arfaethedig yn cyfeirio at ymgynghori â phersonau priodol. Gan y bydd llawer o fanylion y Bil a'i effaith yn cael eu pennu gan offerynnau statudol o dan y weithdrefn negyddol, roeddent am weld mwy o bwyslais ar ymgynghori ystyrlon. Roeddent hefyd am weld gofyniad i ddangos bod ymdrechion gwirioneddol wedi'u gwneud i ymgynghori â "phersonau priodol"⁴⁹⁴. Soniodd Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Sant Joseff hefyd am yr angen i sicrhau y bydd yr ymgynghoriadau'n eang ac yn cynnwys y sefydliadau yr effeithir arnynt.⁴⁹⁵ Galwodd Addysg Oedolion Cymru am ragor o wybodaeth ynghylch sut y bydd y gofynion ymgynghori yn y Bil yn cael eu gweithredu'n ymarferol.⁴⁹⁶

479. Galwodd Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru i'r materion sylweddol o ran rheoleiddio a oedd i fod i gael eu gwneud drwy reoliadau fod yn destun craffu llawn gan y Senedd, a hynny drwy'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.⁴⁹⁷

480. Roedd gan Brifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru bryderon penodol ynghylch pŵer Harri'r VIII sylweddol sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio deddfwriaeth

⁴⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 22 Prifysgol Caerdydd, paragraffau 5.1-5.2

⁴⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 12 Y Brifysgol Agored yng Nghymru, paragraff 4.1

⁴⁹³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion, paragraff 139

⁴⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 31 Colegau Cymru, Atodiad A, paragraff 3.1

⁴⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 37 Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Sant Joseff

⁴⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 29, Addysg Oedolion Cymru, paragraff 8

⁴⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 1.5

sylfaenol yn ddiweddarach drwy reoliadau. Galwasant i'r pŵer yn adran 141 gael ei adolygu gan gyfyngu ar ei ddefnydd posibl.⁴⁹⁸ Cododd Prifysgol Abertawe bryderon hefyd am y pŵer hwn.⁴⁹⁹

481. Dywedodd y Gweinidog fod yr ystod eang o bwerau gwneud rheoliadau yn dod mewn categorïau gwahanol. Mae'r categorïau hyn yn cynnwys: rheoliadau i alluogi'r sector i fod yn addas ar gyfer y dyfodol; rheoliadau na chaiff eu defnyddio am beth amser o bosibl; a rheoliadau technegol y mae'n rhaid eu gwneud. Roedd yn cydnabod bod yna gyfres o reoliadau a fyddai'n cael effaith polisi mwy sylweddol, ac y byddai'n ddefnyddiol iddynt fod ar gael cyn gynted â phosibl.⁵⁰⁰

482. Tua diwedd ein gwaith craffu, dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn annhebygol y gallai'r Llywodraeth rannu rheoliadau drafft â'r Comisiwn yn ystod hynt y Bil. Roedd hyn er mwyn sicrhau y byddai rhanddeiliaid yn cael digon o gyfleoedd i lywio datblygiad y rheoliadau ac i sicrhau y byddent yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r Bil o ganlyniad i waith craffu'r Senedd.⁵⁰¹

Safbwynt y Pwyllgor

Diddymu Corfforaethau Addysg Uwch

483. Er bod adran 135 yn effeithio'n uniongyrchol ar ddim ond tri sefydliad yng Nghymru, rydym wedi cael tystiolaeth glir, gyson a chryf iawn am hyd a lled y pŵer. Ni wnaeth y sawl a ymatebodd ofyn i'r pŵer gael ei ddileu yn gyfan gwbl, ond roeddent am ei weld yn cael ei ddiwygio i'w gysoni â'r darpariaethau yn Lloegr, a fyddai'n darparu amddiffyniad rhag diddymu sefydliad yn erbyn ei ewyllys. Rydym yn cytuno bod y pŵer fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd yn anghymesur a bod angen ei ddiwygio. Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn flaenorol wedi **mynegi bwriad** i ddefnyddio'r pŵer presennol i ddiddymu Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC, Prifysgol Metropolitan Caerdydd bellach) yn erbyn ewyllys ei chorff llywodraethu fel rhan o bolisi rhagweithiol o ad-drefnu'r sector pan ddiddymwyd dau gorfforaeth addysg uwch arall i greu Prifysgol De Cymru.

484. Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i ddiwygio'r adran hon, ac rydym yn argymhell bod adran 135 yn cael ei diwygio fel bod naill ai corfforaeth addysg uwch yn gofyn i gael ei diddymu neu bod corfforaeth addysg uwch yn cydsynio cyn y gellid ei diddymu. Credwn

⁴⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 36, Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, paragraff 6.13

⁴⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 39 Prifysgol Abertawe

⁵⁰⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion, paragraffau 111-112

⁵⁰¹ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Chwefror 2022

fod hyn yn taro'r cydbwysedd cywir, a byddai'n dangos bod y pŵer yn cael ei gadw'n syml fel ateb os metha popeth arall mewn argyfwng.

Argymhelliad 34. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i greu gofyniad diamwys i gael cydsyniad corff llywodraethu corfforaeth addysg uwch cyn ei diddymu, neu y diddymir ar gais corff llywodraethu corfforaeth addysg uwch.

Diffiniadau

485. Diolchwn i Dysgu Oedolion yn y Gymuned am dynnu ein sylw at yr anghysondeb yn y diffiniad o addysg drydyddol. Rydym yn cytuno â'r sefydliad bod hwn yn debygol o fod yn gamgymeriad, a hoffem weld y diffiniad yn y Bil yn cael ei ddiwygio yn unol â'r diffiniad yn Nodiadau Esboniadol y Bil.

Argymhelliad 35. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i ehangu'r diffiniad i gynnwys dysgu oedolion yn y gymuned, yn unol â'r diffiniad yn y Nodiadau Esboniadol.

Rôl unigryw y Brifysgol Agored

486. Nodwn y pryderon a godwyd gan y Brifysgol Agored, yn enwedig mewn perthynas â'r angen i symud yn gyflym wrth ddatblygu'r rheoliadau perthnasol. Rydym yn cytuno bod angen gwneud y gwaith hwn ar fyrder. Mae cysylltiad agos rhwng hyn a'r safbwyntiau a amlinellir yn yr adran nesaf.

Y defnydd a wneir o bwerau gwneud rheoliadau

487. Bydd llawer o'r manylion sut y bydd y Bil yn gweithio i'w gweld yn y rheoliadau. Credwn fod hyn yn briodol ar y cyfan, a'i fod hefyd yn galluogi gwneud newidiadau yn y dyfodol, a fydd, gobeithio, yn gwneud y ddeddfwriaeth yn wydn yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n siomedig iawn, pan fo'r manylion yn y rheoliadau mor hanfodol i sut y bydd y Bil yn gweithio'n ymarferol, nad oedd y rheoliadau allweddol ar gael i'w hystyried fel rhan o'r broses graffu hon.

488. Rydym yn nodi llythyr y Gweinidog ar 14 Chwefror, lle mae'n nodi na fydd rheoliadau drafft ar gael i'r Pwyllgor cyn diwedd ein gwaith craffu. Mae hyn yn siomedig iawn. Yn fwy felly pan fyddwn yn ystyried yr amser y mae wedi'i gymryd i ddatblygu a chyflwyno'r Bil (gan gydnabod y tarfu a achoswyd gan COVID-19). Credwn fod peidio â chael y rheoliadau drafft hyn wedi rhwystro rhanddeiliaid rhag deall goblygiadau llawn y Bil mewn rhai meysydd allweddol (fel amodau cofrestru a hawliau dysgu gydol oes). Rydym yn cydnabod yr amser a'r trefniadau ymgynghori sydd eu hangen wrth lunio rheoliadau. Ond pan fo cymaint o fanylion am sut y bydd y Bil yn gweithredu yn y rheoliadau hyn, mae'n anodd i ni ac i rhanddeiliaid ffurfio barn ystyriol, neu benderfynu pa welliannau, os o gwbl, sydd eu hangen. Byddem yn annog y

Gweinidog i ddarparu rhagor o fanylion am y meysydd allweddol hyn cyn diwedd y cyfnodau diwygio er mwyn sicrhau y gall y Senedd ystyried y Bil yn ei gyd-destun ehangaf a chaniatáu i'r Aelodau gyflwyno unrhyw welliannau sydd eu hangen.

489. Hoffem weld y rheoliadau drafft yn cael eu cyhoeddi o dan adran 23; 25; 31; 32 81; 91; 107 a 140 i'w cyhoeddi ar ffurf drafft cyn trafodion Cyfnod 2, a chyda digon o amser i alluogi Aelodau a rhanddeiliaid i'w hystyried a llunio unrhyw welliannau sydd eu hangen.

Argymhelliad 36. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rheoliadau drafft ar:

- Categoriâu cofrestru (adran 23(2))
- Amodau cofrestru (adrannau 25(3); 31(1); 32)
- Dynodi darparwyr addysg drydyddol eraill (adran 81(4))
- Sicrhau a chyllido addysg drydyddol (adran 91(3); 91(7)(b))
- Prentisiaethau (adran 107(4))
- Y Brifysgol Agored (adran 140(1))

cyn trafodion Cyfnod 2.

11. Anghenion Dysgu Ychwanegol

Clywsom bryderon ynghylch sut y bydd y Bil hwn yn rhyngweithio â'r ddeddfwriaeth bresennol ar anghenion dysgu ychwanegol. Credwn fod angen mwy o eglurder ar y materion hyn.

490. Mae'r Memorandwm Esboniadol dweud y bydd "gofyn i'r Comisiwn ystyried anghenion personau sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac a oes angen darparu cyfleusterau i gyflawni'r dyletswyddau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018"). Mae'n dweud mai'r "bwriad" yw i'r Comisiwn "sicrhau cyfleusterau cyffredinol, priodol a rhesymol" ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a bydd awdurdodau lleol "yn gyfrifol am sicrhau a chyllido darpariaeth arbenigol i ungiolion, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth bwyd a llety angenrheidiol, o dan Deddf 2018."⁵⁰²

491. Clywsom bryderon gan randdeiliaid nad oedd y Bil yn rhoi digon o ystyriaeth i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY"). Dywedodd Cynghair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector fod y diffyg cyfeiriad yn y Bil yn ei siomi, yn enwedig yng nghyd-destun ehangder y Bil. Roedd yn pryderu na fyddai'r myfyrwyr hyn yn cael eu cynnwys yn y mesurau diogelu a gynigir gan y Comisiwn, gan gredu ei bod yn ymddangos yn wahaniaethol ac y gallai effeithio ar ymlyniad â'r Cod ADY. Roedd hefyd am i gyllid ar gyfer interniaethau â chymorth gael ei gynnwys yn y Bil.⁵⁰³ Galwad a gefnogodd Anabledd Dysgu Cymru.⁵⁰⁴ Tynnodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru sylw bod y dyletswyddau cyffredinol yn y Bil hwn yn wahanol iawn i ddarpariaethau yn Neddf 2018, roedd yn arbennig o bryderus am yr effaith ar y dysgwyr nad ydynt mewn darpariaeth brif ffrwd, neu sy'n byw mewn rhannau o Gymru sy'n fwy gwledig.⁵⁰⁵

492. Roedd Anabledd Dysgu Cymru hefyd yn pryderu am ddiffyg cymharol cymorth yn y Bil i bobl ag anableddau dysgu a phobl niwrowahanol. Galwodd i egwyddorion gael eu cynnwys a fydd yn arwain at gynnwys y grwpiau hyn yn benodol yn y ddeddfwriaeth hon.⁵⁰⁶ Galwodd

⁵⁰² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), paragraffau 3.276-3.277, 1 Tachwedd 2020

⁵⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 34, Cynghair y Trydydd Sector ar Anghenion Ychwanegol

⁵⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 44, Anabledd Dysgu Cymru

⁵⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 14, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

⁵⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 44, Anabledd Dysgu Cymru

NDCS (Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar) Cymru i'r llwybr dilyniant gael ei wneud yn gliriach i fyfyrwyr byddar.⁵⁰⁷

493. Roedd Natspec yn pryderu na fyddai cwmpas y Comisiwn yn cynnwys colegau Addysg Bellach arbenigol i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth. Galwodd i'r ddarpariaeth hon gael ei chydabod fel rhan o'r sector ôl-16. Hefyd, tynnodd sylw ei bod yn ymddangos nad oedd dim cysylltiad rhwng y diwygiadau hyn a'r ddeddfwriaeth ADY, sy'n sefydlu cofrestr sy'n cynnwys colegau Addysg Bellach arbenigol, y cyfeirir atynt fel Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol. Roedd yn teimlo y byddai hyn yn arwain at effeithiau negyddol ar bobl ifanc ag ADY cymhleth. Galwodd i reoliadau gynnwys, yn benodol, addysg anachrededig a gyrchir gan sefydliadau Addysg Bellach a cholegau Addysg Bellach arbenigol. Mae'n teimlo y byddai peidio â chynnwys y math hwn o ddarpariaeth yng nghwmpas y Comisiwn yn arwain at gategoreiddio:

*"these learners as 'other', for whom regulation, quality assurance, professional development of the workforce and research are not deemed relevant. Protecting the interests of this group of Wales's learners should be a responsibility of the Commission as it is for their less disabled peers."*⁵⁰⁸

494. Roedd Estyn yn pryderu nad oedd y Bil yn ddigon clir ynghylch "rôl y Comisiwn o ran ariannu" dysgwyr ag ADY i gael "darpariaeth briodol." Galwodd am ragor o eglurhad ynghylch sut y "gellid ariannu dysgwyr â llawer o anghenion yn wahanol, yn ôl y math o ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt ..." ⁵⁰⁹ Dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin, oherwydd na fydd y Comisiwn yn gyfrifol am ariannu ADY, ei bod yn "atgyfnerthu'r argraff na fydd yn canolbwyntio ar y dysgwr yn ei waith."⁵¹⁰ Roedd Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector yn credu bod y Bil yn gyfle i Lywodraeth Cymru egluro amwysedd sy'n deillio o'r diwygiadau ADY. Mae'r rhain yn ymwneud â mecanweithiau ariannu gwahanol sy'n golygu bod y llwybr i goleg Addysg Bellach arbenigol yn llawer llai sicr nag i bobl ifanc sy'n gadael ysgol arbennig i fynd i sefydliad addysg bellach.⁵¹¹

495. Croesawodd Comisiynydd y Gymraeg y gofynion yn y Bil i sicrhau bod darpariaeth ADY ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys cyfleusterau ar gyfer asesu a oes gan berson anghenion dysgu

⁵⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 41, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru](#)

⁵⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 35, Natspec](#)

⁵⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 11, Estyn](#)

⁵¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 20, Adran Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin, paragraff 1.6](#)

⁵¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 34 Cynghrair y Trydydd Sector ar Anghenion Ychwanegol](#)

ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg.⁵¹² Roedd Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn cefnogi'r gofynion hyn, ond roedd yn teimlo y dylai fynd ymhellach i gysoni â'r trawsnewid ADY i ddarparu cyrsiau sy'n galluogi dilyniant i ddisgyblion 16-25 oed ac ymlaen.⁵¹³

496. Galwodd y Comisiynydd Plant am fwy o gysondeb â'r newidiadau sy'n deillio o Ddeddf 2018. Galwodd am fecanwaith yn y Bil yn "gofyn" i'r Comisiwn ystyried yr adolygiadau sy'n orfodol o dan God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 lle y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried i ba raddau y mae trefniadau yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY. Mae hyn hefyd yn cynnwys darpariaeth dysgu ychwanegol yn Gymraeg.⁵¹⁴

497. Pwysleisiodd Mudiad Meithrin na ddylai dysgwyr ag ADY wynebu anawsterau wrth fynd i'r ddarpariaeth, ac y byddai angen "gweithdrefnau clir a chadarn" i sicrhau y gall dysgwyr gael cymorth yn ystod eu hyfforddiant.⁵¹⁵

498. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai dyletswydd statudol ar y Comisiwn i sicrhau ac ariannu cyfleusterau a darpariaeth, "gan gynnwys cyllid i ddiwallu anghenion pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol." Wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddo "ystyried a yw anghenion pobl ag ADY yn cael eu diwallu."⁵¹⁶

499. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd ynghylch sut y bydd darparwyr yn atebol am ddiwallu anghenion myfyrwyr ag ADY, cadarnhaodd y Gweinidog mai'r "ddeddfwriaeth sylfaenol" ar gyfer cymorth dysgwyr ag ADY yw Deddf 2018. Mae'r Ddeddf hon yn cwmpasu plant a phobl ifanc ag ADY yn yr ysgol a thra byddant mewn addysg bellach os ydynt dros oedran ysgol gorfodol. Dywedodd fod dyletswydd ar y Comisiwn i ariannu darpariaeth ar gyfer ADY "ar lefel poblogaeth ond nid yw'n ofynnol iddo gyllido'r holl ddarpariaeth ADY ar gyfer dysgwyr ôl-16." Bydd y Comisiwn yn "asesu digonolrwydd y cyfleusterau ar gyfer" darpariaeth ADY "yn gyffredinol". Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am sicrhau "darpariaeth ADY arbenigol ar gyfer unigolion rhwng 16 a 25 oed sydd ag anghenion cymhleth mewn colegau arbenigol preifat lle mae'n ofynnol iddynt gynnal Cynlluniau Datblygu Unigol ar eu cyfer". Dywedodd mai awdurdodau lleol sydd "yn y sefyllfa orau" i wneud trefniadau sy'n diwallu anghenion dysgwyr unigol yn lleol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eto pryd y bydd Deddf 2018 yn cychwyn i bobl ifanc dros 16 oed. Ond mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i "ystyried y Bil a'r

⁵¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 03 Comisiynydd y Gymraeg, paragraff 2.4](#)

⁵¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 09 Cyngor Sir Ceredigion](#)

⁵¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 28, Comisiynydd Plant Cymru](#)

⁵¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TER 07 Mudiad Meithrin, paragraff 7](#)

⁵¹⁶ [Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 4 Chwefror 2022, paragraff 7.1](#)

dogfennau ategol i ganfod a oes angen unrhyw ddiwygiadau i egluro ymhellach y sefyllfa mewn perthynas â sefydliadau anghenion dysgu ychwanegol arbenigol neu'r gofynion a'r cysylltiad â Deddf ADY 2018.”⁵¹⁷.

500. Dywedodd y Gweinidog hefyd y bydd yn “ofynnol” i'r Comisiwn ystyried “anghenion addysg bellach a hyfforddiant y gweithlu ADY.” Bydd hyn hefyd “yn benodol” yn cynnwys cynnal asesiadau a darparu cymorth anghenion dysgu yn Gymraeg. Dywedodd y dylai hyn olygu yr ystyrir ADY ar ddechrau penderfyniadau cynllunio ac ariannu, yn hytrach nag “ar ôl i benderfyniadau cyllido eraill gael eu gwneud.” Bydd y Comisiwn hefyd yn gallu gosod telerau ac amodau ar gyllid, “gan gynnwys gofynion rheoliadol mewn perthynas ag anghenion personau ag ADY.”⁵¹⁸.

Safbwynt y Pwyllgor

501. Nodwn bryderon manwl rhanddeiliaid a byddem yn croesawu mwy o eglurder a sicrwydd gan y Gweinidog ar y materion hyn, yn enwedig y bydd y Comisiwn yn ystyried anghenion dysgu ychwanegol pobl. Mae'n hanfodol bod y ddarpariaeth honno'n cael ei chynnal a'i hehangu, lle y bo angen, i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr.

Argymhelliad 37. Bod y Gweinidog yn rhoi mwy o eglurder, naill ai fel rhan o'r ddadl yng Nghyfnod 1 neu'n ysgrifenedig cyn i Gyfnod 2 ddechrau ar sut y bydd y Bil yn cyd-fynd â Deddf 2018 ac y bydd yn cefnogi darpariaeth a chymorth priodol i ddysgwyr a myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

⁵¹⁷ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 4 Chwefror 2022, paragraffau 8.1-8.3.

⁵¹⁸ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 4 Chwefror 2022, paragraff 7.2.

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar [wefan y Pwyllgor](#).

Dyddiad	Enw a Sefydliad
18 Tachwedd 2021	Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Zenny Saunders, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, Llywodraeth Cymru David Morris, Tîm Polisi, Llywodraeth Cymru Cath Wyatt, Rheolwr y Bil, Llywodraeth Cymru Dr David Blaney, Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) Bethan Owen, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)
02 Rhagfyr 2021	Yr Athro Elizabeth Treasure, Cadeirydd Prifysgolion Cymru ac Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth Yr Athro Maria Hinfelaar, Is-gadeirydd Prifysgolion Cymru ac Is-Ganghellor Prifysgol Glyndŵr Wrecsam Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr Prifysgolion Cymru Maxine Penlington, Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam ac yn cynrychioli Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (ChUW) Dr Lynn Williams, Ysgrifennydd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (ChUW) Louise Casella, Cyfarwyddwr, Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	Cerith Rhys Jones, Rheolwr Materion Allanol, Y Brifysgol Agored yng Nghymru Guy Lacey, Cadeirydd ColegauCymru a Phrif Swyddog Gweithredol Coleg Gwent Dafydd Evans, Prif Swyddog Gweithredol Grŵp Llandrillo Menai ac yn cynrychioli ColegauCymru Dr Rachel Bowen, Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus, ColegauCymru Sharon Davies, Pennaeth Addysg, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) Becky Ricketts, Llywydd, Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru Joe Atkinson, Ymgynghorydd y Wasg a Materion Cyhoeddus, Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Gwenllian Griffiths, Prif Swyddog Ymgysylltu, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
09 Rhagfyr 2021	Jeff Protheroe, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru Arwyn Watkins, Rheolwr Gyfarwyddwr Cwmni Hyfforddiant Cambrian ac Aelod o'r Bwrdd, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru Kathryn Robson, Prif Weithredwr, Addysg Oedolion Cymru Dr John Graystone, Cadeirydd, Addysg Oedolion Cymru David Notley, Cyd-Gadeirydd, Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi (CCCA) Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd, Y Gymdeithas Ddysgedig

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	Yr Athro Helen Fulton, Is-lywydd y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, Y Gymdeithas Ddysgedig Alastair Delaney, Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Dirprwy Brif Weithredwr, Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch James Harrison, Swyddog Polisi, Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch David Gale, Rheolwr Sicrwydd Ansawdd, Cymru, Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch Jassa Scott, Cyfarwyddwr Strategol, Estyn Jackie Gapper, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Estyn Mary van den Heuvel, Uwch-swyddog Polisi, Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) Rebecca Williams, Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) Jamie Insole, Swyddog Polisi, Undeb Prifysgolion a Cholegau Lynne Hackett, Trefnydd Rhanbarthol, Arweinydd Addysg Bellach ac Uwch, UNSAIN Cymru Neil Butler, Swyddogol Cenedlaethol (Cymru), NASUWT
13 Ionawr 2022	Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Zenny Saunders, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO), Llywodraeth Cymru David Morris, Tîm Polisi, Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar **wefan y Pwyllgor**.

Cyfeiriad	Sefydliad
TER 01	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
TER 02	Jim Dickinson, Golygydd Cysylltiol yn Wonkhe
TER 03	Comisiynydd y Gymraeg
TER 04	NASUWT
TER 05	Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
TER 06	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
TER 07	Mudiad Meithrin
TER 08	UNISON
TER 09	Cyngor Sir Ceredigion
TER 10	Cyngor Deoniaid Iechyd Cymru
TER 11	Estyn
TER 12	Y Brifysgol Agored yng Nghymru
TER 13	Cyngor y Gweithlu Addysg
TER 14	Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
TER 15	Grŵp Colegau NPTC
TER 16	Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA)
TER 17	Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
TER 18	Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch (SDA)
TER 19	Grŵp datblygu ôl-16 y Gwasanaeth Addysg Gatholig

Cyfeiriad	Sefydliad
TER 20	Adran Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin
TER 21	Prifysgol Metropolitan Caerdydd
TER 22	Prifysgol Caerdydd
TER 23	Undeb y Prifysgolion a'r Colegau
TER 24	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
TER 25	Cymdeithas Ddysgedig Cymru
TER 26	Y Sefydliad Dysgu a Gwaith
TER 27	Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr
TER 28	Comisiynydd Plant Cymru
TER 29	Addysg Oedolion Cymru
TER 30	Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
TER 31	Colegau Cymru
TER 32	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
TER 33	Coleg Caerdydd a'r Fro
TER 34	TSANA (Cynghair y Trydydd Sector ar Anghenion Ychwanegol)
TER 35	Natspec
TER 36	Ymateb ar y cyd gan: Prifysgolion Cymru a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru
TER 37	Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth Sant Joseff
TER 38	Gweithgor Democratiaeth/Llywodraethu Pwyllgor Sector Addysg Uwch UCU Cymru
TER 39	Prifysgol Abertawe
TER 40	NAHT Cymru
TER 41	Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru
TER 42	Grŵp Russell
TER 43	Ymateb ar y cyd gan: Yr Athro Kirsti Bohata Fhea Flsw, Prifysgol Abertawe; Yr Athro Matthew Jarvis Flsw, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; a'r Athro Daniel G Williams Flsw, Prifysgol Abertawe

Cyfeiriad	Sefydliad
TER 44	Anabledd Dysgu Cymru
TER 45	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
TER 46	Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r holl ohebiaeth mewn perthynas â'r Bil i'w gweld ar y [wefan](#).

Teitl	Dyddiad
Llythyr gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg	14 Chwefror 2022
Llythyr gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg	04 Chwefror 2022
Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg	18 Ionawr 2022
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg	13 Ionawr 2022
Llythyr gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid	21 Rhagfyr 2022
Llythyr gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg	14 Rhagfyr 2021
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Weinidog y Gymraeg ac Addysg	10 Rhagfyr 2021
Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg	01 Rhagfyr 2021
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Addysg	26 Tachwedd 2021
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg	24 Tachwedd 2021
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig	19 Hydref 2021